# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

Dydd Gwener, 4 Chwefror 2022

Lisa Evans

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu, o bell trwy fideo-gynhadledda, Dydd Iau, 10 Chwefror 2022 am 2.00 pm i drafod y materion canlynol:**

**1. Ymddiheuriadau**

**2. Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio)**
**Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

**3. Cyllideb ddrafft 2022/23 (Tudalennau 3 - 66)**

**4. CONTEST - Strategaeth Gwrthderfysgaeth Llywodraeth y DU (Tudalennau 67 - 76)**

**5. Adroddiad ar gofnod penderfyniadau'r Gr?p Rheoli Aur Covid-19 (Tudalennau 77 - 92)**

**6. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyd-lynu a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2021 ac ystyried unrhyw faterion yn codi o'r Cofnodion hynny (Tudalennau 93 - 100)**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**



**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At:** **Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

## Cyngor Sir CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu** |
| **DYDDIAD:** | **10 Chwefror 2022** |
| **LLEOLIAD:** | **O BELL DRWY FIDEOGYNADLEDDA** |
| **TEITL:** | **Adroddiad am gyllideb ddrafft 2022/23** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Ystyried y gyllideb ddrafft, fel y'i hystyriwyd gan y Cabinet ar 1 Chwefror 2022.** |
| **RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** | **Mae craffu yn rhan annatod o broses pennu'r gyllideb.** |

**CEFNDIR:**

Gofynnir i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ystyried yr adroddiad am y gyllideb a gyflwynwyd gerbron y Cabinet ar 1 Chwefror 2022.

Bydd cyfle gan bob un o'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu thematig i ystyried cyllidebau'r gwasanaethau pan fyddant yn cwrdd.

**ARGYMHELLIAD:**

**Ystyried sefyllfa gyffredinol y gyllideb yn unol â'r hyn a nodir yn yr adroddiad a aeth gerbron y Cabinet.**

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:**

**Er mwyn cynorthwyo â pharatoi cyllideb gytbwys ar gyfer y flwyddyn nesaf.**

**Enw cyswllt:** Stephen Johnson, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael
**Dyddiad yr adroddiad:** 1 Chwefror 2022

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **1 Chwefror 2022** |
| **Teitl:** | **Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael ynghylch y gyllideb ddrafft ar gyfer 2022/23 a'r rhaglen gyfalaf tair blynedd.** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Er mwyn ystyried y gyllideb ddrafft ar gyfer 2022/23, gan gynnwys y rhaglen gyfalaf tair blynedd a gwneud argymhelliad i'r Cyngor ynghylch lefel Treth y Cyngor. Bydd yr adroddiad hwn yn cefnogi gwaith Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r Gyllideb.** |
| **Er:** | **Penderfyniad** |
| **Portffolio'r Cabinet:** | **Y Cyng. Ellen ap Gwynn, Arweinydd y Cyngor, a holl Aelodau'r Cabinet** |

## 1. DATGANIAD O'R SEFYLLFA GYFFREDINOL

Er bod y setliad uwch yn gadarnhaol ar gyfer sicrhau bod gwasanaethau i drigolion yn parhau, mae bwlch ariannu amcangyfrifedig o £3m yn golygu bod angen toriadau i wasanaethau a/neu leihau costau a/neu gynyddu incwm. Mae hyn oherwydd y pwysau ychwanegol eithriadol o ran costau a brofir ledled Cymru gyfan ac mae'r rhain heb eu tebyg o'r blaen. Mae llawer o Gynghorau eraill wedi gwneud yn well gyda'r setliad hwn fel y gwnaethant ar gyfer y flwyddyn gyfredol, ar hyn o bryd mae trigolion Ceredigion yn dal i dalu'n is na'r cyfartaledd ar draws Cymru Band D Treth y Cyngor. Mae cydnerthedd ariannol y Cyngor yn allweddol i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau yn parhau i gael y gwasanaethau gorau posibl yn y tymor canolig ac nid yn ystod y flwyddyn nesaf yn unig.

- **Chwyddiant a Threthi i'r Cyngor – o leiaf 8.8%,** sydd bellach yn uwch nag ar unrhyw adeg nag yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r Dreth Yswiriant Gwladol newydd ynghyd â'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn faich ychwanegol sylweddol ar ben codiadau chwyddiant.

- **Perfformiad** - Mae Ceredigion yn parhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n bodloni boddhad rheoleiddwyr allanol.

- **Arbedion** - Mae gofyn i'r Cyngor arbed o leiaf £15m erbyn Mawrth 2025 ar ben yr arbedion a gyflawnwyd rhwng Ebrill 2012 a Mawrth 2022 o £50m. Bydd hyn yn gyfanswm o £57.4m o arbedion a gyflawnwyd rhwng Ebrill 2012 a Mawrth 2023.

- **Gofal a Chymorth** - mae costau'n parhau i gynyddu'n aruthrol. Mae disgwyliad oes yn dda yng Ngheredigion – y disgwyliad oes cyfartalog ar gyfer dynion yw 79.3 o flynyddoedd ac 84.1 o flynyddoedd i fenywod. Mae'r ddau yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 78.5 mlynedd ar gyfer dynion ac 82.3 oed ar gyfer

menywod. Mae'r sawl sy'n hawlio Cymorth Treth y Cyngor wedi cynyddu'n sylweddol ac mae'n rhaid eu hariannu.

- **Cyflogau** – Gweithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol Cofrestredig yng Ngheredigion (lleiafswm o £9.90 o 1af Ebrill 2022 a chyfanswm amcangyfrif o gynnydd o £1.9m). Mae hyn yn rhan o bolisi Cymru gyfan Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn ei Chyllideb ddrafft.

- **Treth y Cyngor is na'r cyfartaledd** - mae Treth y Cyngor Band D yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru gyfan yng Ngheredigion.

- **Rhagolygon y Dyfodol** - Mae llythyr y gweinidog hefyd yn nodi cyllidebau dangosol ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol:

  *Y dyraniadau cyllid refeniw craidd dangosol ar lefel Cymru ar gyfer 2023-24 a 2024-25 yw £5.3 biliwn a £5.4 biliwn yn y drefn honno – sy'n cyfateb i gynnydd yn y flwyddyn gyntaf o £177 miliwn (3.5%) ac, yn yr ail flwyddyn, o £128 miliwn (2.4%).*

  Mae hyn yn arwydd clir y bydd y ddwy flynedd nesaf o bennu'r gyllideb yn rhai anodd i'r Cyngor, yn enwedig gan fod Ceredigion fel arfer yn cael swm isel o gymharu â setliad cyffredinol Cymru ar gyfartaledd. Ein hamcangyfrif yn seiliedig ar y sefyllfa flaenorol yw disgwyl cynnydd o tua 1.75% ar gyfer 2023-24 a dim ond 1.2% ar gyfer 2024-25.

## 2. SETLIAD REFENIW A CHYFALAF DROS DRO AR GYFER 2022/23

Cyhoeddwyd y setliad dros dro ar 22ain Rhagfyr 2021. Mae manylion llawn y setliad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:-

https://llyw.cymru/setliad-refeniw-chyfalaf-llywodraeth-leol-dros-dro-2022-i-2023


https://gov.wales/local-government-revenue-and-capital-settlement-provisional-2022-2023

Cymeradwywyd adroddiad pennu sylfaen Treth y Cyngor gan y Cabinet ar 7fed Rhagfyr 2021 a dychwelwyd y manylion i Lywodraeth Cymru i fwydo i gyfrifiadau'r setliad.

Cyfanswm y setliad refeniw, a elwir yn Gyllid Allanol Cyfun a ddyrannwyd i Geredigion ar gyfer 2022/23 yw £119.419m o gymharu â 2021/22 £110.006m (wedi'i addasu ar gyfer trosglwyddiadau) sef cynnydd o 8.6%. Mae Cymru gyfan wedi gweld cynnydd 9.4% ar gyfartaledd.

Newidiadau i’r Cyllid Allanol Cyfun yn 2022-23 fesul awdurdod lleol

**Ffynhonnell: Setliad Cyllid Llywodraeth Leol Dros Dro Llywodraeth Cymru 2022-23**




Mae'r cynnydd ar ben y trosglwyddiadau grant/cyllid a wnaed i'r setliad:

- £13.3m ar gyfer Ffioedd Clwyd Gwaredu Gwastraff (elfen Ceredigion - £237k)
- £0.285m ar gyfer y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol (Dim elfen Ceredigion)
- £5m ar gyfer y Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol (elfen Ceredigion - £114k)

Mae gan Geredigion £1,678 (21/22 £1,534) o gyllid y pen, o gymharu â chyfartaledd Cymru o £1,611 (21/22 £1,471) ac mae'r newid o un flwyddyn i'r llall yn 8fed o blith yr holl Awdurdodau Unedol. Treth y Cyngor band D ar gyfartaledd a bennwyd ar gyfer Ceredigion yn 2021-22 oedd £1,725, a oedd yn gyson yn is na chyfartaledd Cymru sef £1,731. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys praeseptau'r Heddlu a'r Cynghorau Tref a Chymuned.

Mae Setliad Ceredigion yn adlewyrchu ystod o symudiadau ailddosbarthu llai ffafriol yn ariannol a welir yn y boblogaeth a dangosyddion niferoedd disgyblion Ysgol Uwchradd. Mae Asesiadau o Wariant Safonol yn gyfrifiadau tybiannol o’r swm y mae angen i bob Cyngor ei wario er mwyn darparu lefel safonol o wasanaeth. Yr Asesiad o Wariant Safonol ar gyfer 2022/23 yw £166.372m, sef cynnydd o 7.2% (2021/22 £155.153m). Y cynnydd mwyaf sylweddol o ran gwasanaeth oedd Gwasanaethau Cymdeithasol Personol, sef 12.2%.

**3. Y GOFYNION O RAN Y GYLLIDEB**

Mae model y Gyllideb wedi'i ddrafftio i gynnwys yr addasiadau o ran y setliad dros dro. Bydd angen ystyried unrhyw addasiadau sydd eu hangen ac sy’n codi yn y setliad terfynol a'u hymgorffori'n briodol yn y gyllideb.

Mae'r gwaith asesu manwl, a wnaed i adnabod y pwysau anochel o ran costau sy'n wynebu'r Gwasanaethau, wedi'i gwblhau, ac mae hwn wedi nodi cyfanswm net o £13.1m, a grynhoir yn Atodiad 1. Mae'r swm yma bron yn ddwbl y blynyddoedd cynt ac yn £3.8m yn fwy na'r swm uwch sydd ar gael yn y setliad a byddai hyn gyfystyr a'r angen i gynyddu Treth y Cyngor o bron i 8%, fodd bynnag mae rhai arbedion ar gael i broses pennu’r gyllideb.

Daw costau cynyddol Gofal yn unig i £7m, gan gynnwys:-

- Cyflog Byw Gwirioneddol £9.90 y DU ac Yswiriant Gwladol Cyflogwyr 1.25% – yn effeithio ar y rhan fwyaf os nad y cyfan o’r Gwasanaethau a Gomisiynir yn ymwneud â Gofal (yn arwain at ffactorau chwyddiant dros dro o 8.87% ar gyfer Gofal Cartref / Byw â Chymorth, 9.13% ar gyfer Gofal Preswyl ac 11.15% ar gyfer Taliadau Uniongyrchol).
- Cartrefi Preswyl – adolygiad pennu ffioedd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.
- Taliadau Uniongyrchol.
- Plant sy'n derbyn gofal.
- Gofal Cartref.

Mae darparu ar gyfer chwyddiant mewn cyflogau hefyd yn ffactor arwyddocaol a amcangyfrifir yn £3.4m, ac fel y mae pethau nid oes cytundeb ffurfiol eto ar brif ddyfarniad cyflog 2021/22.

Ar ôl cymryd i ystyriaeth y cyllid posibl sydd ar gael, gellir cyflawni cyllideb fantoledig, mae hyn yn cynnwys arbedion a gyflawnwyd ymlaen llaw o'r newid o ran y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw ac mae angen targed arbedion o £0.5m ar hyn o bryd.

Mae Ardoll yr Awdurdod Tân yn amodol ar gadarnhad ffurfiol a rhagwelir y bydd yn arwain at bwysau o ran cost o £104k, a fydd angen cyllid brigdoriad.

Mabwysiadwyd ffordd gorfforaethol o ymdrin â cholledion a chostau net COVID19, yn hytrach na’r ffaith bod yn rhaid i bob gwasanaeth ysgwyddo’r rhan fwyaf o’r broblem a bwriedir talu’r swm hwn o’r Cronfeydd Wrth Gefn wedi’u Clustnodi. Mae’r dull hwn o weithredu wedi sicrhau bod rheolaeth ariannol cyllidebau 2021/22 a gweithgarwch busnes fel arfer wedi parhau’n gryf. Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd y costau caledi a’r incwm a gollir yn dod i gyfanswm gros o ychydig dan £7m gyda chymaint â phosibl yn cael ei adennill a’i adhawlio drwy grantiau/arian Llywodraeth Cymru.

Bydd costau ychwanegol yn sgil COVID-19 a rhywfaint o incwm coll yn parhau i gael eu gweld i mewn i'r flwyddyn 2022/23 a thu hwnt ac felly mae angen cyllideb gorfforaethol £750k o fewn cyllideb y Grŵp Arweiniol, yn ogystal â defnyddio cronfa wrth gefn a glustnodwyd gan gynnwys Cronfa Wrth Gefn COVID-19 a amcangyfrifir fel £1.25m. Nid oes dim ceisiadau am grant yn ddyledus y flwyddyn nesaf gan y bydd y Gronfa Galedi yn cau ac mae'r Setliad bellach yn cynnwys ar gyfer yr angen hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i barhau i gyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol am ddim ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol cyhyd ag y bo angen ac i barhau i ddarparu cyllid ar gyfer Profi, Olrhain a Diogelu.

Mae 4.75% ychwanegol o Dreth y Cyngor yn codi £2.1m gros, sy'n cyfateb i £1.8m net ar ôl darparu ar gyfer angen ychwanegol y gyllideb a roddir ar gynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor. Mae polisi adennill Incwm a chostau'r Cyngor yn golygu bod gwasanaethau'n parhau i adennill eu costau chwyddiannol sy'n berthnasol i wasanaethau y gellir codi tâl amdanynt gan ddefnyddwyr gwasanaethau, er mai'r broblem ar hyn o bryd yn y tymor agos yw sicrhau bod ffrydiau incwm yn cael eu hadennill i lefelau cyn Covid-19. Dangosir effaith gwahanol lefelau Treth y Cyngor yn y tabl isod:

| Cynnydd yn Nhreth y Cyngor % | Treth y Cyngor Band D Canlyniadol £ | Cyfanswm Cynnydd Blynyddol £ | Cyfanswm Cynnydd Misol £ |
|---|---|---|---|
| 0.0% | £1,412.59 | | |
| 3.0% | £1,454.97 | £42.38 | £3.53 |
| 3.5% | £1,447.90 | £49.44 | £4.12 |
| 4.0% | £1,469.09 | £56.50 | £4.71 |
| 4.5% | £1,476.16 | £63.57 | £5.30 |
| 4.75% | £1,479.69 | £67.10 | £5.59 |
| 5.0% | £1,483.22 | £70.63 | £5.89 |
| 5.25% | £1,486.75 | £74.16 | £6.18 |
| 6.0% | £1,497.35 | £84.76 | £7.06 |

Mae'r crynodeb canlynol yn nodi'r prif newidiadau i'r gyllideb arfaethedig a'i hadnoddau sydd ar gael:

**Crynodeb o'r Gyllideb a'r Prif Newidiadau**

**Yn seiliedig ar Gynnydd Treth y Cyngor o 4.75%**

| | | | | | £`000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adnoddau sydd ar Gael 2022/23** | | | | | |
| **Cyllid Allanol Cyfun (Grant Cynnal Refeniw + Ardreth Annomes** | *2021/22: £109,658* | | | | **119,419** |
| **Incwm Treth y Cyngor** | | | | | |
| Sylfaen Treth y Cyngor (yn unol ag adroddiad Cabinet 07/12/21) | | | | 31,655.77 | |
| Treth y Cyngor 2021/22 | | | £1,412.59 | | |
| **Treth y Cyngor 2022/23 yn cynyddu** | | **4.75%** | **£1,479.69** | | **46,841** |
| Sylfaen Premiwm Treth y Cyngor Ail Gartrefi (yn unol ag adroddiad Cabinet 07/12/21) | | | | 407.31 | |
| Treth y Cyngor 2021/22 | | | £1,412.59 | | |
| **Treth y Cyngor 2022/23 yn cynyddu** | | **4.75%** | **£1,479.69** | | **603** |
| **Cyfanswm yr Adnoddau sydd ar gael ar gyfer Gofynion y Gyllideb** | | | | | **166,862** |

Gan fod cynnig hwn y gyllideb ddrafft ar sail y setliad Dros Dro, mae’n destun unrhyw addasiadau y gall fod angen eu gwneud unwaith y bydd y Setliad Terfynol yn hysbys. Felly, gellir gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol yn unol â’r canlynol:

1. bydd gwerth unrhyw grantiau penodol a drosglwyddir i’r Grant Cynnal Refeniw yn cael eu pasio ymlaen at gyllideb y Gwasanaeth perthnasol;
2. bydd unrhyw newidiadau penodol eraill yn cael eu targedu’n uniongyrchol at y Gwasanaeth(au) a effeithir, os bydd hynny’n briodol; a
3. ymdrinnir ag unrhyw newidiadau eraill i’r Grant Cynnal Refeniw drwy addasu cyllideb refeniw gorfforaethol y Grŵp Arweiniol.

Mae'r crynodeb a ganlyn yn nodi'r prif newidiadau arfaethedig i angen y Gyllideb (yn seiliedig ar senario Treth y Cyngor o 4.75%), y cynigir ei gynyddu o £154.736m i £166.862m (cynnydd o £12.126m):

| | £`000 | £`000 | £`000 |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm yr Adnoddau sydd ar gael ar gyfer Gofynion y Gyllideb** | | | **166,862** |
| **Cyllideb Sylfaenol wedi’i Haddasu a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol** | | **154,736** | |
| Addasiadau Corfforaethol a Chyfrifoldebau Newydd: | | | |
| Dyraniadau Penodol | | | |
| - Ardoll Awdurdod Tân M&WWFA | 104 | | |
| - Lwfansau Aelodau / Offer Siambr yr Aelodau | 105 | | |
| - Premiwm 2il Gartrefi Treth y Cyngor | 45 | | |
| - Cynllun Cymorth Treth y Cyngor ac Ariannu Rhaglen Gyfalaf | 490 | | |
| | | **744** | |
| Trosglwyddiadau i mewn: | | | |
| - Grant Cymorth Ffioedd Clwyd Trin Gwastraff Bwyd a Gwastraff Gweddilliol | 237 | | |
| - Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol a Chynaliadwyedd | 114 | | |
| | | **351** | |
| **Cyfanswm** | | **1,095** | |
| Mwy o bwysau costau 'Busnes fel Arfer' ar Wasanaethau | | | |
| - Cyflogeion - Dyfarniad cyflog ac ardoll Yswiriant Gwladol ychwanegol | 4,504 | | |
| - Cyflogeion - Heb fod yn gysylltiedig â dyfarniad cyflog | 1,107 | | |
| - Cyflenwadau a Gwasanaethau (gan gynnwys Taliadau 3ydd Parti / Trosglwyddo) | 6,545 | | |
| - Colli incwm / cyllid grant | 23 | | |
| Wedi tynnu Rhagdybiaethau Ariannu | (500) | | |
| COVID19 | | | |
| - Darpariaeth Gorfforaethol COVID19 | 2,000 | | |
| - Wedi tynnu Rhagdybiaeth Ariannu - Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn wedi’u Clustnc | (1,250) | | |
| | | **12,429** | |
| Gostyngiadau Costau / Cynigion Arbedion | | | |
| - Arbedion Angenrheidiol | (498) | | |
| - Arbediad Corfforaethol - newid Darpariaeth Isafswm Refeniw | (900) | | |
| | | **(1,398)** | |
| **Amcangyfrif o’r Gyllideb Reoladwy a’r Gyllideb Net** | | | **166,862** |
| **Diffyg (-) / Balans** | | | **-** |

Byddai Treth y Cyngor o 5.0% yn Fand D o £1,483.22 cyfanswm Treth y Cyngor o £46.952m a llai o arbedion / gwariant uwch o £96k. Cyfanswm y Gyllideb £166.958m. Byddai Treth y Cyngor o 5.25% yn Fand D o £1,486.75 cyfanswm Treth y Cyngor o £47.064m a llai o arbedion / gwariant uwch o £192k. Cyfanswm y Gyllideb £167.054m.

Wrth drosi'r gyllideb gyffredinol i'r gwasanaethau, cynigir y dyraniadau yn unol â'r crynodeb isod (mae'r rhain yn amodol ar benderfyniadau terfynol y Cyngor Llawn ar y Gyllideb a lefelau Treth y Cyngor). Mae'r isod yn dangos y gyllideb wreiddiol ar gyfer y flwyddyn gyfredol, wedi'i haddasu ar gyfer trosglwyddiadau eraill y cytunwyd arnynt rhwng gwasanaethau a'r addasiadau corfforaethol i fyny at Gyfansymiau Arfaethedig y Gyllideb. Ceir mwy o wybodaeth hefyd yn Atodiad 2.

Cyfansymiau'r Gyllideb - Symudiadau Fesul Gwasanaeth (yn seiliedig ar senario Treth y Cyngor o 4.75%)

## 4. FFRAMWAITH Y GYLLIDEB A'R HER ARIANNOL

Caiff gwasanaethau'r Cyngor eu hariannu drwy gyfuniad o grant gan y Llywodraeth, Treth y Cyngor a ffioedd a thaliadau. Caiff incwm y ffioedd a'r taliadau ei osod yn erbyn y gwariant.

Fel y nodwyd cyn hyn mewn adroddiadau am gyllidebau, mae rhagamcanion ariannol y Cyngor yn nodi y bydd gwariant gwasanaethau yn parhau i godi gyda chyllid disgwyliedig yn disgyn dros y tymor canolig. Mae'r gymhareb ariannu rhwng arian canolog Llywodraeth Cymru ac arian lleol Treth y Cyngor wedi newid dros y blynyddoedd o fod yn agos at 80:20 yn 2013 i fod dros dro yn 72:28 yn awr ar gyfer 2022/23.

| | **Cyllideb Reoladwy Wreiddiol a Gymeradwywyd 2021/22 £'000** | **Cyllideb Reoladwy wedi'i Diweddaru (fel yn Ch3) 2021/22 £'000** | **Cyfansymiau'r Gyllideb Reoladwy Ddrafft 2022/23 £'000** | *Cyfansymiau Cyllideb Ddrafft 2022/23 o gymharu â Chyllideb wedi'i Diweddaru 2021/22 %* |
|---|---|---|---|---|
| Cyswllt Cwsmeriaid | 5,735 | 5,779 | 6,155 | *+6.5%* |
| Gwasanaethau Democrataidd | 4,096 | 4,120 | 4,391 | *+6.6%* |
| Economi ac Adfywio | 3,489 | 3,471 | 3,688 | *+6.3%* |
| Cyllid a Chaffael | 21,311 | 20,188 | 19,197 | *-4.9%* |
| Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol | 17,062 | 17,587 | 18,241 | *+3.7%* |
| Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu | 1,538 | 1,535 | 1,569 | *+2.2%* |
| Pobl a Threfniadaeth | 2,093 | 2,093 | 2,165 | *+3.4%* |
| Polisi, Pherfformiad a Amddiffyn y Cyhoed | 2,098 | 2,146 | 2,355 | *+9.7%* |
| Porth Cymorth Cynnar | 3,467 | 3,829 | 4,401 | *+14.9%* |
| Porth Cynnal | 23,763 | 23,633 | 28,648 | *+21.2%* |
| Porth Gofal | 11,369 | 11,656 | 13,617 | *+16.8%* |
| Ysgolion a Diwylliant | 49,841 | 48,721 | 50,965 | *+4.6%* |
| Arweiniol | 4,284 | 5,388 | 6,731 | *+24.9%* |
| Arollau, Premiwm Treth y Cyngor a Chronfeydd | 4,590 | 4,590 | 4,739 | *+3.2%* |
| **CYFANSWM** | **154,736** | **154,736** | **166,862** | ***+7.8%*** |

Fel yr amlinellir yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig un o brif agweddau strategaeth y gyllideb yw gwastatáu'r newidiadau cyllidebol sylweddol cymaint ag y gellir, er mwyn sicrhau bod effaith cyllidebau ar ddarparu gwasanaethau yn fwy cynaliadwy a hefyd er mwyn atal toriadau i wasanaethau naill ai ar yr adeg anghywir neu am y swm anghywir.

Cafwyd cydsyniad yn y Strategaeth hefyd ar yr egwyddor bod arbedion trawsnewid a wnaed cyn bod hynny'n ofynnol ar gyfer y gyllideb flynyddol yn cael eu rhoi i fod yn ddefnyddiol mewn cronfa a glustnodwyd yn gronfa wrth gefn. Byddai hyn yn digwydd drwy gyfrwng cyllideb y Grŵp Arweiniol a'r arian i'w ddefnyddio'n benodol ar gyfer Blaenoriaethau Strategol y Cyngor wrth ymwneud â gofynion cyfalaf untro. Yn ogystal, gellid rhoi'r arbedion i mewn i gyllideb sylfaenol blwyddyn berthnasol tua'r dyfodol pan fyddai gwir angen.

Rhagwelir y bydd setliadau cyllideb y blynyddoedd i ddod yn parhau i fod yn heriol ac felly wrth i bwysau COVID19 gilio a gallu sefydliadol ganiatáu, bydd yn hanfodol bod arbedion Trawsnewid ynghyd â gwelliant parhaus/arbedion effeithlonrwydd yn parhau i gael eu symud ymlaen a'u cyflawni.

Mae'r eitemau Cyfalaf mwyaf arwyddocaol sy'n gofyn am fuddsoddiad parhaus / newydd trwy barhau i ddefnyddio egwyddorion y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, y Cynlluniau Amddiffyn yr Arfordir sydd ar ddod (o bosibl yn gofyn am oddeutu £3.5m tuag at amcangyfrif £23m o ran costau'r cynllun) a chynlluniau sy'n gysylltiedig â Blaenoriaeth Gorfforaethol Hybu'r Economi.

Bydd yr olaf o'r rheini yn cynnwys bargen Twf Tyfu Canolbarth Cymru a gymeradwywyd yn ddiweddar, a fydd yn gofyn am arian cyfatebol ac ymrwymiad ariannol i fynd ochr yn ochr ag arian a sicrhawyd gan Lywodraeth Cymru a Thrysorlys Ei Mawrhydi dros y 15 mlynedd nesaf. Mae cefnogi'r economi leol hyd yn oed yn bwysicach mewn byd ar ôl Covid19 ac o bosibl yn golygu bod angen mwy o fuddsoddiad ariannol.

Felly byddai'n briodol ac mae'n parhau i fod yn bwysig gallu cyflawni gostyngiadau mewn costau er mwyn mantoli'r cyllidebau blynyddol, yn hytrach na thorri'r symiau sydd ar gael i'w buddsoddi mewn cynlluniau sy'n cael blaenoriaeth o ystyried maint y buddsoddiad cyfalaf sy'n debygol o fod ei angen yn y tymor canolig.

## 5. RISGIAU I'R GYLLIDEB

Mae'r papur arferol ynghylch y Risgiau i'r Gyllideb, sydd wedi'i ddiweddaru i nodi newidiadau perthnasol, wedi'i atodi (Atodiad 3). Heb fod mewn trefn benodol, mae'n adnabod y prif risgiau i'r gyllideb ynghyd â sylwadau priodol a'r mesurau rheoli sydd ar waith i leihau'r risg.

## 6. RHAGLEN GYFALAF

Mae cyllid cyfalaf wedi gostwng yn sylweddol ledled Cymru o £177.8m i £150m. Dyraniad Ceredigion yw £4.891m (roedd y swm eleni yn £5.785m), sef gostyngiad o £894k. Rhennir y dyraniad rhwng Grant Cyfalaf Cyffredinol £1.995m (£2.896m 21/22) a Benthyca â Chymorth Heb ei Neilltuo £2.896m (£2.889m 21/22). Mae'r arwydd y

bydd cyfalaf yn cynyddu ar gyfer 2023/24 er nad yn union yn ôl i lefelau'r flwyddyn gyfredol. Serch hynny, bydd cyllid ychwanegol ar gael ar gyfer yr agenda Newid yn yr Hinsawdd gyda Chyllideb Llywodraeth Cymru yn dangos £20m ychwanegol ar gyfer 'Datgarboneiddio Llywodraeth Leol' yn 2023/24 a 2024/25.
Mae rhaglen Gyfalaf sydd wedi'i diweddaru wedi'i hatodi (Atodiad 5) ynghyd â'r Strategaeth Gyfalaf (Atodiad 6).

Y Rhaglen Gyfalaf Gyffredinol a gynigir ar gyfer 2021/22 yw £22.661m a 2022/23 yw £40.282m. Nid yw rhaglenni 2023/24 a 2024/2025 wedi cynnwys grantiau nad ydyn nhw'n hysbys ar hyn o bryd. Bydd grantiau ychwanegol hefyd i'w hychwanegu at raglen 2022/23 yn nes ymlaen yn y flwyddyn gan mai dim ond grantiau sy'n rhedeg dros fwy na blwyddyn y mae'n eu cynnwys.

Mae'r rhaglen ddiweddaraf ar gyfer 2021/22 yn ostyngiad arfaethedig, yn bennaf oherwydd llithriant, o £4.331m, o bedwar ar hugain o gynlluniau gyda phedwar yn cyfrif am dros £2.3m sef £900k yn erbyn gwaith cyfalaf ychwanegol ysgolion, £687k Uned Cymorth Dysgu Ysgol Penglais, £380k yn erbyn y Gronfa Ysgogi Economaidd a £300k o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band B). Yn ogystal, mae £508k wedi'i ychwanegu at y rhaglen mewn perthynas â Phrosiectau Codi'r Gwastad.

Mae'r elfennau o'r rhaglen a ariennir gan y Cyngor ar gyfer 2022/23 yn gynlluniau cylchol ar y cyfan a'r cynlluniau a ariennir yn sylweddol gan grantiau yw Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B a'r Cynlluniau Amddiffyn yr Arfordir a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Mae gwaith mewn perthynas â'r Cynlluniau Amddiffyn yr Arfordir yn Aberaeron ac Aberystwyth yn mynd rhagddo. Amcangyfrifir y bydd y cynlluniau'n costio £23m a ariennir yn bennaf gan Lywodraeth Cymru gyda'r Cyngor ar hyn o bryd yn disgwyl ariannu 15% neu £3.45m. Daw'r cyllid gan y Cyngor o'r Gronfa Wrth Gefn Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol. Proffiliwyd y gwariant £23m dros y blynyddoedd ariannol canlynol 2022/23, 2023/24 a 2024/25.

Bydd gan raglen Tyfu Canolbarth Cymru gynlluniau penodol i'w hychwanegu at y rhaglen gyfalaf tair blynedd ar ôl iddynt gael eu datblygu ymhellach.

Mae'r Cyngor wedi bod yn llwyddiannus wrth gael cymeradwyaeth am grant codi'r gwastad o £10.8m gan Lywodraeth y DU sy'n ymwneud â chyflawni cynlluniau ar draws 2021/22 hyd at flwyddyn 2024/25.

Mae balans y derbyniadau cyfalaf o Ddatblygiad Dan Dre yn Aberystwyth yn £1.7m ar ôl darparu ar gyfer caffael safle Arriva ar gyfer Datblygu Economaidd.

Felly mae'r Rhaglen Gyfalaf a'r Strategaeth Gyfalaf yn awr yn cael eu cyflwyno ar gyfer eu cymeradwyo a'u hargymell i'r Cyngor, fel rhan o broses cyllideb y Cyngor.

**7. CYDNERTHEDD ARIANNOL A CHRONFEYDD WRTH GEFN**

Mae cydnerthedd ariannol y Cyngor yn parhau i fod yn gryf ac yn gadarn am nifer o resymau sydd oll yn sail i reolaeth ariannol dda. Mae Archwilio Cymru yn adolygu ac yn herio dull gweithredu'r Cyngor o ran cynllunio ar gyfer y dyfodol a chynaliadwyedd yr Arian. Ymyrrwyd yn gynnar yn y blynyddoedd diwethaf i fynd i'r afael â bylchau yn

y gyllideb yn uniongyrchol gydag agwedd ddiwyd tuag at ymdrin â hwy a chymerwyd penderfyniadau i gynnal lefelau gwasanaethau yn y Sir i gwrdd â'r galwadau cynyddol a achosir gan gynifer o ffactorau allanol.

Ni fydd yn hawdd cynnal cydnerthedd ariannol presennol y Cyngor yn y tymor canolig, ond rhaid cydnabod y dylem allu bod yn hyderus y gallwn barhau i wneud ein gorau glas i gael y canlyniad cywir o dan yr amgylchiadau.

Mae'r cronfeydd wrth gefn sydd gan y Cyngor eisoes yn gymorth mawr i gadw lefelau Treth y Cyngor i lawr. Roedd y Cyngor wedi cynnal lefel o tua £20m o fenthyca mewnol drwy ddefnyddio arian a gedwir mewn cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi sydd wedi lleihau'r angen i fenthyca. Amcangyfrifir bod y dull hwn o weithredu wedi arbed £800k y flwyddyn i'r trethdalwr sy'n cyfateb i arbediad o bron i 2% yn flynyddol mewn taliadau Treth y Cyngor. Heb ddigon o arian wrth gefn ni ellir pwysleisio digon y gost amcangyfrifedig o ddatrys benthyca mewnol ac ymgymryd â benthyca darbodus i ariannu cynlluniau cyfalaf angenrheidiol i gefnogi'r economi leol.

Mae'r gyllideb bob amser wedi'i phennu fel nad oes dim galw o Falansau'r Gronfa Gyffredinol i gefnogi'r gyllideb sylfaenol ac eithrio ar gyfer ariannu eitemau untro eithriadol a blaenoriaethol y cytunwyd arnynt.

Cyfeiriodd Archwilio Cymru yn eu Hasesiad diweddaraf o Gynaliadwyedd Ariannol at y canlynol:-

> *'Bydd cynghorau sy'n defnyddio eu cronfeydd wrth gefn heb gynllunio i wneud hynny er mwyn cau bylchau yn eu cyllidebau refeniw yn lleihau eu cronfeydd wrth gefn ac yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau annisgwyl ar y gyllideb yn y dyfodol'.*

Targed cymeradwy'r Cyngor yw cynnal Balansau Cyffredinol rhwng 3% a 5% o'r gwariant net. Ar 31[ain] Mawrth 2021, roedd y balansau cyffredinol yn 4.0% (£6.1 miliwn) ac mae'r balans a ragwelir yn parhau'n wastad o ran y swm, sydd ychydig yn is o ran canran oherwydd y cynnydd yn y gyllideb sylfaenol.

| | **31.3.21** | **31.3.22** | **31.3.23** |
|---|---|---|---|
| | Gwirioneddol | Cynlluniedig | Cynlluniedig |
| Balansau Cyffredinol - Swm | £6.1m | £6.1m | £6.1m |
| Balansau Cyffredinol - Canran | 4.0% | 3.9% | 3.6% |

## 8. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG

Mae fersiwn wedi'i diweddaru wedi'i hamgáu fel Atodiad 4 i'w hystyried, nid oes dim newidiadau sylweddol na sylfaenol, mae'n cynnwys setiau data wedi'u diweddaru yn ogystal â'r sefyllfa ariannol ar gyfer y tymor canolig.

## 9. CASGLIADAU

Mae'r adroddiad cyllideb hwn yn ymdrin â chyhoeddiad y setliad dros dro a hefyd argymhelliad i'r Cyngor ar lefel Treth y Cyngor ar gyfer 2022/23. Mae'r Cyngor i fod i ystyried y gyllideb derfynol ar 3[ydd] Mawrth 2022 ar ôl craffu ar bapurau'r gyllideb a'r cynigion drafft.

Bydd y setliad terfynol yn dilyn craffu ar gynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru gan Senedd Cymru, yn cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ar 1 Mawrth 2022. Efallai na fydd dim newidiadau i'r sefyllfa yn hysbys tan ar ôl hynny a bydd angen eu haddasu i gynnig y gyllideb.

Gellir cyflawni'r gyllideb arfaethedig. Mae'r Arweinydd, Aelodau'r Cabinet, aelodau'r Grŵp Arweiniol a Swyddogion Arweiniol Corfforaethol, ynghyd â'u staff, wedi gweithio'n galed i gwrdd â'r heriau a osodwyd arnynt i gynhyrchu'r gyllideb ddrafft hon, er bod gwaith pellach yn parhau o hyd fel arfer.

Y prif arbedion trawsnewid a gyflawnwyd yn ddiweddar yw arbedion teithio ac adolygiad y ddarpariaeth isafswm refeniw sy'n cael eu dyrannu o fewn y gyllideb arfaethedig. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd setliadau cyllideb y blynyddoedd i ddod yn parhau i fod yn heriol ac felly wrth i bwysau COVID19 gilio a gallu sefydliadol ganiatáu, bydd yn hanfodol bod arbedion Trawsnewid ynghyd â gwelliant parhaus/arbedion effeithlonrwydd yn cael eu symud ymlaen a'u cyflawni.

Ni ddisgwylir cyhoeddiad am y setliad terfynol tan ddechrau mis Mawrth ac mae'n annhebygol y bydd unrhyw newidiadau i'r sefyllfa yn hysbys tan hynny ac os bydd unrhyw newidiadau'n codi, bydd angen eu haddasu i gynnig y gyllideb.

Gan ystyried yr holl faterion yn yr adroddiad hwn, gallaf gadarnhau bod y gyllideb arfaethedig wedi'i pharatoi mewn modd cadarn a'i bod yn destun cyflawni targedau arbedion neu adlinio'r gyllideb yn ystod y flwyddyn. Gallaf hefyd gadarnhau bod y cynlluniau Cyfalaf a'r Strategaeth ar hyn o bryd yn ddarbodus ac yn fforddiadwy a chredir bod y risg gyffredinol o ran yr elfen hon yn isel.

O ystyried yr amgylchiadau COVID19 parhaus ni fu pwysigrwydd rheolaeth ariannol gadarn erioed yn fwy ac felly bydd yn parhau i fod o'r pwys mwyaf bod y sefyllfa ariannol yn cael ei goruchwylio'n barhaus ac, os oes angen, fod unrhyw gamau yn ystod y flwyddyn yn cael eu cymryd fel ac os yw'n briodol. Mae'r rheoleiddwyr wedi cydnabod cydnerthedd ariannol a hanes y Cyngor o ran rheolaeth ariannol gadarn.

## 10. TRETH Y CYNGOR

Bydd argymhelliad Treth y Cyngor i'r Cyngor yn cael ei wneud yn dilyn proses Craffu ar y Gyllideb a chyfarfod y Cabinet i'w gynnal ar 22ain Chwefror.

| | |
|---|---|
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os nad oes, dywedwch pam:** | **Nid yw'r adroddiad hwn yn cyfeirio at newid mewn gwasanaeth, mae'n cefnogi cynnal gwasanaethau. Bydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn ystyried cynigion manwl ynghylch y gyllideb gan roi sylw i'r canlynol: Hirdymor, Integreiddio, Cydweithio, Cynnwys ac Atal.** |

| | |
|---|---|
| **Argymhellion:** | **a) Cymeradwyo tri opsiwn ar gyfer cyfanswm y gyllideb sylfaenol ddrafft ar hyn o bryd ym mhroses y gyllideb sef £166,862, £166,958 a £167,054.**<br>**b) Ystyried argymell i gyfarfodydd Trosolwg a Chraffu'r gyllideb dri opsiwn a ffefrir ar gyfer lefel Treth y Cyngor i'w chynnig ar gyfer 2022/23; 4.75%, 5.0% neu 5.25% a nodi bod cynnig y Gyllideb ddrafft yn seiliedig ar fodel gweithio o £1,479.69 ar gyfer eiddo Band D at ddibenion y Cyngor Sir, sef cynnydd o 4.75%. Mae cynnydd o 5.0% yn darparu ar gyfer gwariant pellach / llai o arbedion o £96k a chynnydd o 5.25% yn darparu ar gyfer gwariant pellach / llai o arbedion o £192k.**<br>**c) Pan gyhoeddir y setliad terfynol, bydd gwerth unrhyw grantiau penodol pellach a drosglwyddir i'r Grant Cynnal Refeniw yn cael eu pasio ymlaen at gyllideb y Gwasanaeth perthnasol;**<br>**d) Pan gyhoeddir y setliad terfynol, bydd unrhyw newidiadau penodol eraill yn cael eu targedu'n uniongyrchol at y Gwasanaeth(au) a effeithir, os bydd hynny'n briodol; ac**<br>**e) Ymdrinnir ag unrhyw newidiadau eraill i'r Grant Cynnal Refeniw drwy addasu cyllideb refeniw gorfforaethol y Grŵp Arweiniol.**<br>**f) Cymeradwyo'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi'i diweddaru a nodir yn Atodiad 4 ac argymell i'r Cyngor ei chymeradwyo**<br>**g) Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf fel y nodir yn Atodiad 5 ac argymell i'r Cyngor ei chymeradwyo**<br>**h) Cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf fel y nodir yn Atodiad 6 ac argymell i'r Cyngor ei chymeradwyo.**<br>**i) Gofyn am farn y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar y Gyllideb ynghylch yr adroddiad hwn.** |
| **Rheswm dros y penderfyniad:** | **Er mwyn paratoi cyllideb ar gyfer 2022/23.** |
| **Trosolwg a Chraffu:** | **Bydd Cynigion y Gyllideb yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a chan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.** |
| **Blaenoriaethau Corfforaethol:** | **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.** |
| **Goblygiadau ariannol:** | **Rhan o broses pennu'r gyllideb.** |
| **Pwerau Statudol:** | **Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1972.** |
| **Papurau Cefndir:** | **Y Setliad Refeniw a Chyfalaf Dros Dro a chyhoeddiadau eraill Llywodraeth Cymru.** |
| **Atodiadau:** | **Atodiad 1 - Pwysau Net o ran Costau fesul Gwasanaeth** |

**Atodiad 2 - Symudiad Cyfansymiau y Gyllideb fesul Gwasanaeth**
**Atodiad 3 - Risgiau i'r Gyllideb**
**Atodiad 4 - Strategaeth Ariannol Tymor Canolig**
**Atodiad 5 - Rhaglen Gyfalaf**
**Atodiad 6 - Strategaeth Gyfalaf**

| | |
|---|---|
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Cyllid a Chaffael:** | **Stephen Johnson** |
| **Swyddogion Adrodd:** | **Stephen Johnson / Justin Davies / Duncan Hall** |
| **Dyddiad:** | **25 Ionawr 2022** |

**Cyllideb 2022/23: Pwysau Costau a Amcangyfrifir fesul Gwasanaeth**

| | Costau Cyflogeion (Codiad Cyflog 2021/22 yn yr Arfaeth) £'000 | Costau Cyflogeion (Darpariaeth Dyfarniad Cyflog 2022/23) £'000 | Cynnydd 1.25% Yswiriant Gwladol Cyflogwyr £'000 | Chwyddiant Cyfleustodau / Ynni £'000 | Darpariaeth ar gyfer Chwyddiant Gwasanaethau a Gomisiynir yn Allanol (gan gynnwys Cyflog Byw Gwirioneddol ac Yswiriant Gwladol Cyflogwyr) £'000 | Arian Sefydlu Strwythur Model Gweithredu newydd Gydol Oed a Lles (Bl 1 o 2) £'000 | Costau Cyflogeion (Arall) '£'000 | Trosglwyddo / Taliadau Trydydd Parti £'000 | Cyflenwadau a Gwasanaethau (Cysylltiedig â gofal) '£'000 | Cyflenwadau a Gwasanaethau (Arall) '£'000 | Colli Incwm Cyllid grant '£'000 | Darpariaeth Cyllideb COVID19 '£'000 | CYFANSWM GROS '£'000 | Rhagdybiaethau Ariannu (Cronfeydd / Grantiau) £'000 | CYFANSWM NET '£'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyswllt Cwsmeriaid** | 19 | 110 | 30 | | | - | - | | | 111 | | | **270** | | **270** |
| **Gwasanaethau Democrataidd** | 16 | 106 | 27 | | | - | 70 | | | 35 | | | **254** | | **254** |
| **Economi ac Adfywio** | (1) | 125 | 36 | 69 | | - | - | | | | | | **229** | | **229** |
| **Cyllid a Chaffael** | 12 | 90 | 25 | | | - | - | 290 | | 200 | | | **617** | | **617** |
| **Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol** | (12) | 199 | 51 | 19 | | - | - | | | 180 | | | **437** | | **437** |
| **Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu** | 5 | 24 | 7 | | | - | - | | | | | | **36** | | **36** |
| **Pobl a Threfniadaeth** | 11 | 50 | 15 | | | - | - | | | | | | **76** | | **76** |
| **Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd** | 35 | 105 | 30 | | | - | - | | | | 23 | | **193** | | **193** |
| **Porth Cymorth Cynnar** | 29 | 141 | 37 | 19 | | 360 | - | | | | | | **586** | | **586** |
| **Porth Cynnal** | 20 | 136 | 36 | | 2,153 | 196 | - | 950 | 1,540 | | | | **5,031** | (250) | **4,781** |
| **Porth Gofal** | (4) | 245 | 60 | 37 | 420 | 301 | | | 629 | | | | **1,688** | | **1,688** |
| **Ysgolion a Diwylliant** | 285 | 1,195 | 361 | 155 | | - | 250 | | | 263 | | | **2,509** | (250) | **2,259** |
| **Grŵp Arweiniol** | 3 | 842 | 3 | | | - | - | | | | | 2,000 | **2,848** | (1,250) | **1,598** |
| **Ardollau, Premiwm Treth y Cyngor a Chronfeydd** | | | | | | | | 104 | | 45 | | | **149** | | **149** |
| **CYFANSWM** | **418** | **3,368** | **718** | **299** | **2,573** | **857** | **320** | **1,344** | **2,169** | **834** | **23** | **2,000** | **14,923** | **(1,750)** | **13,173** |

**CRYNODEB**

| | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pwysau Costau Cyffredin sy'n effeithio ar bob Gwasanaeth / y rhan fwyaf ohonynt | **4,803** | | | | | | | | | | | | | | **4,803** |
| Pwysau Costau Cyffredin sy'n effeithio ar bob Porth | | | | | **3,430** | | | | | | | | | | **3,430** |
| Pwysau Costau Penodol i Wasanaethau Unigol | | | | | | | **3,446** | | | | | | | | **3,446** |
| Dyraniadau Corfforaethol Arfaethedig wedi'u Brigdorri | | | | | | | **70** | **394** | | **280** | | | | | **744** |
| Darpariaeth Cyllideb COVID19 | | | | | | | | | | | | **750** | | | **750** |
| **CYFANSWM** | | | | | | | | | | | | | | | **13,173** |

**Symudiadau'r Gyllideb - Cyllideb 2021/22 i Gyllideb Ddrafft 2022/23**

| | Cyllideb Reoladwy Wreiddiol a gymeradwywyd 2021/22 £'000 | Trosglwyddiadau Cyllideb fel rhan o £2.1m o Arbedion Corfforaethol £'000 | Trosglwyddiadau'r Gyllideb Ch1 ar ôl Pennu'r Gyllideb (Gweler Nodyn 1) £'000 | Trosglwyddiadau / Symudiadau Cyllidebol Eraill yn y flwyddyn £'000 | Cyllideb Reoladwy wedi'i Diweddaru 2021/22 £'000 | Newid yn y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (Cyngor Llawn - 17/06/21) Rhan 1 o 2 £'000 | Cost rhedeg Llety Diogel i Blant Canolbarth y Sir am Ran o'r flwyddyn £'000 | Trosglwyddiadau / Symudiadau Cyllidebol Eraill £'000 | Angen y Gyllideb Sylfaenol Reoladwy 2021/22 £'000 | Ychwanegu Grantiau a Drosglwyddwyd i Setliad y Grant Cynnal Refeniw i basbortio i Wasanaethau £'000 | Cyllid wedi'i ddyrannu ar gyfer 2022/23 Pwysau Costau Net £'000 | Newid yn y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (Cyngor Llawn - 17/06/21) Rhan 2 o 2 £'000 | Arbedion Sydd eu Hangen ar gyfer 2022/23 £'000 | Cyfansymiau Cyllideb Reoladwy Ddrafft 2022/23 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | | | | |
| Cyswllt Cwsmeriaid | **5,735** | | | 44 | **5,779** | | | 106 | **5,885** | | 270 | | | **6,155** |
| Gwasanaethau Democrataidd | **4,096** | | | 24 | **4,120** | | | 17 | **4,137** | | 254 | | | **4,391** |
| Economi ac Adfywio | **3,489** | | | (18) | **3,471** | | | (12) | **3,459** | | 229 | | | **3,688** |
| Cyllid a Chaffael | **21,311** | (1,174) | | 51 | **20,188** | (700) | | (8) | **19,480** | | 617 | (900) | | **19,197** |
| Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol | **17,062** | | 525 | - | **17,587** | | | (20) | **17,567** | 237 | 437 | | | **18,241** |
| Cyfreithiol a Llywodraethu | **1,538** | | | (3) | **1,535** | | | (2) | **1,533** | | 36 | | | **1,569** |
| Pobl a Threfniadaeth | **2,093** | | | - | **2,093** | | | (4) | **2,089** | | 76 | | | **2,165** |
| Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd | **2,098** | | | 48 | **2,146** | | | 16 | **2,162** | | 193 | | | **2,355** |
| Porth Cymorth Cynnar | **3,467** | | 580 | (218) | **3,829** | | | (14) | **3,815** | | 586 | | | **4,401** |
| Porth Cynnal | **23,763** | | (290) | 160 | **23,633** | | | 120 | **23,753** | 114 | 4,781 | | | **28,648** |
| Porth Gofal | **11,369** | | 290 | (3) | **11,656** | | 300 | (27) | **11,929** | | 1,688 | | | **13,617** |
| Ysgolion a Diwylliant | **49,841** | | (1,105) | (15) | **48,721** | | | (15) | **48,706** | | 2,259 | | | **50,965** |
| Grŵp Arweiniol | **4,284** | 1,174 | | (70) | **5,388** | 700 | (300) | (157) | **5,631** | | 1,598 | | (498) | **6,731** |
| Ardollau, Premiwm Treth y Cyngor a Chronfey | **4,590** | | | - | **4,590** | | | - | **4,590** | | 149 | | | **4,739** |
| | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm y Gyllideb Reoladwy** | **154,736** | **-** | **-** | **-** | **154,736** | **-** | **-** | **-** | **154,736** | **351** | **13,173** | **(900)** | **(498)** | **166,862** |
| | - | | | | - | | | | - | | - | | | - |

**Nodyn 1: Trosglwyddiadau'r Gyllideb Ch1 ar ôl pennu'r Gyllideb**

| | |
|---|---|
| Yn ymwneud â Chludiant i'r Ysgol | 525 |
| Uned Cyfeirio Disgyblion | 580 |
| Cyllideb Cyflogeion Taliadau Uniongyrchol | 290 |

**ATODIAD 3**

# Risgiau'r Gyllideb

Dyma'r prif risgiau a nodwyd ar gyfer y gyllideb ynghyd â'r sylwadau priodol, a'r rheolaethau a weithredir i leihau'r risg:

## 1. Newidiadau i lefel y Cyllid Allanol Cyfun

Mae swm y Grant Cynnal Refeniw a'r Ardrethi Annomestig a gaiff eu hailddosbarthu bellach yn darparu tua 72% o'r cyllid ar gyfer gwariant refeniw net y Gronfa Gyffredinol. Gall newidiadau i'r modd y caiff grantiau eu dosbarthu gael effaith fawr ar gyllid y Cyngor. Mae'r Cyngor yn gallu cyflwyno sylwadau i'r Llywodraeth yn uniongyrchol a thrwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn ceisio dylanwadu ar y newidiadau sy'n cael eu gwneud.

Gyda'r rhagolygon economaidd ar hyn o bryd a dyraniadau dangosol ar lefel Cymru Gyfan ar gyfer y 2 flynedd nesaf ar ôl 2022/23, mae risg sylweddol y bydd codiadau is na chwyddiant mewn dyraniadau Cyllid Allanol Cyfun h.y. gostyngiadau mewn termau real ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae angen i'r Cyngor gadw hyn mewn cof wrth ystyried ei flaenoriaethau gwario a gwelliannau i wasanaethau, gyda golwg ar yr angen i liniaru effaith y dyfodol ar y gyllideb.

Hefyd, mae elfen o risg ariannol bob amser yn gysylltiedig â chyflawni'r cynlluniau arbedion a gaiff ei fonitro'n rheolaidd. Po uchaf yw lefel targedau'r Arbedion, yr uchaf yw'r risg ac eithrio lle maent wedi'u cyflawni ymlaen llaw.

## 2. Newidiadau annisgwyl cyffredinol mewn gwariant a/neu incwm yn ystod y flwyddyn

Un rheswm pam y mae'r Cyngor yn cadw cronfeydd yw cynnig rhywfaint o ddiogelwch yn erbyn newidiadau annisgwyl. Mae system fisol reolaidd ar waith i fonitro'r gyllideb, gydag adroddiadau chwarterol ffurfiol yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau ynghyd ag adrodd am eithriadau rhwng y cyfnodau hynny.

Mae'r Cyngor yn yswirio yn erbyn y prif risgiau hysbys megis difrod tân, atebolrwydd cyflogwr ac atebolrwydd cyhoeddus.

## 3. Newidiadau o ran incwm grant penodol

Mae'r Cyngor yn cael symiau mawr bob blwyddyn ar ffurf grantiau penodol. Pe bai rheolau'r Llywodraeth yn newid neu pe baem drwy amryfusedd yn methu â chydymffurfio ag amodau grantiau, mae risg bosib y gallem golli incwm grant sylweddol. Mae archwilwyr allanol y Cyngor yn adolygu'n gyson y ffordd y mae'r Cyngor yn gweinyddu grantiau ac mae gwelliannau gweithdrefnol yn cael eu rhoi ar waith yn ôl y gofyn i sicrhau nad ydym yn colli dim incwm grant.

Hefyd mae risg bosibl pe bai grantiau refeniw penodol Llywodraeth Cymru yn dod i ben, ond bod disgwyl i'r gwasanaethau a gyllidir drwy grantiau o'r fath gael eu cynnal ar yr un lefel neu ar lefel is. Lle bynnag y bo modd, dylid paratoi

strategaethau ymadael i ymdrin â’r canlyniadau pan fydd cyllid grant yn dod i ben.

Mae newid ar y gorwel o ran cyllid rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru o ran y Gronfa Gofal Integredig a Thrawsnewid Gofal Cymdeithasol sy’n pontio i ffrwd gyllido ranbarthol newydd yn 2022/23. Bydd hyn yn gofyn am reolaeth weithredol ac yn dod â lefel uwch o risg.

**4. Twyll (gan gynnwys Seiberddiogelwch)**

Gallai twyll mawr achosi colled ariannol sylweddol i'r Cyngor yn ogystal â gwanhau hyder y cyhoedd. Mae'r Cyngor yn cynnal system o reoliadau ariannol a rheolau sefydlog i reoli'r risg hon ochr yn ochr â pharhad busnes a threfniadau cynllunio ar gyfer argyfwng sifil posibl. Mae Gweithgor gweithredol o Swyddogion sy'n canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â Seiberddiogelwch a chydnerthedd busnes cysylltiedig. Bydd adain Archwilio Mewnol y Cyngor, fel rhan o'i chylch gorchwyl, yn ymchwilio i risgiau Twyll posibl, yn cynghori ar arferion gorau, ac yn sicrhau bod systemau rheoli mewnol digonol ar waith a'u bod yn cael eu dilyn.

**5. Ansolfedd Partïon i Gontractau**

Gallai'r Cyngor ddioddef colledion yn sgil ansolfedd partneriaid pwysig neu gyflenwyr masnachol. Mae hon yn risg benodol mewn perthynas â thrafodiadau buddsoddi. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu polisïau Rheoli’r Trysorlys i ledaenu a lleihau’r risgiau yn y maes hwn. Mae partneriaid a chontractwyr masnachol sy'n gweithio i'r Cyngor yn destun asesiadau ariannol ac asesiadau eraill, a gall maint y contractau sy'n cael eu dyfarnu gael eu cyfyngu ar ôl ystyried canlyniad yr asesiadau.

**6. Y Gronfa Bensiwn**

Mae'r Cyngor yn cyfrannu at Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol Dyfed. Gweinyddir y gronfa gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Cynllun buddion wedi'i ddiffinio yw’r cynllun pensiwn i weithwyr, gan gynnwys Aelodau'r Cyngor (ond heb gynnwys athrawon), sy'n golygu mai'r cyflogwr yn unig sy'n ysgwyddo'r risg mewn perthynas ag adenillion buddsoddi a newidiadau demograffig. Gall y Cyngor ddadlau dros ledaenu’r camau i adennill unrhyw ddiffygion dros gyfnod o flynyddoedd i leihau'r effaith gyllidebol uniongyrchol.

**7. Cyfraddau Llog**

Mae dyledion a buddsoddiadau hirdymor arwyddocaol gan y Cyngor. Gall newidiadau i’r cyfraddau llog gael effaith sylweddol ar incwm llog ac ar gost benthyciadau newydd sydd eu hangen i gefnogi gwariant cyfalaf newydd.

Mae'r Cyngor yn monitro cyfraddau llog a'u heffaith fel rhan o'r broses o fonitro’r gyllideb. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni ceir colled sylweddol o ran incwm buddsoddi oherwydd bod y cyfraddau llog mor isel. Cafodd hyn ei liniaru cyhyd â phosibl drwy wneud defnydd helaethach o fenthyca mewnol, h.y. cadw

benthyca dyledion allanol i lawr drwy ddefnyddio arian parod a ddelir ar gyfrif (e.e. cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi).

**8. Chwyddiant**

a) Tâl
Costau gweithwyr yw elfen fwyaf y gyllideb. Bydd cynnydd mawr mewn cyfraddau tâl yn cael effaith niweidiol ar gyllideb y Cyngor. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r staff, caiff tâl ei negodi ar raddfa genedlaethol naill ar lefel y DU (Gweinyddol, Proffesiynol, Technegol a Chlercol) neu ar lefel Llywodraeth Cymru (Athrawon) a gall y Cyngor ddylanwadu ar y setliad tâl, ond ni all ei reoli. Drwy roi'r cytundeb statws sengl ar waith a thrwy gyflwyno gwerthusiad systematig o'r graddau, mae'r Cyngor yn ceisio cynnal strwythur tâl teg ond fforddiadwy.

b) Nad yw'n ymwneud â thâl
Rydym bellach yn dechrau cyfnod o chwyddiant uwch na'r cyfartaledd a lefelau nas gwelwyd ers cyn 2008. Mae gan Fanc Lloegr gyfrifoldeb i gadw chwyddiant ar y trywydd iawn ar tua 2%, fodd bynnag mae chwyddiant CPI bellach wedi codi i ychydig dros 5% a rhagwelir y bydd yn codi'n uwch na hyn o hyd. Mae gan hyn y potensial i effeithio ar gontractau parhaus sy'n bodoli eisoes gyda Chyflenwyr a hefyd eu prisio o gontractau newydd (refeniw a chyfalaf) ac felly mae'n risg i'r Gyllideb nad yw wedi'i gweld i'r un graddau yn y degawd diwethaf.

**9. Brexit**
Ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd yn ffurfiol ar 31/12/2020, nid yw goblygiadau a chanlyniadau tymor canolig i hirdymor y cytundeb Brexit o reidrwydd wedi'u deall yn llawn ac nid ydynt yn amlwg o hyd. Mae gan y Cyngor grŵp Pontio Brexit / UE ar waith sy'n cael ei gadeirio ar lefel y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol. Mae'n cwrdd yn rheolaidd ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o bob Gwasanaeth ledled y Cyngor. Rôl y grŵp yw cynnig dull ffurfiol, strwythuredig o reoli'r risgiau i'r Awdurdod yn sgil ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r UE. Bydd gwasanaethau'n parhau i fonitro'r effaith gan gynnwys a oes angen lliniaru unrhyw gostau ychwanegol neu gyllid a gollir.

**10. COVID19**
Yn 2020/21 gwelwyd blwyddyn na welwyd ei thebyg o'r blaen o ran heriau i'r Cyngor - yn ariannol ac yn weithredol - yn sgil pandemig COVID-19. Mae hyn wedi parhau yn ddi-dor i mewn i 2021/22. Cafwyd cyllid ychwanegol sylweddol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer mentrau penodol drwy grantiau ac yn gyffredinol drwy gronfa Galedi Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud datganiad clir y bydd y Gronfa Galedi yn dod i ben o 01/04/2022 a bod cyllid ar gael yn y Setliad Llywodraeth Leol, gyda'r prif eithriadau sef Profi, Olrhain, Diogelu a hefyd darpariaeth Cyfarpar Diogelu Personol (lle bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu Cyfarpar Diogelu Personol am ddim i Iechyd a Gofal Cymdeithasol am gyhyd ag sydd ei angen).

Bydd y Cyngor yn parhau i reoli effaith ariannol barhaus COVID19 ar sail gorfforaethol, lle mae'r effaith yn sylweddol, gan ddefnyddio cyfuniad o ddarpariaeth cyllideb sylfaenol trwy Broses Pennu Cyllideb 2022/23 a Chronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi.

**11. Ffosffadau**

Mae hwn yn fater sy'n dod i'r amlwg ar ôl i Gyfoeth Naturiol Cymru gyhoeddi tystiolaeth o lefelau ffosffadau ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig afonol Afon Teifi a chyhoeddi datganiad sefyllfa / canllawiau Cynllunio dros dro ym mis Mai 2021. Mae effaith hyn yn cwmpasu 45% o dir Ceredigion ac mae hyn yn mynd i greu problemau sylweddol wrth gyflwyno Datblygiadau yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt. O safbwynt cul, mae gan hyn y potensial i effeithio ar feysydd megis Ffioedd Cynllunio ac Incwm Rheoli Adeiladu, ond mewn ystyr ehangach mae ganddo'r potensial ar gyfer goblygiadau pellgyrhaeddol o ran Tai a Datblygu Economaidd.

ATODIAD 4

# STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG

**CYNNWYS**


| Eitem | Pennawd | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 1 |
| 2. | Blaenoriaethau'r gyllideb | 2 |
| 3. | Her ariannol | 4 |
| 4. | Rheoli adnoddau'n effeithiol | 6 |
| 5. | Y cyd-destun economaidd, ariannol a deddfwriaethol allanol | 7 |
| 6. | Strategaeth y gyllideb | 9 |
| 7. | Gweithio mewn partneriaeth ac arian allanol | 11 |
| 8. | Rhagolwg Ariannol Tymor Canolig 2021/22 – 2023/24 | 12 |
| 9. | Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a balansau | 15 |
| 10. | Asesu risg a sensitifrwydd | 16 |
| 11. | Y Dreth Gyngor | 17 |
| 12. | Demograffeg, tueddiadau ac ystadegau | 17 |
| 13. | Darparu, cynllunio a datblygu gwasanaethau | 24 |
| 14. | Safonau gwasanaeth | 25 |
| 15. | Effaith y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gydraddoldeb ac amrywiaeth | 26 |
| 16. | Cynllun Arbedion Ariannol | 26 |

**ATODIAD 4**

# STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG

## 1 Cyflwyniad

1.1 Bwriedir i'r Strategaeth Ariannol hon ddarparu'r fframwaith llywodraethu ariannol y byddwn yn gweithredu yn unol ag ef, a hynny drwy iddi bennu'r materion sy'n cael sylw ac yn cael eu hystyried pan fyddwn yn paratoi cynlluniau ariannol ar gyfer y tymor canolig.

Drwy ddwyn ynghyd ragdybiaethau ariannol, safonau darparu gwasanaethau, anghenion demograffig a materion cynllunio'r gweithlu yn y ddogfen hon, disgwylir y bydd y Cyngor mewn gwell sefyllfa i allu ystyried y modd y mae'n rheoli ei adnoddau yn gyffredinol i gyflawni ei amcanion.

Mae paragraff 6.6 yn nodi prif elfennau strategaeth y gyllideb a fydd yn cyfrannu at gyllideb gytbwys. Cafodd cynllun arbedion trawsnewidiol ei baratoi, ac mae wrthi'n cael ei roi ar waith, er bod COVID–19 wedi effeithio ar yr amserlen arfaethedig.

### 1.2 Amcan y Strategaeth

Amcan ariannol y Cyngor yw defnyddio ei adnoddau mewn ffordd ofalus a chyfrifol a sicrhau bod cydnerthedd ariannol y Cyngor yn cael ei gynnal a'i gryfhau. Amcan cyffredinol y Strategaeth hon yw:

*"darparu fframwaith, trywydd cyffredinol a pharamedrau er mwyn i'r Cyngor strwythuro a rheoli ei arian i sicrhau bod adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio mewn modd cyfrifol a gofalus".*

Mae'r Strategaeth yn cyflawni hyn drwy:

- Amlinellu egwyddorion i lunio ac i bennu'r gyllideb flynyddol.
- Integreiddio grymoedd allanol i'r broses o bennu'r gyllideb, a chydnabod y grymoedd hynny.
- Integreiddio prosesau cynllunio ariannol a chynllunio busnes, rhoi sylw i flaenoriaethau Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022, rhag-weld y pwysau y bydd yr Awdurdod yn ei wynebu, a sicrhau bod gwasanaethau'n gwella.
- Pennu'r prif gysylltiadau â phrosesau eraill, ynghyd â'r ystyriaethau craidd a'r themâu ariannol i'w hystyried.
- Nodi lefelau rhagamcanol yr incwm, y gwariant a'r buddsoddiad cyfalaf dros gyfnod treigl o dair blynedd.
- Darparu un ddogfen i gyfleu'r cyd-destun, y nodau a'r amcanion ariannol wrth randdeiliaid.

1.3 Mae'n bwysig deall y cyd-destun ariannol cyffredinol er mwyn darparu cyllideb gadarn a chytbwys dros y blynyddoedd nesaf, oherwydd cydnabyddir y bydd yr arian sydd ar gael i'r sector cyhoeddus yn gyfyngedig. Mae'r rhagolwg ariannol yn cynnwys rhagolwg cyllidebol tair blynedd.

## 2 Blaenoriaethau'r gyllideb

2.1 Mae'r "Cynllun Strategol" yn amlinellu'r rhaglen a'r amserlen eang i lunio ac i weithredu cynllun y Cyngor i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol yn wyneb cyfyngiadau ariannol parhaus. Mae'r Grŵp Trawsbleidiol ar y Trawsnewid yn monitro'r cynllun hwn yn rheolaidd. Mae'r cynllun yn cynnwys nifer o ffrydiau gwaith sy'n cynorthwyo ac yn cefnogi'r broses o gyflawni'r cynllun arbedion.

- Mae'r ffrwd waith trawsnewid yn cynorthwyo'r Cyngor i bennu newidiadau i'w brif swyddogaethau craidd a fydd yn helpu i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir ganddo yn gynaliadwy yn y dyfodol.
- Mae'r ffrwd waith adolygiadau mawr yn gosod sail ar gyfer y gwaith o ystyried dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau.
- Mae cynllun arbedion y gyllideb yn cael ei fonitro'n rheolaidd i helpu i sicrhau bod cyllidebau'n gytbwys.

Mae Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022 yn nodi pedair prif flaenoriaeth strategol y Cyngor, ac yn egluro sut y mae'n bwriadu eu cyflawni.

Prif bwrpas Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor yw darlunio sut y bydd yr Awdurdod yn cefnogi ac yn hybu cynaliadwyedd a llesiant dinasyddion Ceredigion drwy ei weledigaeth hirdymor a'i amcanion strategol.

***Gweledigaeth:***
*"Mae Cyngor Sir Ceredigion yn darparu gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog cynaliadwy sy'n rhoi gwerth am arian er mwyn cynnal economi gref, amgylchedd iach a hyrwyddo lles ein pobl a'n cymunedau."*

***Amcanion strategol:***
Pedair blaenoriaeth strategol Ceredigion yw:
- *Hybu'r economi;*
- *Buddsoddi yn nyfodol y bobl;*
- *Galluogi cydnerthedd unigolion a theuluoedd;*
- *Hyrwyddo cydnerthedd amgylcheddol a chymunedol.*

Defnyddir y blaenoriaethau uchod i gyfeirio adnoddau, a *hybu'r economi* yw'r brif flaenoriaeth.

2.2 Bydd y Cyngor yn ceisio parhau i gyfeirio adnoddau i'r meysydd hynny sy'n flaenoriaeth lle y gellir gwneud gwelliannau er budd cymunedau. Caiff nifer o amcanion llesiant a gwella allweddol eu pennu bob blwyddyn ac mae angen ystyried a oes digon o adnoddau ar gael i gyflawni'r amcanion hyn yn ystod y broses o bennu'r gyllideb.

2.3 Gellir cysylltu gwariant y Cyngor â'r broses o gefnogi ei Strategaeth Gorfforaethol a'i amcanion llesiant a gwella. Mae'r broses o bennu'r gyllideb yn ymgorfforiad ariannol o bolisïau'r Cyngor. Drwy'r broses o bennu'r gyllideb, mae'r Cyngor yn peri iddi fod yn ofynnol i'r pwyllgorau craffu perthnasol a'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu adolygu a chymeradwyo cynigion y gyllideb ddrafft. Cynhelir gweithdai drwy gydol y flwyddyn ar gyfer Aelodau a swyddogion y Grŵp Arweinyddiaeth. Yn y

gweithdai hyn, trafodir cynlluniau ariannol ar gyfer y tymor byr a'r tymor canolig, materion cyllidebol neu bwysau ar gyllideb y flwyddyn gyfredol neu'r blynyddoedd i ddod, blaenoriaethau gwasanaethau, a'r modd y caiff adnoddau eu dyrannu. Y broses cynllunio busnes flynyddol yw'r dull a ddefnyddir i roi cynlluniau ar waith i gyflawni amcanion busnes sy'n cael eu paru'n llwyr ag adnoddau ac sy'n gydnaws ag amcanion y Cyngor.

2.4 Bydd y Cyngor yn ymdrechu i wynebu'r heriau ariannol a chyllidebol drwy ystyried blaenoriaethau gwasanaethau, a bydd yn ystyried ffyrdd gwahanol ac arloesol o ddarparu gwasanaethau mewn modd mwy costeffeithiol yn y dyfodol.

I gyflawni hyn, mae rhaglen drawsnewid gynhwysfawr i ailgynllunio gwasanaethau wedi bod yn ei lle ers sawl blwyddyn, ac mae cynlluniau wedi'u rhoi ar waith ac yn cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd. Bydd unrhyw gyfleoedd newydd sy'n dod i'r amlwg yn cael eu datblygu.

Bydd hyn yn cynnwys:

- Rhoi arbedion effeithlonrwydd ar waith o ran swyddfeydd cefn;
- Datblygu dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau, gan gynnal gwasanaethau ar yr un pryd;
- Dod i ddeall yn union pa wasanaethau a fydd yn cael eu cefnogi a'u diogelu;
- Rhesymoli pob swyddogaeth a phob gwasanaeth nad ydynt yn flaenoriaeth;
- Parhau â'r rhaglen i foderneiddio ysgolion a gofal cymdeithasol;
- Croesawu cyfleoedd i gydweithio i ddarparu gwasanaethau ar y cyd, a gwneud y gorau o'r cyfleoedd hynny;
- Sicrhau gwerth am arian mewn unrhyw waith comisiynu a chontractau;
- Ailgydbwyso'r gyllideb yn wyneb pwysau demograffig;
- Ennill cymaint o incwm â phosibl drwy roi'r Polisi Rheoli Incwm ac Adennill Costau ar waith.

2.5 Ymhlith y prif feysydd blaenoriaeth y bydd y Cyngor yn canolbwyntio arnynt mae:

**Hybu'r economi** – amlinellir y dull a ddefnyddir yn 'Rhoi Hwb i Economi Ceredigion – Strategaeth ar gyfer Gweithredu 2020-35'. Mae'n amlinellu pedwar prif faes sy'n flaenoriaeth lle y byddwn yn targedu ein gweithredoedd i wneud gwahaniaeth, gan gefnogi'r Nodau Llesiant Cenedlaethol ar yr un pryd:

- Pobl – ysbrydoli pobl, datblygu sgiliau, iechyd a llesiant
- Lle – hyrwyddo Ceredigion fel lle i fyw, gweithio ac ymweld ag ef
- Menter – cynorthwyo busnesau i gychwyn a thyfu
- Cysylltedd – cysylltu busnesau a chymunedau

Mae'r Strategaeth hon yn gydnaws iawn â'r blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg o'n partneriaeth â Chyngor Powys a phartneriaid ehangach Tyfu Canolbarth Cymru – a bydd yn helpu i osod sylfaen ar gyfer y Fframwaith

Economaidd Rhanbarthol sydd ar y gweill i gynorthwyo i'w roi ar waith yn lleol.

Cyrhaeddodd Bargen Twf Canolbarth Cymru, a luniwyd ar sail gweledigaeth Tyfu Canolbarth Cymru, garreg filltir bwysig ym mis Ionawr 2022 pan lofnodwyd y Cytundeb terfynol gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Cyngor Ceredigion a Chyngor Powys yn seiliedig ar ddatblygu a chyflwyno Achos Busnes Portffolio. Cytunodd y ddwy lywodraeth i ddarparu £55m, ac mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau arian cyfalaf gwastad dros gyfnod o ddeg mlynedd ar gyfer rhanbarth Tyfu Canolbarth Cymru yn ei gyfanrwydd. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud, ond, yn wreiddiol, roedd yn bwriadu darparu arian dros gyfnod o bymtheg mlynedd.

Mae gan yr Achos Busnes y Portffolio gyfres gyfredol o raglenni a phrosiectau sy'n cwmpasu ystod o gynigion buddsoddi ar draws nifer o themâu - digidol, twristiaeth, amaethyddiaeth, bwyd a diod, ymchwil ac arloesi a chefnogi menter.

Yn ystod 2021, mae'r Cyngor wedi gwneud cais llwyddiannus am £10.9m gan Lywodraeth y DU o Gronfa Codi'r Gwastad ar gyfer Aberystwyth. Bydd yr arian yn helpu i drawsnewid yr Hen Goleg, adfywio'r promenâd a chreu 'harbwr byw'.

I hybu economi Ceredigion, bydd angen cryn fuddsoddiad gan y Cyngor, a bydd disgwyl adenillion ar y buddsoddiad hwnnw. Ar 31/3/21, roedd £6m ar gael yn y gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi (Cronfa Wrth Gefn a Derbyniadau Cyfalaf). Y targed erbyn 31/3/23 yw £10m.

**Addysg** – moderneiddio sefydliadau addysg, er enghraifft, defnyddio arian Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif i adeiladu ysgol fro yn Nyffryn Aeron, yn ogystal â gwella Ysgol Uwchradd Aberteifi, Ysgol Gynradd Aberteifi, a Chanolfan y Môr yn Ysgol Uwchradd Aberaeron.

**Cynlluniau Amddiffyn yr Arfordir** – disgwylir y bydd tua £23m yn cael ei wario ar gynlluniau amddiffyn yr arfordir yn Aberaeron ac Aberystwyth. Bydd Llywodraeth Cymru'n ariannu £19.5m o'r swm hwnnw, a bydd y £3.5m sy'n weddill yn cael ei ariannu o'r cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi.

**COVID-19** – nid yw effaith ariannol pandemig COVID-19 ar y blynyddoedd i ddod yn wybyddus, ond rydym yn cyllidebu ar ei chyfer yn 2022/23. Ceir mwy o wybodaeth ym mharagraff 6.8. Ni ddisgwylir y bydd y Cynllun Rhyddhad Caledi yn gweithredu ar ôl 31 Mawrth 2022.

**ATODIAD 4**

## 3 Her ariannol

3.1 Mae llywodraeth leol yn wynebu llawer o flynyddoedd heriol gan fod cyllid cyhoeddus yn parhau i fod yn eithriadol o dynn. Mae hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar gyllidebau'r Cyngor. Felly, mae hwn yn gyfnod anodd o safbwynt cyllidebol ac o safbwynt darparu gwasanaethau, yn enwedig wrth i effeithiau pandemig COVID-19 ar gyllid cyhoeddus ddod i'r amlwg. Serch hynny, dylai cyfleoedd godi o'r heriau hyn hefyd, a hynny drwy inni afael yn yr agenda ac ystyried sut y gellir darparu gwasanaethau'n wahanol ac yn well a sicrhau mwy o werth am arian i'r trethdalwyr.

3.2 Ar gyfer 2022/23, £167m yw gofyniad cyllideb refeniw net y Cyngor, ac mae Rhaglen Gyfalaf wreiddiol 2022/23 yn £28.5m. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn darparu'r adnoddau i roi cynlluniau busnes y Cyngor ar waith. Mae cynllun arbedion y gyllideb yn cael ei fonitro'n rheolaidd ac mae'n sicrhau bod cyllidebau'n gytbwys. Mae Grant Cynnal Refeniw 2022/23 wedi cynyddu 8.6%, sef y cynnydd isaf ond tri yng Nghymru. O'r herwydd, mae angen i wasanaethau gyrraedd targedau arbed o £0.5m. Dyrannwyd targed ychwanegol o £0.9m i'r Grŵp Arweinyddiaeth er mwyn gwneud arbedion corfforaethol.

3.3 Mae tua 72% o'r gyllideb net yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru drwy gyfuniad o'r Grant Cynnal Refeniw ac ailddosbarthiad yr Ardrethi Annomestig Cenedlaethol. Cyfeirir at y rhain gyda'i gilydd fel Cyllid Allanol Cyfun. Gall awdurdodau lleol wneud cais i gael arian penodol ychwanegol drwy raglen grantiau Llywodraeth Cymru. Fel arfer, bydd tua £40m o arian grant yn dod i law ar gyfer gwasanaethau penodol, ac eithrio'r grantiau hynny sy'n gysylltiedig â COVID-19, a hynny i ddarparu ac i gefnogi llawer o wasanaethau refeniw a chynlluniau/prosiectau cyfalaf y Cyngor.

3.4 Mae cyllideb y Cyngor yn cynnwys ffynonellau incwm ac eitemau gwariant amrywiol. Felly, mae sefyllfa'r gyllideb yn sensitif i lawer o ddigwyddiadau neu amgylchiadau sy'n newid. O ran incwm, mae swm y Cyllid Allanol Cyfun sy'n dod i law yn hollbwysig i sefyllfa'r gyllideb, ond mae materion eraill sy'n gysylltiedig ag incwm hefyd yn effeithio ar y gyllideb, er enghraifft, y galw am wasanaethau y codir tâl amdanynt a'r cyflenwad ohonynt, a nifer a gwerth y grantiau penodol sy'n ariannu gwasanaethau. O ran gwariant, bydd newidiadau i chwyddiant cyffredinol, cynnydd penodol ym mhrisiau nwyddau, newidiadau i'r cyfraddau llog, a chynnydd mewn cyflogau i gyd yn effeithio'n sylweddol ar y rhagolygon ariannol.

3.5 Bydd gwariant y Cyngor yn dueddol o gynyddu bob blwyddyn oherwydd chwyddiant prisiau a chyflogau, ac mae angen ariannu hyn, naill ai drwy gynyddu'r incwm sy'n dod i law drwy unrhyw gyfuniad o'r Dreth Gyngor, ffioedd a thaliadau, neu drwy leihau gwariant.

Disgwyliwyd a disgwylir o hyd i'r arian a ddyrennir i'r Cyngor drwy'r Cyllid Allanol Cyfun yn y tymor byr i'r tymor canolig fod yn annigonol i ateb y galwadau o ran chwyddiant a'r pwysau costau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau sy'n seiliedig ar alw; a bydd hyn fwy na thebyg yn arwain at ostyngiadau mewn termau real am ychydig o flynyddoedd tu hwnt i

hynny. O’r herwydd, ni fydd digon o arian ar gael i dalu am gynnydd mewn costau, pwysau ar wasanaethau oherwydd bod mwy o alw amdanynt, ac ati, ac felly gall fod bwlch ariannu y mae angen cynllunio ar ei gyfer. Mae cyllideb 2022/23 yn llai na’r swm a oedd ar gael i’w wario yn 2009.

3.6 Nodir prif elfennau’r strategaeth ariannol tymor canolig gyfredol a strategaeth y dyfodol yn adran 8.

3.7 Mae Datganiad yr Hydref ac Adolygiad Gwariant y Canghellor i’w gweld drwy’r ddolen a ganlyn:

https://www.gov.uk/government/publications/autumn-budget-and-spending-review-2021-documents

3.8 Mae costau gofal a chymorth yn parhau i gynyddu’n ddramatig. Mae disgwyliad oes yn dda yng Ngheredigion – mae’r disgwyliad oes cyfartalog i’w weld yn adran 12.6. Mae nifer y bobl sy’n hawlio cymorth i dalu’r Dreth Gyngor wedi cynyddu’n sylweddol a rhaid ariannu’r cymorth hwn. Mae costau cynyddol gofal yn costio £7m, gan gynnwys:-

- Cyflog Byw Gwirioneddol y DU o £9.90 ac Yswiriant Gwladol Cyflogwyr o 1.25% – mae hyn yn effeithio ar y rhan fwyaf o’r gofal sy’n gysylltiedig â Gwasanaethau a Gomisiynir, os nad y cyfan (gan arwain at amcangyfrif ffactorau chwyddiant o 8.87% ar gyfer Gofal Cartref/Byw â Chymorth, 9.13% ar gyfer Gofal Preswyl ac 11.15% ar gyfer Taliadau Uniongyrchol).
- Cartrefi Preswyl – Adolygiad pennu ffioedd.
- Taliadau Uniongyrchol.
- Plant sy’n Derbyn Gofal.
- Gofal Cartref.

## 4 Rheoli adnoddau’n effeithiol

4.1 Mae Rheolaeth Ariannol yn cynnwys:-

- Cydymffurfio â rheoliadau ariannol i sicrhau bod cyllidebau’n cael eu rheoli’n effeithiol yn ystod y flwyddyn;
- Bod swyddogaethau a chyfrifoldebau ariannol yn dryloyw a’u bod wedi ennill eu plwyf ar draws gwasanaethau’r Cyngor;
- Bod llythrennedd ariannol yn cael ei hyrwyddo ym mhob rhan o’r sefydliad;
- Bod rheolaethau ariannol effeithiol yn eu lle a’u bod yn cwmpasu pob maes sy’n ymwneud â rheoli arian, rheoli risgiau a rheoli asedau;
- Gwneud yn siŵr ein bod yn sicrhau gwerth am arian pan fyddwn yn darparu gwasanaethau.

4.2 Caiff ceisiadau i gario tanwariant refeniw ymlaen eu hystyried ond, yn gyffredinol, ni chânt eu cymeradwyo oherwydd ni ellir eu fforddio ar hyn o bryd.

4.2 Caiff balansau eu cynnal yn unol â pholisi cymeradwy’r Cyngor. Caiff unrhyw incwm annisgwyl sy’n dod i law ei ychwanegu at y balansau.

4.4 Caiff balansau eu cadw at ddibenion penodedig yn unig, a'u hadolygu'n rheolaidd.

4.5 Defnyddio arian grant:

- Defnyddir cymaint o arian grant cyffredinol â phosibl at ddibenion refeniw a chyfalaf.
- Pan fydd angen gwneud ceisiadau i gael arian grant, bydd angen eu cysylltu ag amcanion y Cyngor
- Bydd angen ystyried strategaethau ymadael ar gyfer ceisiadau i gael arian grant ac unrhyw arian grant perthnasol.

## 5 Y cyd-destun economaidd, ariannol a deddfwriaethol allanol

5.1 Mae'r economi genedlaethol, cynlluniau gwariant cyhoeddus, a deddfwriaeth a rheoliadau cenedlaethol yn gosod y cyd-destun ar gyfer rhagolwg ariannol tymor canolig y Cyngor. Mae'n cael ei lunio yng nghyd-destun cyfnod heriol i'r economi genedlaethol wrth iddi gamu o gysgod pandemig COVID-19, ac ar adeg pan fo mesurau cyni sylweddol wedi bod ar waith drwy'r degawd blaenorol.

5.2 Er i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn ffurfiol ar 31 Rhagfyr 2020, nid yw goblygiadau na chanlyniadau'r cytundeb munud olaf y daethpwyd iddo ym mis Rhagfyr 2020 wedi'u deall yn llwyr o hyd, ac ni fyddant ond yn dod yn gliriach gyda threigl amser.

Mae Grŵp Brexit / Pontio o'r UE ar waith yn y Cyngor. Mae'n cwrdd yn rheolaidd o dan gadeiryddiaeth Swyddog Arweiniol Corfforaethol, ac mae cynrychiolwyr o bob gwasanaeth ar draws y Cyngor yn mynd iddo. Swyddogaeth y grŵp yw darparu dull ffurfiol, strwythuredig o reoli'r risgiau i'r Awdurdod, a chydgysylltu parodrwydd pob un o wasanaethau'r Awdurdod, gan roi adroddiadau am risgiau a mesurau lliniaru. Bydd gwasanaethau'n parhau i fonitro'r effaith, gan ystyried a fydd modd lliniaru unrhyw gostau ychwanegol neu unrhyw incwm a gollir.

5.3 Mae'r Trysorlys a daroganwyr allanol yn disgwyl cyfnod cythryblus wrth i'r Llywodraeth ymdrechu i sicrhau twf economaidd, ac mae'n gefndir heriol i gyllideb y Cyngor. Mae gwasanaethau sy'n seiliedig ar alw, fel y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Digartrefedd, yn debygol o wynebu mwy o bwysau o ganlyniad i'r newidiadau sy'n cael eu cyflwyno o dan y drefn Diwygio Lles. Mae nifer y bobl sy'n hawlio cymorth o dan Gynllun Cymorth y Dreth Gyngor wedi gostwng o'r uchafbwynt a welwyd yn 2012/13, ond ers y pandemig, mae'r niferoedd wedi cynyddu'n sylweddol ac nid ydynt yn debygol o ddychwelyd i'r lefel is am rai blynyddoedd.

5.4 Ar ddechrau pandemig COVID-19, bu i Fanc Lloegr ostwng cyfradd sylfaenol y banc o 0.75% i 0.25% ar 11 Mawrth 2020 ac yna i 0.1% ar 19 Mawrth 2020, sef y lefel isaf erioed. Ym mis Rhagfyr 2021, codwyd y gyfradd i 0.25%. Mae cynghorwyr Trysorlys y Cyngor yn rhag-weld y bydd y gyfradd yn cynyddu i 0.5% ym mis Mehefin 2022, ac yna i 0.75% yn ystod ail chwarter 2023. Mae'r Cyngor yn cael adroddiadau rheolaidd am gyfraddau llog drwy Adroddiadau Rheoli'r Trysorlys.

5.5 Mae'r Cyngor yn cael tua 72% o'i gyllideb refeniw net gan Lywodraeth Cymru, ac felly mae'n dibynnu ar yr economi yn ei chyfanrwydd ac ar allu Llywodraeth y DU i godi trethu i ariannu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r dirywiad economaidd yn rhoi mwy o bwysau ar sefyllfa ariannol y Cyngor ei hun a hefyd ar y gymuned ehangach. Felly, bydd angen i'r rhagolwg ariannol tymor canolig barhau i fod yn hyblyg er mwyn ymateb i unrhyw gyfleoedd neu fygythiadau a fydd yn deillio o'r amgylchedd allanol hwn. Bydd y ffordd y mae economi'r DU yn tyfu dros y blynyddoedd nesaf yn effeithio ar argaeledd arian grant. Mae'r incwm uwch sy'n dod i law drwy'r Dreth Gyngor, er yn sylweddol, yn cyfrif am gyfran lai o'r swm sydd ei angen i dalu am gostau uwch.

5.6 Mae'r rhagamcanion o ran y boblogaeth yn dangos y bydd pobl yn byw'n hirach yn genedlaethol ac yng Ngheredigion, a bydd hyn yn effeithio ar bob gwasanaeth ac yn enwedig o ran y categori 65 oed a throsodd. Byddwn yn parhau i gyflwyno data am bob gwasanaeth i Lywodraeth Cymru i'w chynorthwyo i gyfrifo'r sail dros ddosbarthu'r Grant Cynnal Refeniw.

5.7 Asesiad o Wariant Safonol yw'r dull a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i ddosbarthu adnoddau i awdurdodau lleol ar sail cyfrifiad o'r hyn y mae angen i bob awdurdod lleol ei wario i ddarparu lefel safonol o wasanaethau am gyfradd gyffredin o'r dreth gyngor. Mae gweithgor ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r awdurdodau lleol, o'r enw'r Is-grŵp Dosbarthu, yn cadw golwg ar fformiwlâu'r Asesiad o Wariant Safonol. Mae dyraniad yr Asesiad o Wariant Safonol yn seiliedig ar tua hanner cant o fformiwlâu sy'n rhoi sylw i nodweddion demograffig, ffisegol, economaidd a chymdeithasol. Mae'r Asesiad hefyd yn rhoi sylw i gostau cymharol darparu gwasanaethau tebyg ar draws yr awdurdodau lleol. O'r herwydd, mae'r fformiwlâu'n rhoi sylw i ffactorau fel poblogaeth, nifer y plant a'r oedolion hŷn, hyd ffyrdd, natur wledig yr ardal, a theneurwydd y boblogaeth. Cydymaith ystadegol i'r Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol yw'r Llyfr Gwyrdd. Mae'n darparu gwybodaeth gefndir i gyfrifo Asesiadau o Wariant Safonol ar gyfer setliad refeniw blynyddol llywodraeth leol.

Mae'r rhagolygon diweddaraf yn dangos y bydd poblogaeth Ceredigion yn gostwng, ac mae hyn wedi effeithio'n andwyol ar swm yr arian a ddyrannwyd drwy'r Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2022/23.

5.8 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei lle i beri iddi fod yn ofynnol i gyrff cyhoeddus roi mwy o ystyriaeth i'r tymor hir, cydweithio'n well â phobl, cymunedau a'i gilydd, ceisio atal problemau rhag digwydd, a gweithio mewn ffordd fwy cydgysylltiedig. Yn unol â'r ddyletswydd llesiant o dan y Ddeddf, rhaid inni ddefnyddio pum ffordd o weithio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ym mhopeth yr ydym yn ei wneud, a rhaid i'n gwaith fod yn gydnaws â'r saith nod llesiant cenedlaethol. Mae'n ofynnol i bob gwasanaeth roi'r Ddeddf ar waith, gan sicrhau bod y cynlluniau trawsnewid ac arbedion effeithlonrwydd yn cydymffurfio â'r ddyletswydd llesiant.

## 6 Strategaeth y gyllideb

6.1 Prif amcanion y broses o bennu'r gyllideb flynyddol yw:

- Sicrhau bod cyllideb gytbwys yn cael ei phennu bob blwyddyn a bod gwasanaethau sy'n rhoi gwerth am arian yn cael eu darparu;
- Edrych tua'r tymor hir i helpu i gynllunio gwasanaethau a chyllidebau cynaliadwy ac i helpu i sicrhau bod adnoddau ariannol y Cyngor yn ddigonol i gynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau.

6.2 Y sefyllfa sydd wrth wraidd cyllideb y Cyngor yw un lle y mae twf chwyddiannol a thwf arall yn y galw am ei wasanaethau yn debygol o gynyddu a mynd tu hwnt i'r incwm rhagamcanol.

6.3 Nodweddion y Strategaeth yw ei bod yn gadarn, yn ddynamig ac yn cydymffurfio.

**Cadarn** – Mae'n cael ei hintegreiddio'n effeithio â gweddill gweithgareddau llunio polisïau a chynllunio'r Cyngor, ac mae'n ategu trefniadau rheoli arian y Cyngor yn llwyr. Mae'r Strategaeth Ariannol yn ddogfen ac yn broses.

**Dynamig** – Mae'n ddogfen fyw ac yn broses sy'n esblygu ac yn datblygu yn sgil cyfleoedd (a bygythiadau) ariannol newydd a phenderfyniadau i ddilyn trywydd polisïau newydd.

**Cydymffurfio** – Mae'r Strategaeth yn seiliedig ar egwyddorion sylfaenol sy'n llywodraethu'r modd y caiff arian y Cyngor ei reoli. Mae'r Cyngor yn sicrhau bod y systemau rheoli arian yn ddigonol ac yn effeithiol, bod system gadarn o reolaethau mewnol ar waith, a bod y rheolaethau hynny'n bodloni'r gofynion a nodir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gyhoeddir gan y Cyngor. Mae'r Cyngor yn ymlynu wrth gyngor a chanllawiau cyfreithiol a phroffesiynol, gan gynnwys y Cod Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau a'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir a gyhoeddir gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.

6.4 Mae strategaeth y gyllideb yn adlewyrchu ffactorau allanol a mewnol y Cyngor, ac mae'n peri iddi fod yn ofynnol ystyried:

- Targedu adnoddau i sicrhau eu bod yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf, e.e. defnyddio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu i gefnogi prosesau darbodus ac i wella llif gwaith.
- Edrych tua'r tymor hir i gynllunio gwasanaethau a chyllidebau cynaliadwy ac i gynnal a gwella gwasanaethau rheng flaen drwy gynilo arian i sicrhau ein bod yn gallu bodloni ymrwymiadau gwariant yr ydym yn gwybod amdanynt.
- Mynd ati i fod yn effeithlon i wneud y defnydd gorau o asedau'r Cyngor, h.y. cronfeydd, tir, adeiladau, staff a thechnoleg gwybodaeth. Er enghraifft, o resymoli adeiladau ymhellach, gallai leihau'r costau refeniw a chynhyrchu derbyniadau cyfalaf.
- Cefnogi gwaith gyda phartneriaid i sicrhau gwerth am arian a'r canlyniadau gorau er budd cymunedau lleol, a sicrhau bod gwasanaethau dwyieithog yn cael eu darparu.

6.5 Felly, ein strategaeth ariannol yw parhau i reoli'r bwlch rhagamcanol rhwng yr adnoddau tebygol a'r gyllideb ofynnol er mwyn sicrhau bod gennym gyllideb gytbwys a chyflawni amcanion y Cyngor. Gellir cyflawni'r canlyniad hwn drwy ganolbwyntio'n bennaf ar nodi arbedion cyn pennu'r gyllideb er mwyn iddynt gael eu gwireddu mewn pryd erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol berthnasol.

6.6 Prif elfennau strategaeth y gyllideb a fydd yn cyfrannu at gyllideb gytbwys yw:

- Cynllunio i ddarparu dyraniadau cyllideb gwastad i wasanaethau, gan beri iddi fod yn ofynnol iddynt ysgwyddo'u costau uwch drwy wneud arbedion effeithlonrwydd, ennill incwm ac adennill costau, a chyflwyno newid ar draws y maes gwasanaeth cyfan. Ysgwyddo'r gostyngiadau cyffredinol yn lefel y cyllid drwy wireddu newid trawsnewidiol corfforaethol, adolygu gwasanaethau, a lleihau gwariant trydydd parti.
- Bydd cynnydd yn y Dreth Gyngor yn ystyried yr angen i sicrhau bod digon o arian ar gael i amddiffyn gwasanaethau allweddol.
- Bydd y gyllideb yn cael ei phennu'n gyffredinol mewn modd sy'n sicrhau nad oes unrhyw alw ar Falansau'r Gronfa Gyffredinol i gefnogi'r gyllideb sylfaenol, ac eithrio arian ar gyfer eitemau untro eithriadol y cytunwyd eu bod yn flaenoriaeth.
- Bydd cymaint o incwm â phosibl yn cael ei ennill drwy roi'r Polisi Rheoli Incwm ac Adennill Costau ar waith.
- Byddwn yn parhau i chwilio am arbedion effeithlonrwydd (gan gynnwys cynlluniau buddsoddi i arbed, cydwasanaethau, ac arbedion caffael) fel rhan naturiol o wella'r ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau.
- Bydd arbedion a wneir cyn gofyniad y gyllideb flynyddol yn cael eu priodoli'n fuddiol i'r cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, yn enwedig i gefnogi blaenoriaethau strategol y Cyngor â gofynion cyfalaf untro, a byddwn hefyd yn priodoli'r arbedion a wneir i'r gyllideb sylfaenol i'r flwyddyn briodol ddiweddarach y mae eu hangen.

6.7 Isod, rhestrir prif nodau'r broses o bennu'r gyllideb gyfalaf strategol:

- Bydd y Cynllun Rheoli Asedau, ynghyd â'r Rhaglen Rheoli Carbon, yn gosod sail ar gyfer y gwaith o bennu'r rhaglen gyfalaf a'r gwariant angenrheidiol ar asedau presennol ac asedau newydd y Cyngor.
- Bydd gwariant y gellir cael arian grant ar ei gyfer yn cael ei bennu.
- Tybir bod cynlluniau buddsoddi i arbed yn flaenoriaeth uchel oherwydd eu bod yn gyfraniad cadarnhaol at sefyllfa'r gyllideb yn y tymor canolig.
- Bydd cyllideb y rhaglen gyfalaf fel arfer yn cael ei phennu mewn ffordd sy'n sicrhau nad oes unrhyw alw am fenthyca darbodus ac eithrio i ariannu prosiectau cyfalaf penodol. Byddwn hefyd yn ystyried defnyddio benthyca darbodus pan fydd arbedion refeniw'n cael eu pennu y gellir eu defnyddio i ariannu costau cyllido cyfalaf.
- Byddwn yn defnyddio'r cronfeydd cyfalaf wrth gefn corfforaethol i gefnogi'r rhaglen gyfalaf, yn enwedig Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (y cyfeirir ati ym mharagraff 2.5 uchod), cynlluniau sy'n hybu'r economi leol a chynlluniau i amddiffyn yr arfordir.
- Tybir bod derbyniadau cyfalaf yn gyfraniad cadarnhaol at y rhaglen

gyfalaf gyffredinol, a byddant yn cael eu dyrannu yn unol â'r balans sydd ar gael ar ddechrau'r flwyddyn. Byddwn yn ymateb yn briodol i achosion o waredu asedau mawr pan fyddant yn digwydd.
- Bydd gwariant ar unrhyw asedau a buddsoddiad mewn unrhyw asedau yn gyfraniad cadarnhaol at amcanion corfforaethol ac amcanion gwasanaethau, a byddant yn cefnogi'r amcanion hynny.
- Byddwn yn llunio strategaeth gyllido i gefnogi prosiectau mawr y bwriedir eu rhoi ar waith yn y dyfodol.

6.8 COVID–19

Mae'r Cyngor wedi wynebu heriau nas gwelwyd eu tebyg o'r blaen yn ystod 2020/21 a 2021/22, yn ariannol ac yn weithredol, oherwydd pandemig COVID-19. Mae'r effaith ariannol yn cael ei thrin a'i thrafod fel mater corfforaethol ledled y Cyngor, gyda grantiau ar gyfer y pwysau a welwyd hyd yma yn cael eu hawlio drwy Grant Caledi Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys cynnydd yn y gwariant, gostyngiadau yn yr incwm sy'n dod i law drwy ffioedd a thaliadau ar draws gwasanaethau, yn ogystal â gostyngiad yng nghyfraddau casglu'r Dreth Gyngor.

Disgwylir y bydd COVID-19 yn parhau i effeithio ar gyllid y Cyngor drwy gydol 2022/23 a thu hwnt.

## 7 Gweithio mewn partneriaeth, arian allanol a chydweithredu

7.1 Mae'r Cyngor yn cydweithio â phartneriaid i sicrhau'r canlyniadau gorau er budd ei ddinasyddion, ac mae'n ymchwilio i gyfleoedd i gydweithio ag asiantaethau / awdurdodau lleol eraill. Mae'r strategaeth ariannol yn ymdrin mewn ffordd realistig ond darbodus â chyllid partneriaeth posibl nad yw'n sicr nac wedi'i gadarnhau hyd yma. Yn gyffredinol, nid yw cyllid partneriaethau nac incwm grant penodol yn cael ei ragdybio mewn rhagolygon oni bai fod y dyraniad wedi'i gadarnhau.

7.2 I hybu'r economi, bydd y Cyngor yn cydweithio â phartneriaid amrywiol, gan gynnwys:
- Llywodraeth Cymru
- Llywodraeth y DU
- Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru
- Sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch
- Darparwyr sgiliau a hyfforddiant
- Cyrff sy'n cynrychioli busnesau
- Arianwyr preifat a chyhoeddus
- Sefydliadau yn y trydydd sector

7.3 Mae'r Cyngor yn cael arian grant sylweddol i roi ei gyllideb refeniw gros ar waith. Cafodd grantiau penodol eu trosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw ac mae'n bosibl y gallai'r duedd hon barhau. Mae hyn yn golygu y bydd modd i wasanaethau benderfynu ar y ffordd orau o wario'r arian fel rhan o strategaeth leol yn hytrach na bod yn rhan o un genedlaethol.

7.4 Mae'r Cyngor yn cydweithio â Llywodraeth Cymru ar lawer o brosiectau refeniw a chyfalaf.

7.5 Rhaid i gyllidebau roi sylw clir i hanfod unrhyw waith cydweithredol y

mae'r Cyngor yn rhan ohono. Yn unol â'r egwyddor gwariant gros sy'n berthnasol i gyllidebu, mae'n ofynnol i gyllidebau ddangos gwariant ac incwm pob trafodiad ar wahân. Pan fo cyd-bwyllgor yn bodoli, mae angen iddo gytuno ar gyllideb ar gyfer gwaith y cyd-bwyllgor yn ddigon cynnar er mwyn i gyfran y Cyngor gael ei nodi yn y gyllideb. Mae Llywodraeth Cymru'n cyflwyno Cyd-bwyllgorau Corfforedig ledled Cymru yn 2022/23. Mae Ceredigion yn bartner i Gyngor Sir Powys (a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog at ddibenion cynllunio strategol yn unig) a byddant yn ffurfio Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth. Fel rhan o'u hasesiadau gwerth am arian, gallai archwilwyr adolygu'r rhesymau dros ymrwymo i drefniadau cydweithredol ac asesu gwelliannau i wasanaethau neu unrhyw arian parod a arbedwyd.

## 8 Rhagolwg Ariannol Tymor Canolig 2022/23 – 2024/25

8.1 Nid yw manylion y rhagolwg ariannol tymor canolig yn wybyddus ymlaen llaw, ac amcangyfrifon ydynt. Mae'r bylchau cyllido amcangyfrifedig wedi amrywio dros y blynyddoedd diwethaf, ond cafodd amcangyfrifon rhesymol eu gwneud.

Mae Setliad Dros Dro Llywodraeth Cymru ar gyfer Llywodraeth Leol yn 2022-23 wedi rhoi dyraniadau arian refeniw craidd dangosol ar lefel Cymru o £5.3 biliwn ar gyfer 2023-24 a £5.4 biliwn ar gyfer 2024-25 – mae hyn yn gyfwerth â chynnydd o £177 miliwn (3.5%) yn y flwyddyn gyntaf ac £128 miliwn (2.4%) yn yr ail flwyddyn.  O ystyried y fformiwla ar gyfer cyfran y Cyngor o'r cynnydd hwn, amcangyfrifir y bydd i bob pwrpas yn gyfystyr â chynnydd o 1.75% ac 1.2% i'r Cyngor yn y naill flwyddyn a'r llall. Ym mharagraff 8.2.3 isod, dangosir gwahanol lefelau o gynnydd yn y Dreth Gyngor, ynghyd â rhagfynegiadau amrywiol ar gyfer y setliad.

Mae Tabl 1 isod yn defnyddio swm o 4% at ddibenion cynllunio. Bydd setliad gwirioneddol Llywodraeth Cymru'n wahanol i'r amcanestyniad ac fe allai fod yn waeth neu'n is. Yn yr un modd, bydd unrhyw gynnydd i'r Dreth Gyngor yn amrywio.

Mae'r tablau isod yn nodi amcanestyniadau o'r incwm, y gwariant a'r arbedion amcanestynedig y bydd angen eu gwneud dros y tair blynedd nesaf ar sail yr amcanestyniadau cyllid a ganlyn.

### Tabl 1 – Rhagamcanion cyllido  – Ffigurau dangosol

| | Dangosol | | |
|---|---|---|---|
| | **2022/23** | **2023/24** | **2024/25** |
| Y Dreth Gyngor | 4.75% | 4.0% | 4.0% |
| Cyllid Llywodraeth Cymru | 8.6% | 1.8% | 1.2% |

### Tabl 2 – Y Gyllideb Refeniw – Incwm

| | **2021/22** | **2022/23** | **2023/24** | **2024/25** |
|---|---|---|---|---|
| | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** |
| Y Dreth Gyngor | 45 | 47 | 49 | 51 |
| Cyllid Llywodraeth Cymru | 110 | 119 | 122 | 123 |
| **Cyfanswm incwm** | **155** | **167** | **171** | **174** |

**ATODIAD 4**

**Tabl 3 – Diffyg yn y Gyllideb Refeniw**

| | 2021/22<br>£m | 2022/23<br>£m | 2023/24<br>£m | 2024/25<br>£m |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant wedi'i gynllunio | 158 | 168 | 178 | 181 |
| Incwm disgwyliedig | 155 | 167 | 171 | 174 |
| **Arbedion gofynnol** | **3** | **1** | **7** | **7** |

Ar sail y rhagdybiaethau hyn, mae'n ofynnol i'r Cyngor arbed o leiaf £15m erbyn mis Mawrth 2025, yn ychwanegol at yr arbedion o £50m a wnaed rhwng mis Ebrill 2012 a mis Mawrth 2022. O wneud hyn, bydd y Cyngor wedi arbed cyfanswm o £51m rhwng mis Ebrill 2012 a mis Mawrth 2023.

8.2 Rydym yn egluro'r prif ragdybiaethau a gafodd eu cynnwys yn y rhagolwg isod:

8.2.1 **Chwyddiant** – Mae'r rhagolwg yn darparu ar gyfer chwyddiant cyflogau cyffredinol a newidiadau oherwydd y cyflog byw. Rydym wedi rhagdybio cynnydd o ran cyflenwadau a gwasanaethau a ddarperir o dan gontractau a phwysau o fath arall ar y gyllideb.

Gweler amcanestyniadau chwyddiant Banc Lloegr ym mharagraff 12.14. Disgwylir pwysau chwyddiannol sylweddol yn y tymor byr, gan fod disgwyl i fynegai'r CPI gynyddu i 6% yn ystod 2022. Bydd hyn yn rhoi pwysau sylweddol ar gyllideb y Cyngor.

8.2.2 **Cyfraddau Cyllid Allanol Cyfun** – Ar ddechrau pandemig COVID-19, bu i Fanc Lloegr ostwng cyfradd sylfaenol y banc o 0.75% i 0.25% ar 11 Mawrth 2020 ac yna i 0.1% ar 19 Mawrth 2020, sef y lefel isaf erioed. Ym mis Rhagfyr 2021, codwyd y gyfradd i 0.25%. Mae cynghorwyr Trysorlys y Cyngor yn rhag-weld y bydd y cyfraddau'n cynyddu i 0.5% ym mis Mehefin 2022, ac yna i 0.75% yn ystod ail chwarter 2023. Pe bai'r cyfraddau llog yn cynyddu 1%, gallai greu £200k o incwm ychwanegol yn ystod blwyddyn gyfan, ond rhaid gwrthbwyso hyn yn erbyn cost unrhyw fenthyciadau newydd, gyda chyfraddau llog uwch, a fydd yn codi yn ystod y cyfnod hwnnw.

8.2.3 **Cyllid Allanol Cyfun** – Mae rhagolwg tair blynedd y gyllideb yn cynnwys symiau amcanestynedig ar gyfer Setliad y Gyllideb Cyllid Allanol Cyfun dros y tair blynedd nesaf. Gan fod ffigurau poblogaeth Ceredigion yn gostwng, fel y disgrifir ym mharagraff 12.1 isod, mae hyn wedi effeithio'n andwyol ar Setliad Cyllideb Cyllid Allanol Cyfun y Cyngor, a bydd yn parhau i effeithio'n andwyol arno.

Dangosir yr amrediad posibl o ddiffygion yn y gyllideb yn y tymor canolig o ganlyniad i'r ansicrwydd o ran setliadau blynyddol y gyllideb Cyllid Allanol Cyfun yn y tablau isod.

Mae newid o 1% yn y Cyllid Allanol Cyfun yn gyfwerth â thua £1.1m, ac mae cynnydd o 1% yn y Dreth Gyngor yn codi £450k o arian ychwanegol. O hepgor cynnydd yng nghostau Cynllun Cymorth y Dreth Gyngor, mae'n rhoi swm o £385k.

**ATODIAD 4**

**2023/24: Dadansoddiad o'r senarios posibl o ran bwlch cyllido'r gyllideb – h.y. yr arbedion y gall fod eu hangen**

| | | Cynnydd yn y Dreth Gyngor | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **0.0%** | **1.0%** | **2.0%** | **3.0%** | **4.0%** | **5.0%** | **6.0%** | **7.0%** |
| **Setliad Cyllid Allanol Cyfun** | **0.0%** | £10.8m | £10.3m | £9.9m | £9.4m | £8.9m | £8.4m | £8.0m | £7.5m |
| | **1.0%** | £9.6m | £9.1m | £8.7m | £8.2m | £7.7m | £7.2m | £6.8m | £6.3m |
| | **2.0%** | £8.4m | £7.9m | £7.5m | £7.0m | £6.5m | £6.0m | £5.6m | £5.1m |
| | **3.0%** | £7.2m | £6.7m | £6.3m | £5.8m | £5.3m | £4.8m | £4.4m | £3.9m |
| | **4.0%** | £6.0m | £5.5m | £5.1m | £4.6m | £4.1m | £3.7m | £3.2m | £2.7m |
| | **5.0%** | £4.8m | £4.4m | £3.9m | £3.4m | £2.9m | £2.5m | £2.0m | £1.5m |

**2024/25: Dadansoddiad o'r senarios posibl o ran bwlch cyllido'r gyllideb – h.y. yr arbedion y gall fod eu hangen**

| | | Cynnydd yn y Dreth Gyngor | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **0.0%** | **1.0%** | **2.0%** | **3.0%** | **4.0%** | **5.0%** | **6.0%** | **7.0%** |
| **Setliad Cyllid Allanol Cyfun** | **0.0%** | £10.2m | £9.7m | £9.2m | £8.7m | £8.2m | £7.7m | £7.2m | £6.7m |
| | **1.0%** | £9.0m | £8.5m | £8.0m | £7.5m | £7.0m | £6.5m | £6.0m | £5.5m |
| | **2.0%** | £7.8m | £7.3m | £6.8m | £6.3m | £5.8m | £5.3m | £4.8m | £4.3m |
| | **3.0%** | £6.6m | £6.1m | £5.6m | £5.1m | £4.6m | £4.1m | £3.6m | £3.1m |
| | **4.0%** | £5.3m | £4.8m | £4.4m | £3.9m | £3.4m | £2.9m | £2.4m | £1.9m |
| | **5.0%** | £4.1m | £3.6m | £3.1m | £2.6m | £2.2m | £1.7m | £1.2m | £0.7m |

8.2.4 **Incwm** – Bob blwyddyn, cynhelir adolygiad adennill costau sy'n cynnwys diweddaru ffioedd a thaliadau ac unrhyw gynnydd arall a bennir naill ai uwchlaw lefel chwyddiant neu o ran taliadau newydd. Mae'r adolygiad hwn yn gosod sail ar gyfer y gwaith o bennu model y gyllideb flynyddol, ac mae'n cynorthwyo gwasanaethau i ysgwyddo'r pwysau sy'n deillio o chwyddiant a chostau eraill.

8.2.5 **Arbedion** – Byddwn yn parhau i chwilio am arbedion bob blwyddyn drwy'r modd yr ydym yn darparu gwasanaethau. Bydd gwasanaethau amrywiol yn cael eu hadolygu i bennu a oes modd gwneud arbedion. Rydym yn cydnabod y bydd angen pennu arbedion pellach i wneud iawn am y diffyg a ragwelir yn y gyllideb yn ystod cyfnod y Strategaeth hon.

Pan fydd yn cynnal adolygiadau sy'n ymwneud â'r modd y bydd gwasanaethau'n cael eu darparu yn y dyfodol, bydd y Cyngor yn ymgysylltu â'r cyhoedd ac yn trefnu i ymgynghori â staff, undebau, rhanddeiliaid a'r cyhoedd fel y bo'n briodol.

8.2.6 **Trosglwyddo grantiau** – Pan fydd arian grant penodol yn cael ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw, byddwn yn dilyn yr egwyddor

gyffredinol o ddyrannu'r adnoddau hynny yn uniongyrchol i gyllideb y gwasanaeth perthnasol.

8.2.7 **Cyllid ychwanegol ar gyfer blaenoriaethau'r Cyngor** – Bydd y Cabinet yn parhau i gyfeirio adnoddau i'r meysydd hynny sy'n flaenoriaeth lle y gellir gwireddu gwelliannau gwirioneddol a pharhaus. Mae eitemau corfforaethol y cydnabyddir bod angen dyraniadau blynyddol arnynt ym model y gyllideb yn cynnwys cynnydd yng Nghynllun Cymorth y Dreth Gyngor sy'n gysylltiedig â chynnydd yn y Dreth Gyngor, cyllid ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf, Premiwm y Dreth Gyngor, Lleoliadau Tu Allan i'r Sir, costau democrataidd, a'r cynnydd yn ardoll Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Yn 2021/22, bu i ardoll Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ostwng oherwydd gostyngiad sylweddol yn ffigurau poblogaeth rhagamcanol y sir, ond mae disgwyl i gyfran y Cyngor o'r ardoll gynyddu o flwyddyn i flwyddyn.

## 9 Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a balansau

9.1 Caiff datganiad o Gronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi a Balansau Cyffredinol y Cyngor ei ddiweddaru o leiaf ddwywaith y flwyddyn a'i gyflwyno i'r Aelodau yn ystod y broses o bennu'r gyllideb a'r broses o baratoi'r cyfrifon terfynol. Ceir crynodeb o sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn isod:

| | **31.3.21** | **31.3.22** | **31.3.23** |
|---|---|---|---|
| | Gwirioneddol | Arfaethedig | Arfaethedig |
| Balansau Cyffredinol – Swm | £6.1m | £6.1m | £6.1m |
| Balansau Cyffredinol – Canran | 4.0% | 3.9% | 3.6% |
| Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi (gan gynnwys Ysgolion) | £38.5m | £43m | £38m |

Targed cymeradwy'r Cyngor yw cadw'r Balansau Cyffredinol ar lefel sy'n gyfwerth â rhwng 3% a 5% o'r gwariant net.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer aelodau etholedig lleol o ran craffu ar awdurdodau lleol sy'n dal ac yn defnyddio cronfeydd wrth gefn. Ceir manylion ar wefan Llywodraeth Cymru:

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/cronfeydd-wrth-gefn-yr-awdurdodau-lleol-canllawiau-i-aelodau-etholedig-a-phrif-swyddogion-cyllid.pdf

Mae'r Cyngor wedi parhau i fenthyca tua £20m yn fewnol drwy ddefnyddio'r arian a geir mewn cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, ac mae hyn wedi lleihau'r angen i fenthyca. Amcangyfrifir bod y dull hwn o weithredu wedi arbed £800k y flwyddyn i'r trethdalwyr, swm sy'n gyfwerth â bron i 2% y flwyddyn o daliadau'r Dreth Gyngor.

## 10 Asesu risg a sensitifrwydd

10.1 Rydym yn ystyried senarios y gyllideb ddangosol yn rheolaidd. At ddibenion cynllunio, dyma rai o'r canllawiau yr ydym yn eu dilyn:-

- Mae newid o 1% yn y Cyllid Allanol Cyfun yn gyfwerth â thua £1.1m.
- Mae cynnydd o 1% mewn cyflogau yn gyfwerth â thua £1.0m.
- Mae swm y balansau craidd a gedwir ar ffurf adneuon arian parod yn amrywio ac mae hyn, ynghyd â'r gyfradd llog (sydd hefyd yn amrywio), yn effeithio'n sylweddol ar lefel yr incwm sy'n dod i law ar ffurf llog. Mae cynnydd o 1% mewn cyfraddau llog, gan ddibynnu ar swm y balansau craidd sydd wedi'u hadneuo, yn cynhyrchu rhwng £100k a £200k o incwm ychwanegol.
- Bydd cyfraddau llog negyddol yn arwain at dalu costau ar y balansau craidd sydd wedi'u hadneuo.
- Mae cynnydd o 1% yn y Dreth Gyngor yn codi £450k o arian ychwanegol. O hepgor cynnydd yng nghostau Cynllun Cymorth y Dreth Gyngor, mae'n rhoi swm o £385k.

10.2 Mae Cofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor, sy'n destun gwaith craffu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yn disgrifio risg fel a ganlyn:

- Os bydd arian craidd ac arian allanol yn gostwng, bydd yn arwain at leihau'r gwasanaethau a ddarperir mewn rhai meysydd. O fethu ag addasu, cyflawni'r arbedion a bennwyd ac ystyried dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau yn unol â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, bydd yn effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol ac ar gyfrifoldebau ariannol y Cyngor.

Canlyniadau posibl y risg hon yw:

- Risg na fydd modd bodloni'r terfynau amser statudol ar gyfer pennu'r gyllideb.
- Risg y gallai effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir oherwydd bod ein hadnoddau'n lleihau, oherwydd bod newidiadau i wasanaethau'n cael eu cyflwyno'n gyflym, neu oherwydd ein bod yn methu â blaenoriaethu gwariant yn effeithiol yn unol â blaenoriaethau corfforaethol.
- Risg na chaiff y cynlluniau arbedion a bennwyd eu cyflawni yn ôl y bwriad.
- Risg y gallai'r broses o bennu'r gyllideb flynyddol lesteirio gwaith cynllunio mwy hirdymor.
- Risg y gallai mwy o alw mewn meysydd gwasanaeth lle y ceir rhwymedigaethau statudol i ateb gofynion, e.e. Gofal Cymdeithasol i Oedolion, beri iddynt wario mwy na'r gyllideb a ddyrannwyd iddynt.

Mae'r Cyngor yn parhau i fonitro ac i adolygu ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Mae'r Cyngor yn monitro'r cyllidebau a bennir a'r arbedion a gynllunnir, ac mae wedi bod yn mynd drwy broses helaeth i ystyried dewisiadau i bennu arbedion i'w gwneud yn y dyfodol.

**11** **Y Dreth Gyngor** – Mae data cymharol am lefelau Treth Gyngor awdurdodau Cymru ar gael ar wefan Ystadegau Cymru drwy ddefnyddio'r ddolen a ganlyn:-

https://llyw.cymru/lefelaur-dreth-gyngor

Yn hanesyddol, defnyddiwyd Band D fel ffon fesur safonol i gymharu lefelau'r Dreth Gyngor rhwng ac ar draws awdurdodau lleol. Nid yw'r amrywiadau a geir ar draws awdurdodau lleol o ran dosbarthiad eiddo i wahanol fandiau yn effeithio ar y mesur hwn.

Yn 2021/22, £1,731 yw Treth Gyngor gyfartalog eiddo Band D yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys £1,403 ar gyfer cynghorau sir, £290 ar gyfer awdurdodau'r heddlu a £39 ar gyfer cynghorau cymuned. Mae'r Dreth Gyngor yn amrywio o £1,504 yn Sir Benfro i £2,078 ym Mlaenau Gwent, o'i gymharu â £1,725 yng Ngheredigion.

Elfen gyfartalog y cynghorau sir (ac eithrio awdurdodau'r heddlu a chynghorau cymuned) yw £1,403 yng Nghymru ac £1,413 yng Ngheredigion. Mae'r elfen hon yn amrywio o £1,190 yn Sir Benfro i £1,768 ym Mlaenau Gwent.

## 12 Demograffeg a thueddiadau eraill

### 12.1 Demograffeg

Rhagwelir y bydd poblogaeth Cymru'n cynyddu 3.5% hyd at 2038, gan gynyddu o 3.1 miliwn i 3.2 miliwn. Dros y cyfnod hwn, disgwylir i ganran y rhai dros 65 oed yng Nghymru gynyddu o tua 21% i 26% o'r boblogaeth, a rhagwelir y bydd cyfran y rhai 75 oed a throsodd yn cynyddu 51%. Yn ystod yr ugain mlynedd nesaf, disgwylir y bydd disgwyliad oes yn parhau i gynyddu, ond yn arafach.

I'r gwrthwyneb, dros y cyfnod hwn, rhagwelir y bydd nifer y plant o dan 16 yn gostwng o tua 18% i 16% o'r boblogaeth. Rhagwelir hefyd y bydd nifer yr aelwydydd yng Nghymru'n cynyddu'n gyflymach na'r boblogaeth gyfan, gan arwain at aelwydydd llai o faint a galw am fwy o gartrefi.

Ceredigion yw un o'r pedair sir y disgwylir i'w poblogaethau ostwng dros y cyfnod hwn, a hynny o 72,695 yn 2019 i 69,338 yn 2038. Rhagwelir y bydd nifer y plant yng Ngheredigion yn gostwng oddeutu 15%, sef gostyngiad o 1,500 erbyn 2038. Gellir priodoli'r gostyngiad hwn i'r disgwyliad y bydd cyfraddau ffrwythlondeb Ceredigion yn arafu, tuedd a welir yn genedlaethol hefyd.

Yn 2019, roedd 43,000 o bobl yn rhan o boblogaeth oedran gweithio Ceredigion, sef 60% o boblogaeth gyfan y sir. Mae hyn yn cymharu â 61% o boblogaeth Cymru. Rhagwelir y bydd poblogaeth oedran gweithio Ceredigion yn gostwng tua 14% dros yr ugain mlynedd nesaf. Gellir priodoli'r gostyngiad hwn i fudo mewnol, lle y mae pobl yn symud i wahanol rannau o'r DU. Mae hyn yn cynnwys y gyfran uchel o fyfyrwyr rhwng 21-24 oed yng Ngheredigion sy'n dueddol o adael yr ardal ar ôl graddio i achub ar gyfleoedd cyflogaeth ac addysg mewn mannau eraill.

Serch hynny, disgwylir i nifer y bobl dros 65 oed gynyddu, gyda disgwyl i'r gyfran gynyddu o tua 25% i 32% o'r boblogaeth, sef 4,300 o bobl ychwanegol dros y cyfnod o ugain mlynedd. Yn ychwanegol at ddisgwyliad oes hirach, mae'r cynnydd yn y grŵp oedran 65 oed a throsodd yn cael ei sbarduno gan y ffaith bod y genhedlaeth fawr a aned ar ôl y rhyfel yn y 1950au a'r 1960au yn heneiddio. Erbyn 2028, bydd y bobl hyn rhwng 64 ac 82 oed.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r amcanestyniadau hyn yn ceisio rhagfynegi sut y gallai newidiadau i amgylchiadau economaidd a chymdeithasol effeithio ar ymddygiad demograffig, felly nid yw'r testun hwn yn cyfrif am effaith bosibl Brexit a phandemig COVID-19 ar y newid ym mhoblogaeth Ceredigion. Roedd tystiolaeth anecdotaidd yn sgil y pandemig yn tynnu sylw at duedd lle'r oedd pobl yn chwilio am gyfleoedd i symud o ardaloedd trefol i ardaloedd gwledig "mwy diogel". Gallai'r duedd bosibl hon effeithio ar boblogaeth Ceredigion drwy fudo mewnol, ond nid yw'r duedd hirdymor na'i heffeithiau ar y newid i'r boblogaeth leol yn wybyddus.

## 12.2 Amddifadedd

Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019), mynediad at wasanaethau a thai yw'r meysydd sy'n peri'r pryder mwyaf. Er bod angen bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r Mynegai oherwydd y ffordd y gall gelu amddifadedd gwledig, mae'n rhoi cipolwg ar amddifadedd cymharol ledled Cymru.

Mae'r maes mynediad at wasanaethau'n mesur yr amser y mae'n ei gymryd i deithio at wasanaethau amrywiol, yn gorfforol ac yn ddigidol. Mae hanner ardaloedd Ceredigion ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes hwn. Yn y cyfamser, mae'r maes tai yn nodi nad yw tai'n ddigonol o ran amodau byw ffisegol nac o ran argaeledd. Yn y maes hwn, mae dros chwarter ardaloedd Ceredigion ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sef y gyfran uchaf yn genedlaethol.

I'r gwrthwyneb, ar sail y mesur cyffredinol a meysydd pwysig fel incwm, cyflogaeth, iechyd ac addysg, Ceredigion yw un o siroedd lleiaf difreintiedig Cymru. Dim ond un ardal yng Ngheredigion sydd ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (Aberteifi – Teifi). Mae'r anghysondeb o ran crynodiadau'r amddifadedd amlweddog ymhlith ardaloedd yng Ngheredigion yn ein hatgoffa o'r bwlch eang o ran cyfleoedd y gellir cael hyd iddo mewn sir ac mewn cymunedau sydd wedi'u lleoli'n agos at ei gilydd.

## 12.3 Cyflogaeth

Mae cyfradd gweithgarwch economaidd Ceredigion wedi parhau i gynyddu dros y misoedd diwethaf, gan gyrraedd 76.7% ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021, a symud tu hwnt i gyfradd Cymru gyfan (75.2%). Mae cyfraddau gweithgarwch economaidd Ceredigion yn draddodiadol is, a hynny'n bennaf oherwydd bod cyfran fawr o fyfyrwyr amser llawn ymhlith y boblogaeth oedran gweithio. Maent yn cyfrif am 11% o boblogaeth y sir. Mae'r gyfradd gymharol uchel o bobl sydd wedi ymddeol yn gynnar hefyd yn dylanwadu ar hyn.

Gwelir tuedd debyg o edrych ar ffigurau'r gyfradd gyflogaeth. Ym mis Mawrth 2021, 73.3% oedd cyfradd gyflogaeth Ceredigion, cyfradd uwch na chyfradd Cymru gyfan (72.2%). Serch hynny, dylid bod yn bur ofalus wrth ymdrin â'r tueddiadau hyn oherwydd effeithiau pandemig COVID-19 ar lawer o'r dangosyddion economaidd, ac oherwydd nad yw'r effeithiau ond yn dueddol o ddod i'r amlwg yn y ffigurau fisoedd lawer yn ddiweddarach.

Mae'r Cyngor yn parhau i fynd ati mewn ffordd ragweithiol i fonitro effaith COVID-19 ar ei economi leol a'i gymunedau. Yn ddiweddar, bu iddo gadarnhau ei ymrwymiad i'r set bresennol o Amcanion Llesiant er mwyn iddo ganolbwyntio ar adfer ar ôl y pandemig.

## 12.4 Diweithdra

O ran y deuddeg mis a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021, 3.4% oedd cyfradd ddiweithdra Ceredigion. Dros y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd tuedd gadarnhaol o ran diweithdra yn y sir, gyda'r gyfradd yn disgyn o uchafbwynt o 4.2% ym mis Mawrth 2018 i isafbwynt o 2.6% ym mis Mawrth 2020, yn union cyn i COVID-19 beri i'r sir, a'r genedl, wynebu'r cyfnod clo. Bryd hynny, roedd cyfradd ddiweithdra Ceredigion gryn dipyn yn is na'r gyfradd o 3.7% ledled Cymru gyfan.

Ond, ers hynny, mae effaith y pandemig ar y gweithlu wedi bod yn amlwg iawn, gyda chyfradd ddiweithdra Ceredigion yn cynyddu bob chwarter, gan gyrraedd 3.4% erbyn mis Mawrth 2021. Mae hyn yn adlewyrchu'r ergyd i rai o brif ddiwydiannau Ceredigion, fel twristiaeth, lletygarwch, gwasanaethau bwyd ac amaethyddiaeth.

Mae nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra yn fesur sy'n dangos yr effaith yn fwy uniongyrchol. Mesur o nifer y bobl sy'n hawlio'r Lwfans Ceisio Gwaith neu'r Credyd Cynhwysol neu fudd-daliadau oherwydd eu bod yn ddi-waith yw hwn. Cynyddodd y niferoedd yn sydyn rhwng mis Mawrth a mis Ebrill 2020, gan gynyddu o 830 i 1,730, sef cynnydd o 110%.

Fodd bynnag, ers mis Mawrth 2021, mae'r niferoedd wedi gostwng yn barhaus wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio ac i bobl ddechrau dychwelyd i'r gwaith. Erbyn yr adeg honno, roedd y ffigur wedi gostwng i 1,425, y lefel isaf ers dechrau'r pandemig. Ceir rhywfaint o bryder o hyd am effaith terfynu'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (y cynllun ffyrlo) ddiwedd mis Medi 2021. Mae Is-grŵp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cadw llygad barcud ar effaith ariannol y pandemig a'r incwm a gollwyd, ac mae'n rhoi Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi ar waith ledled Ceredigion yn sgil y pandemig. Mae'n amlwg y bydd yr effaith ar y gweithlu'n dal i gael sylw mawr yn ystod y cyfnod adfer dros y tair i bum mlynedd nesaf.

## 12.5 Incwm ac enillion

Mae enillion yn cyfeirio at yr arian a enillir drwy gyflogaeth, tra mae incwm yn cyfeirio at yr holl arian sy'n dod i law, gan gynnwys drwy enillion, budd-daliadau a phensiynau. Mae enillion ac incwm yng Ngheredigion yn is na'r rheini ar draws Cymru a chryn dipyn yn is na'r DU yn ei chyfanrwydd. Mae hon yn duedd gyffredin mewn siroedd sy'n bennaf yn rhai gwledig.

Mae Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion 2020, yr arolwg diweddaraf o'i fath, yn dangos bod yr enillion blynyddol cyfartalog yng Ngheredigion yn is nag yng Nghymru gyfan ac, ac eithrio Powys, maent hefyd yn is na gweddill y Canolbarth a'r Gorllewin. Enillion blynyddol cyfartalog (canolrifol) y rheini sy'n byw yng Ngheredigion yw £26,282, bron i £2,000 yn is na'r ffigur o £28,273 ledled Cymru.

Mae'r duedd yn debyg o ran incwm aelwydydd. Incwm canolrifol aelwydydd Ceredigion yw £28,595 o'i gymharu â £28,999 leded Cymru a £33,124 ledled y DU. Mae mwyafrif aelwydydd Ceredigion (52.7%) yn ennill incwm o £30,000 neu lai, ac mae bron i draean yr aelwydydd (32.5%) yn ennill incwm o £20,000 neu lai.

## 12.6 Iechyd

Mae disgwyliad oes yn dda yng Ngheredigion – disgwyliad oes cyfartalog gwrywod yw 79.3 blynedd a disgwyliad oes benywod yw 84.1 blynedd. Mae'r ddau ffigur hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 78.5 ar gyfer gwrywod ac 82.3 ar gyfer benywod. Mae boddhad â bywyd a hapusrwydd yn gydradd â chyfartaledd cenedlaethol Cymru, tra mae iechyd cyffredinol yn uwch na'r cyfartaledd. Yn 2019/20, dywedodd 73% o drigolion Ceredigion bod eu hiechyd yn 'Dda' neu'n 'Dda Iawn', canran ychydig uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 72%.

Fodd bynnag, mae Mynegai Amddifadedd Lluosog diweddaraf Cymru (2019) yn dangos bod dwy o'r 46 ardal yng Ngheredigion ymhlith y 30% mwyaf difreintiedig yn y maes iechyd. Nid oedd yr un ardal yn y categori hwn ym Mynegai 2011. Roedd pedair ardal yn y sir hefyd ymhlith yr 50% o ardaloedd mwyaf difreintiedig ym Mynegai 2019, cynnydd o un ers 2011.

## 12.7 Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Oherwydd datblygiadau arloesol o ran technoleg a gofal iechyd, mae'r boblogaeth fyd-eang o bobl dros 60 oed yn tyfu'n gyflymach nag unrhyw grŵp oedran arall. Erbyn 2038, bydd un o bob pedwar ym mhoblogaeth Cymru dros 65 oed.

Yng Ngheredigion, mae nifer y bobl 65 oed a throsodd eisoes yn uwch nag un o bob pedwar, ac amcangyfrifir y bydd yn cynyddu i un o bob tri erbyn 2038. Amcangyfrifir bod pobl 75 oed a throsodd yn cyfrif am 11.2% o boblogaeth Ceredigion yn 2018 ac y bydd hyn yn cynyddu i 14.9% erbyn 2028 ac i 17.0% erbyn 2038, sef cynnydd o 45% yn y grŵp oedran hwn. Amcangyfrifir bod pobl 85 oed a throsodd yn cyfrif am 3.4% o boblogaeth Ceredigion yn 2018, a disgwylir y bydd hyn yn cynyddu i 4.2% erbyn 2028 a 5.8% erbyn 2038, sef cynnydd o 61% yn y grŵp oedran hwn.

Rhagwelir y bydd Cymhareb Dibyniaeth Pobl Hŷn Ceredigion yn cynyddu o 419 o ddibynyddion fesul 1,000 o bobl yn 2018 i 517 o ddibynyddion fesul 1,000 o bobl yn 2038. (Y gymhareb yw nifer y bobl o oedran pensiwn gwladol fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio.) Er y bydd yr oedran pensiwn gwladol yn cynyddu i 67 yn 2028, mae'r Gymhareb Dibyniaeth Pobl Hŷn yn parhau i gynyddu. Mae hyn yn arwyddocaol gan fod y

**ATODIAD 4**

cynnydd yn y boblogaeth sy'n heneiddio yn her fawr i bob awdurdod lleol oherwydd mae'n anochel y bydd yn arwain at fwy o alw am wasanaethau'r cynghorau.

## 12.8 Addysg

Ym mis Ebrill 2021, roedd 4,755 o ddisgyblion o oedran cynradd yng Ngheredigion, o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6, ynghyd â 3,510 o ddisgyblion o oedran uwchradd (blynyddoedd 7-11). Roedd 755 o ddisgyblion ym mlynyddoedd 12 a 13 yn ysgolion Ceredigion hefyd. Mae'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC) fel arfer yn cael ei gynnal ym mis Ionawr bob blwyddyn. Fodd bynnag, gan fod ysgolion ynghau rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Mawrth 2021 oherwydd COVID-19, gohiriwyd y cyfrifiad tan fis Ebrill 2021.

Gan fod ysgolion Ceredigion yn llai o faint, mae'n anoddach iddynt ymdopi â gostyngiadau refeniw nag ydyw i ysgolion mwy o faint mewn mannau eraill yng Nghymru.

Mae dyraniad y Grant Cynnal Refeniw yn dibynnu ar y symudiad cymharol o ran niferoedd y disgyblion ar draws awdurdodau Cymru. Mae cyfanswm yr arian a ddyrennir drwy'r Grant Cynnal Refeniw hefyd yn newid o flwyddyn i flwyddyn. Felly, nid oes modd cyfrif effaith y ddwy ffactor hyn ar gyfran y Grant Cynnal Refeniw, er ei bod yn rhesymol tybio bod y ddwy ffactor yn debygol o leihau'r arian sy'n dod i Geredigion.

Mae nifer o ysgolion Ceredigion wedi'u lleoli'n agos at ffiniau siroedd eraill, a gall ffactorau lleol sy'n effeithio ar boblogrwydd yr ysgolion y naill ochr a'r llall i'r ffin ddylanwadu ar nifer y disgyblion yn yr ysgolion hynny.

Ym mis Ebrill 2021, roedd 755 o ddisgyblion blwyddyn 12 a 13 yn ysgolion Ceredigion. Erbyn mis Ionawr 2024, rhagwelir y bydd y ffigur hwn yn cynyddu i 776. Mae'r Comisiwn Archwilio wedi awgrymu y dylai fod o leiaf 150 o ddisgyblion mewn chweched dosbarth mewn ysgol er mwyn iddo fod yn hyfyw ac yn gynaliadwy. Erbyn 2024, mae'n debygol y bydd llai na 150 o ddisgyblion mewn pump o'r chwech chweched dosbarth yng Ngheredigion.

Mae'r ddarpariaeth ôl-16 ledled y sir yn cael ei dadansoddi ar hyn o bryd i sicrhau:

- bod cyfleoedd addysgol ar gyfer disgyblion 14-19 y sir yn cael eu hehangu
- bod cwricwlwm galwedigaethol cyfoethog yn cael ei ddarparu a fydd yn briodol er mwyn i bob dysgwr wireddu ei botensial/photensial yn llwyr ac a fydd yn ateb gofynion pob rhanddeiliad ac economi leol Ceredigion
- bod mynediad cyfartal a theg at ystod eang o lwybrau dysgu effeithlon ar wahanol lefelau, gyda'r nod o sicrhau mai Ceredigion yw'r sir â'r nifer isaf o ddisgyblion sy'n gadael yr ysgol heb gamu ymlaen i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) yng Nghymru o hyd.

12.9 **Cludiant**

Cyfanswm hyd ffyrdd Ceredigion yw un o'r mwyaf yng Nghymru, sef cyfanswm o 2,265km. Mae tua 51.5% o ffyrdd Ceredigion yn ffyrdd dosbarth B ac C (1,167km) a elwir yn 'is-ffyrdd'.

Mae canran ffyrdd dosbarth A, B ac C Ceredigion sydd mewn cyflwr gwael wedi gostwng ychydig dros y tair blynedd diwethaf, er bod cyflwr ffyrdd dosbarth A ac C yn parhau i fod uwchlaw'r targed. Gostyngodd canran y ffyrdd dosbarth A mewn cyflwr gwael o 4.4% yn 2017/18 i 3.2% yn 2020/21, ond mae'n dal i fod uwchlaw'r targed o 3%. Gostyngodd canran y ffyrdd dosbarth B mewn cyflwr gwael ychydig o 3.1% i 2.0% ac mae o fewn y targed o 6%. Gostyngodd canran y ffyrdd dosbarth C mewn cyflwr gwael o 17.5% i 14.7% ac mae uwchlaw'r targed o 12%.

Mae Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd cymeradwy cyfredol y Cyngor yn datgan mai'r strategaeth yw gwella cyflwr y cerbytffyrdd i gyrraedd y cyflwr targed o fewn y pum mlynedd nesaf. I wneud hyn, ceir Gofyniad Cyllido Blynyddol o £3.6m ar gyfer Gwaith wedi'i Gynllunio ac £1.3m ar gyfer Gwaith Rheolaidd ac Ymatebol.

12.10 **Gwastraff**

Bu i gyfraddau safonol y Dreth Tirlenwi, a gyflwynwyd yn 1996 ar gyfradd gychwynnol o £7 y dunnell, gynyddu'n fwy sylweddol o £24 y dunnell yn 2007 i £80 y dunnell yn 2017 a £96.70 y dunnell ym mis Ebrill 2021. Mae cyfraddau is y Dreth Tirlenwi wedi parhau i fod yn isel, sef £3.10 y dunnell ym mis Ebrill 2021. Mae Mesur Gwastraff (Cymru) yn pennu targedau statudol ar gyfer ailgylchu/paratoi i ailddefnyddio/compostio o 58% o leiaf o 2015/16, gan gynyddu i 64% o 2019/20 a 70% o 2024/25.

Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau i roi cosbau ariannol i awdurdodau sy'n methu â chyrraedd y targedau. Yn 2020/21, roedd 70.2% o wastraff Ceredigion yn cael ei ailgylchu, ei ailddefnyddio neu'i gompostio, cyfradd sy'n parhau i fod ymhlith yr uchaf yng Nghymru, ac yn sylweddol uwch na'r targed statudol. Yn y flwyddyn flaenorol, 2019/20, cyrhaeddodd cyfradd ailgylchu Ceredigion 72%, sef y canlyniad uchaf erioed.

12.11 **Troseddu**

Cyfradd y troseddau a gofnodir yng Ngheredigion yw'r isaf yng Nghymru, gyda'r gyfradd yn gyfwerth â hanner cyfartaledd Cymru. Mae seiberdroseddu'n parhau i fod yn risg wirioneddol i gyrff cyhoeddus ac, er bod rhywfaint o sicrwydd yswiriant ar gael, mae risgiau ariannol posibl ynghlwm wrth ddioddef ymosodiad seiber.

12.12 **Diwylliant**

Yn ôl canlyniadau cyfrifiad 2011, roedd 47.3% o'r boblogaeth tair oed a throsodd yng Ngheredigion yn siarad Cymraeg (o'i gymharu â 53% yn 2009). Hon oedd y ganran uchaf ond dwy o blith awdurdodau lleol Cymru.

O ran nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus, bu i 4,012 fesul 1,000 o boblogaeth Ceredigion ymweld â llyfrgell gyhoeddus yn 2019/20, gan roi'r sir yn y degfed safle o blith 22 awdurdod lleol Cymru.

Yn 2019/20, dywedodd 66% o oedolion Ceredigion eu bod wedi mynd i weithgareddau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth, neu gymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath, deirgwaith neu ragor y flwyddyn, sef gostyngiad o 9% ers 2017/18. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 71%.

12.13 **Economi twristiaeth ac ymwelwyr Ceredigion**

Yn yr un modd â'r rhan fwyaf o ardaloedd arfordirol, mae'r diwydiant twristiaeth yn chwarae rôl bwysig yn economi Ceredigion, gan gyfrif am 13% o'r swyddi. Hwn yw diwydiant mwyaf y sir, ac eithrio addysg. Amcangyfrifwyd bod diwydiant twristiaeth Ceredigion wedi cael effaith economaidd o £403m yn 2019, sef cynnydd o 6.2% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol a chynnydd o 50% dros y degawd diwethaf. Mae'r diwydiant yn cefnogi 5,854 o swyddi ledled y sir, sef cynnydd o 4.5% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

12.14 **Rhagolygon chwyddiant**

Mae Adroddiad Polisi Ariannol Banc Lloegr (Rhagfyr 2021) yn cynnwys y rhagamcanion a ganlyn ar gyfer chwyddiant:

*"Twelve-month CPI inflation rose from 3.1% in September to 5.1% in November…*

*… Bank staff expect inflation to remain around 5% through the majority of the winter period, and to peak at around 6% in April 2022, with that further increase accounted for predominantly by the lagged impact on utility bills of developments in wholesale gas prices. Indicators of cost and price pressures have remained at historically elevated levels recently, and contacts of the Bank's Agents expect further price increases next year driven in large part by pay and energy costs. CPI inflation is still expected to fall back in the second half of next year."*

– Adroddiad Polisi Ariannol, Rhagfyr 2021

12.15 Mae Cyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi llawer o ystadegau defnyddiol am Gymru bob blwyddyn. Mae gwybodaeth ar gael yn https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue lle ceir adroddiadau amrywiol, gan gynnwys am lefelau'r Dreth Gyngor. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi adroddiad am dueddiadau'r dyfodol sy'n nodi testunau eraill i'w darllen mewn perthynas â'r materion y cyfeirir atynt yn yr adran hon o ran Cymru gyfan. Mae'r adroddiad hwn ar gael yn:

https://llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2017

## 13 Darparu, cynllunio a datblygu gwasanaethau

13.1 Bob blwyddyn ar ôl iddo bennu ei gyllideb, mae’r Cyngor yn paratoi cynllun gwella sy’n cynnwys amcanion gwella. Ar gyfer pob amcan, rhestrir camau gweithredu manwl sy’n dangos sut y bydd y gwelliannau’n cael eu gwireddu. Darperir adnoddau ar gyfer pob un o’r amcanion gwella hyn yn y gyllideb flynyddol, naill ai o ran capasiti staffio neu o ran dyrannu cyllidebau penodol.

13.2 Caiff yr atebolrwydd dros gyllidebau ei ddatganoli, gyda chymorth timau ariannol a neilltuir i brosiectau ac i bob maes gwasanaeth. Oherwydd bod ei darpariaeth yn seiliedig ar wasanaethau, mae’r swyddogaeth gyllid gorfforaethol mewn sefyllfa dda i sicrhau ei bod yn ymgysylltu â gweithgareddau i gynllunio gwasanaethau.

13.3 Tybir ei bod yn angenrheidiol gwella arferion caffael i ddileu gwastraff. Mae’r drefn gaffael mewn sefyllfa dda i wireddu arbedion yn y tymor canolig drwy fanteisio ar yr arbedion y gellir eu gwneud drwy gapasiti prynu mwy o faint fframweithiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

13.4 Mae’r gwaith o drawsnewid gwasanaethau wedi mynd rhagddo’n dda. Y cam mawr terfynol yw integreiddio Gofal Cymdeithasol a Dysgu Gydol Oes mewn tri gwasanaeth – y Porth Cymorth Cynnar, y Porth Gofal a’r Porth Cynnal. Y tri gwasanaeth hyn, ynghyd â’r Gwasanaeth Cyswllt â Chwsmeriaid, yw prif feysydd y Rhaglen Gydol Oes a Llesiant newydd. Ym mis Hydref 2021, bu i’r Cabinet gytuno ar Strategaeth newydd sy’n nodi sut y bydd y Cyngor:

- Yn rhoi’r Model Gydol Oes a Llesiant newydd ar waith
- Yn lleihau’r galw am ofal a chymorth a reolir ac yn targedu adnoddau at y rheini y mae eu hangen arnynt fwyaf
- Yn cynorthwyo ein gweithlu i ddatblygu dull newydd o gynorthwyo unigolion yng Ngheredigion
- Yn canolbwyntio ar wasanaethau ataliol sy’n helpu pobl i barhau i fod yn annibynnol neu i adennill yr annibyniaeth y mae arnynt ei heisiau ac y maent yn rhoi gwerth arni
- Yn darparu gwasanaethau yn unol â’r gyllideb
- Yn cydweithio â phartneriaid i ddarparu system iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol fwy cydgysylltiedig

Cafodd cyllideb y Cyngor ei haildrefnu’n sylweddol yn ystod 2020/21 drwy gyflwyno’r strwythur Pyrth newydd. Mae’r Strategaeth yn cwmpasu’r cyfnod o 2021 tan 2027 ac, wrth i’r rhaglen fynd rhagddi, bydd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn cael ei diweddaru i adlewyrchu unrhyw fuddsoddiad(au) ariannol sylweddol a’r canlyniadau ariannol disgwyliedig.

13.5 Mae’r Awdurdod yn ymgynghori â’i ddinasyddion drwy’r Panel Dinasyddion ynghylch y gwasanaethau a ddarperir ganddo. O wneud hyn, mae’r Cyngor yn cael gwybodaeth am sut i flaenoriaethu ac i ddarparu rhai o’i wasanaethau.

13.6 Cynllunio’r gweithlu

Cafodd Strategaeth Adnoddau Dynol a Chynllun Gweithlu a Hyfforddiant eu llunio a’u cymeradwyo gan y Cyngor, a byddant yn parhau i gael eu mireinio a’u diweddaru.

Mae’n anochel y bydd rhai swyddi’n cael eu colli o ganlyniad i’r sefyllfa ariannol anffafriol yn y tymor canolig. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae’r costau sy’n gysylltiedig â staffio wedi gostwng. Er enghraifft, cafodd cyfraddau’r lwfansau ceir a milltiroedd eu gostwng, gan helpu’r Awdurdod i ddiogelu swyddi yn hytrach na chwtogi’r gweithlu a’r gwasanaethau a ddarperir.

Mae rhai risgiau ariannol yn gysylltiedig â chost y gweithlu. Er enghraifft, mae’r pwysau sy’n deillio o gostau pensiynau’n debygol o barhau gan fod pobl yn byw’n hirach, ond bydd y rheoliadau newydd yn peri iddi fod yn ofynnol i gyflogeion gyfrannu mwy at eu pensiynau.

Rhoddwyd y Cytundeb Statws Sengl ar waith yn 2012/13, ac mae pob swydd wedi parhau i gael ei gwerthuso.

Mae gwasanaethau’n ystyried materion cynllunio’r gweithlu pan fyddant yn paratoi eu cynlluniau busnes, eu cynlluniau gweithredol a’u cyllidebau blynyddol, a phan fyddant yn ystyried ceisiadau gwirfoddol i ymddeol yn gynnar.

Bydd y drefn recriwtio’n parhau i gael ei rheoli’n ofalus i sicrhau cymaint o arbedion effeithlonrwydd â phosibl. Er enghraifft, bydd yr arfer o adolygu’r angen i lenwi pob swydd sy’n dod yn wag yn parhau.

## 14 Safonau gwasanaeth

14.1 Mae safonau gwasanaeth yn rhai gwasanaeth-benodol neu’n rhai gweithredol, ac mae angen i lawer o wasanaethau gydymffurfio â rheoliadau a chanllawiau statudol. Defnyddir nifer o ddangosyddion perfformiad i fesur gwasanaethau’r Cyngor, er enghraifft, Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a dangosyddion lleol. Mae’r rhain yn dangos pa mor dda y mae gwasanaethau’n cael eu darparu, ac mae targedau blynyddol yn cael eu pennu ar gyfer y safonau i’w bodloni, ac maent yn cael eu hadolygu’n rheolaidd. Mae’r rhain i gyd yn cael eu hariannu o fewn y gyllideb sylfaenol, a bydd unrhyw newidiadau gofynnol ac iddynt oblygiadau i’r gyllideb yn cael sylw yn ystod y broses o bennu’r gyllideb flynyddol.

14.2 Mae’r gyllideb sylfaenol flynyddol yn adlewyrchu safonau arferol gwasanaethau a thargedau gwella. Bydd angen nodi unrhyw newidiadau iddynt mewn datblygiadau gwasanaeth, neu newidiadau eraill, a bydd angen ymdrin â nhw yn ystod proses y gyllideb refeniw flynyddol, os nad yn benodol wrth arfarnu’r datblygiad o dan sylw o safbwynt ariannol. Bydd angen asesu a fydd safonau unrhyw wasanaeth yn newid yn sylweddol o ganlyniad i’r sefyllfa ariannol tymor canolig. Gallai gostyngiadau staffio effeithio ar safonau gwasanaethau ac mae hyn yn cael sylw drwy’r broses

bresennol o ail-lenwi swyddi, h.y. rhoddir ystyriaeth i ganlyniadau peidio â llenwi swydd.

14.3 Disgwylir i Gynghorwyr a chyflogeion y Cyngor ymgymryd â'u cyfrifoldebau a'u dyletswyddau gan roi sylw i sicrhau bod y safonau gwasanaeth perthnasol yn cael eu cynnal ar lefel weithredol a, lle bo angen, fod adroddiadau amdanynt yn cael eu cyflwyno drwy'r sianeli monitro ac adrodd priodol i gyfarfodydd y Cabinet a'r pwyllgorau craffu.

## 15 Effaith y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gydraddoldeb ac amrywiaeth

15.1 Fel cyflogwr mwyaf Ceredigion, mae arnom gyfrifoldeb i sicrhau bod ein hased fwyaf – y gweithlu – yn cynrychioli amrywiaeth y sir yn ddigonol. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein holl gyflogeion yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal a'u bod yn cael cyfleoedd cyfartal. Fel cyflogwr a darparwr gwasanaethau mawr, mae Ceredigion wedi ymrwymo i hybu cydraddoldeb ac i gydnabod amrywiaeth a rhoi gwerth arno.

15.2 O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae arnom ddyletswydd i adrodd am ein cynllun gweithredu cydraddoldeb. Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei lunio a'i gyflwyno i'n Cabinet, i'r Cyngor ac i'r paneli craffu. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar ein mewnrwyd a'n gwefan.

15.3 Disgwylir i Gynghorwyr a chyflogeion y Cyngor ymgymryd â'u cyfrifoldebau a'u dyletswyddau gan roi sylw dyledus i gyfleoedd cyfartal, ac felly bydd angen ystyried materion cydraddoldeb a allai ddeillio o broses y gyllideb.

15.4 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau cyfan gwbl ddwyieithog ac mae'n cefnogi ac yn annog defnydd o'r Gymraeg yn ei weithgareddau dyddiol er budd ei staff a'r cyhoedd.

## 16 CYNLLUN ARBEDION ARIANNOL

16.1 Nodir manylion y cynllun arbedion trawsnewidiol corfforaethol ar gyfer y tymor canolig isod:-

**ATODIAD 4**

| Cyf | Gwasanaeth | Swyddog Arweiniol | Enw'r ffrwd gwaith | Amcangyfrif o'r arbedion cyraeddadwy £'000 | Arbedion / incwm dangosol £'000 | Cyfanswm yr arbedion gwirioneddol a gafwyd hyd yma £'000 (ym mis Hydref 2021) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Yr Economi ac Adfywio | Russell | Rhesymoli swyddfeydd / adeiladau | 300 | - | - |
| 2 | Yr Economi ac Adfywio | Russell | Dymchwel safle Arriva | 18 | - | 17 |
| 3 | Yr Economi ac Adfywio | Russell | Strategaeth Fuddsoddi (gan gynnwys defnyddio gofod) | - | 500 | - |
| 4 | Priffyrdd ac Amgylcheddol | Rhodri | Adolygu parcio yn Aberystwyth | - | 250 | - |
| 5 | Priffyrdd ac Amgylcheddol | Rhodri | Golau stryd LED | 50 | - | - |
| 6 | Priffyrdd ac Amgylcheddol | Rhodri | Adolygu'r Gwasanaeth Priffyrdd | - | 175 | - |
| 7 | Priffyrdd ac Amgylcheddol | Rhodri | Rheoli gwastraff | - | 250 | - |
| 8 | Priffyrdd ac Amgylcheddol | Rhodri | Adolygu'r holl drefniadau prydlesu fflyd cerbydau | 100 | - | - |
| 9 | Pobl a Threfniadaeth | Geraint | Sicrhau'r defnydd mwyaf posibl ar dechnoleg o bell a lleihau costau Teithio a Chynhaliaeth i weithwyr | 200 | - | 200 |
| 10 | Gwasanaethau Democrataid | Lowri | Sicrhau'r defnydd mwyaf posibl ar dechnoleg o bell a lleihau costau Teithio a Chynhaliaeth i Aelodau | 10 | - | 10 |
| 11 | Pobl a Threfniadaeth | Geraint | Adolygu'r ychwanegiadau at dâl dod â swydd i ben a lwfansau gweithwyr | 10 | - | 5 |
| 12 | Ysgolion | Meinir | Adolygu gweithrediadau Arlwyo | 70 | - | - |
| 13 | Ysgolion | Meinir | System dalu di-arian ar gyfer y sector Cynradd ac Uwchradd | 100 | - | 75 |
| | | | | | | |
| | | | **ISGYFANSWM** | **858** | **1,175** | **307** |
| | | | | | | |
| | Corfforaethol | James | Trawsnewid Gofal Cymdeithasol | - | Up to £1,350 | - |
| | | | | | | |
| | | | **CYFANSWM** | **858** | **Up to £2,525** | **307** |

16.2 Disgrifiad cryno o bob Ffrwd Waith Drawsnewidiol, a'i sail resymegol

**Cyf. 1: Rhesymoli swyddfeydd / adeiladau**

- Adolygiad strategol llawn o'r adeiladau a'r safleoedd a ddefnyddir gan wasanaethau (gan gynnwys Felin-fach ac Awel Deg)
- Rhesymoli / cydleoli rhai canolfannau gwasanaethau ar y cyd
- Mynd ati i ddefnyddio swyddfeydd mewn ffordd fwy hyblyg / ystwyth / effeithlon
- Defnydd allanol o 'ofod busnes'

**Cyf. 2: Dymchwel safle Arriva**

Arbedion refeniw o ran trethi busnes drwy ddymchwel yr Hen Orsaf Bysiau a Candleworks. Hefyd, dylai fod cyfleoedd eraill ynghlwm wrth y safle yn y tymor canolig i'r tymor hir, tu hwnt i'r £18k cychwynnol

**Cyf. 3: Strategaeth Buddsoddi (gan gynnwys defnyddio gofod)**

- Gwneud y defnydd gorau o dir ac adeiladau segur
- Ehangu'r portffolio masnachol i geisio cynyddu incwm (trefi / harbyrau / diwydiant bwyd)
- Ystyried opsiynau yn y farchnad fasnachol, e.e. parciau siopa, safleoedd mewn mannau eraill
- Trefniadau rhentu / prydlesu i ddefnyddio gofod preswyl uwchben eiddo masnachol
- Datblygu safleoedd i gynyddu incwm
- Cangen gyflawni
- Cynyddu incwm drwy ddefnyddio gofod o amgylch y sir
- Buddsoddi mwy mewn eiddo i'w brydlesu o amgylch trefi a lleoliadau priodol eraill (fel y promenâd, ond mannau eraill)

• Chwarae mwy o ran mewn digwyddiadau a allai sbarduno incwm (marchnad y gaeaf, ac ati)

**Cyf. 4: Adolygu darpariaeth parcio Aberystwyth**
Potensial i ennill mwy o incwm

**Cyf. 5: Goleuadau stryd LED**
Cam pellach o'r buddsoddiad cyfalaf i leihau'r costau trydan a'r costau cynnal a chadw parhaus

**Cyf. 6: Adolygu'r Gwasanaeth Priffyrdd**
Adolygiad wedi'i gynllunio a fydd yn cynnwys Cynnal a Chadw Priffyrdd, y Gweithlu Mewnol ac Is-gontractwyr

**Cyf. 7: Rheoli Gwastraff**
Rhoi model gweithredu newydd ar waith

**Cyf. 8: Adolygu holl drefniadau prydlesu'r fflyd**
Mae hyn yn cynnwys adolygu holl ofynion y fflyd gerbydau i osod sail ar gyfer gofynion buddsoddi'r rhaglen gyfalaf yn y dyfodol (h.y. prynu cerbydau'n llwyr) pan fydd y prydlesi presennol yn dod i ben

**Cyf. 9: Gwneud y defnydd mwyaf posibl o dechnoleg o bell a lleihau costau teithio a chynhaliaeth cyflogeion**
Adolygu'r Polisi Teithio a Chynhaliaeth i sicrhau ei fod yn addas i'r diben, a chynyddu'r ymwybyddiaeth a'r defnydd o dechnolegau o bell

**Cyf. 10: Gwneud y defnydd mwyaf posibl o dechnoleg o bell a lleihau costau teithio a chynhaliaeth yr Aelodau**
Ffrwd waith arfaethedig debyg i'r un ar gyfer cyflogeion, ond ar gyfer yr Aelodau.

**Cyf. 11: Adolygu taliadau terfynu swyddi a lwfansau cyflogeion**
Gall hyn gynnwys (ymhlith pethau eraill) y lluosydd taliadau colli swydd, taliadau dewisol i athrawon o 55 oed, lwfansau ffôn, tanysgrifiadau proffesiynol, a lwfansau wrth gefn / galw allan.

**Cyf. 12: Adolygu gweithrediadau arlwyo**
Ystyried dichonoldeb rhesymoli'r gwaith o baratoi prydau a'i grynhoi mewn llai o leoliadau, fel ceginau paratoi, ac adolygu a rhesymoli'r ddarpariaeth o staff ffreutur

**Cyf. 13: Rhoi terfyn ar daliadau arian parod yn y sector cynradd ac uwchradd**
Rhoi terfyn ar daliadau arian parod mewn ysgolion, a thrwy hynny leihau'r costau staffio. Mae'r camau cychwynnol i roi'r system ar waith wedi'u cwblhau

**Trawsnewid Gofal Cymdeithasol**
Rhoi ar waith fodel gweithredu newydd Porth Ceredigion, y Porth Cymorth Cynnar a'r Porth Cynnal

**ATODIAD 4**

16.3 Cafodd chwyddiant cyffredinol gwasanaethau a phwysau costau, gan gynnwys newidiadau demograffig dros y tymor canolig (fel y nodir ym mharagraff 6.6 uchod), eu cyfrif, ac mae angen i'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol gynllunio cyn pob blwyddyn gyllidebol i gyflawni'r arbedion gofynnol. Mae angen i wasanaethau chwilio am gyfleoedd i arbed arian, a defnyddio'r broses flynyddol i ennill incwm ac adennill costau, ynghyd â chyfleoedd eraill, i ysgwyddo'r pwysau sy'n deillio o gostau uwch. Mae pwysau costau negyddol hefyd yn codi mewn maes gwasanaeth oherwydd newidiadau demograffig neu newidiadau strwythurol ffafriol eraill a/neu newidiadau i amgylchiadau. Ceir crynodeb isod:-

| | Pwysau costau ar wasanaethau | Pwysau costau ar wasanaethau | Pwysau costau ar wasanaethau | Pwysau costau ar wasanaethau |
|---|---|---|---|---|
| | 21/22 | 22/23 | 23/24 | 24/25 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Pwysau costau a bennwyd gan wasanaethau** | | | | |
| Gwasanaethau Democrataidd | 70 | 149 | 143 | 147 |
| Cyllid a Chaffael | 71 | 127 | 118 | 122 |
| Cyswllt â Chwsmeriaid | 83 | 305 | 144 | 148 |
| Cyfreithiol a Llywodraethu | 17 | 36 | 32 | 32 |
| Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd | 50 | 193 | 138 | 142 |
| Pobl a'r Sefydliad | 35 | 76 | 66 | 68 |
| Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol | 684 | 437 | 764 | 766 |
| Yr Economi ac Adfywio | 123 | 229 | 165 | 170 |
| Porth Cynnal | 2,511 | 4,737 | 2,758 | 2,732 |
| Porth Gofal | 1,139 | 1,687 | 1,283 | 1,279 |
| Porth Cymorth Cynnar | 165 | 631 | 254 | 259 |
| Ysgolion a Diwylliant | 1,308 | 2,259 | 2,200 | 2,200 |
| Y Grŵp Arweinyddiaeth | 7 | 1,598 | 1,800 | 1,200 |
| **Cyfanswm y pwysau costau ar wasanaethau** | **6,263** | **12,464** | **9,865** | **9,265** |
| | | | | |
| **Costau gweithredol eraill** | | | | |
| Ardoll Tân | -216 | 104 | 120 | 120 |
| Costau democrataidd | 6 | 70 | 15 | 15 |
| Cynllun Cymorth y Dreth Gyngor | 510 | 290 | 250 | 250 |
| Premiwm Ail Gartrefi'r Dreth Gyngor | 0 | 45 | 0 | 0 |
| Lleoliadau Tu Allan i'r Sir | 0 | 0 | 300 | 300 |
| Cyfrif Cyfalaf | 0 | 200 | 250 | 250 |
| **Cyfanswm y pwysau costau gweithredol eraill** | **300** | **709** | **935** | **935** |
| | | | | |
| **CYFANSWM Y PWYSAU COSTAU** | **6,563** | **13,173** | **10,800** | **10,200** |
| | | | | |
| **Arbedion gofynnol** | | | | |
| DYRANIAD ARIANNOL YCHWANEGOL | 3,503 | 11,775 | 4,000 | 3,500 |
| | | | | |
| **ARBEDION GOFYNNOL** | **3,060** | **1,398** | **6,800** | **6,700** |

Ymhlith y pwysau a nodwyd ar wasanaethau mae costau uwch sy'n deillio o ddyfarniadau cyflog a chwyddiant costau nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogau, ynghyd â phwysau sy'n deillio o golli incwm a cholli arian grant.

**ATODIAD 4**

16.4 Bydd y pwysau costau a nodir yn 16.3 yn cael ei ariannu drwy'r cynllun arbedion tair blynedd a ganlyn. Dangosir y ddwy senario yn y tabl isod.

| | Arbedion gofynnol 21/22 | Arbedion gofynnol 22/23 | Arbedion gofynnol 23/24 | Arbedion gofynnol 24/25 |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Targed arbedion gwasanaethau** | | | | |
| Gwasanaethau Democrataidd | 31 | 0 | 89 | 100 |
| Cyllid a Chaffael | 51 | 0 | 73 | 83 |
| Cyswllt â Chwsmeriaid | 57 | 0 | 89 | 101 |
| Cyfreithiol a Llywodraethu | 15 | 0 | 20 | 22 |
| Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd | 21 | 0 | 86 | 97 |
| Pobl a'r Sefydliad | 21 | 0 | 41 | 46 |
| Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol | 166 | 0 | 474 | 522 |
| Yr Economi ac Adfywio | 34 | 0 | 102 | 116 |
| Porth Cynnal | 216 | 0 | 1,710 | 1,863 |
| Porth Gofal | 104 | 0 | 795 | 873 |
| Porth Cymorth Cynnar | 34 | 0 | 157 | 177 |
| Ysgolion a Diwylliant | 493 | 0 | 1,364 | 1,500 |
| **Cyfanswm arbedion gwasanaethau** | **1,243** | **-** | **5,000** | **5,500** |
| | | | | |
| Y Grŵp Arweinyddiaeth | 1,817 | 1,398 | 1,800 | 1,200 |
| **Cyfanswm arbedion gofynnol y gwasanaethau** | **3,060** | **1,398** | **6,800** | **6,700** |

**ATODIAD 4**

Cymeradwywyd y Strategaeth wreiddiol gan y Cyngor ar 28 Chwefror 2013

Cymeradwywyd y Strategaeth ddiwygiedig gan y Cyngor ar 29 Ionawr 2014

Cymeradwywyd y Strategaeth ddiwygiedig gan y Cyngor ar 24 Chwefror 2016

Gwnaed diweddariadau sylweddol o fis Awst tan fis Hydref 2017

Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol, 6 Rhagfyr 2017

Gweithgor yr Aelodau ar y Gyllideb, 6 Rhagfyr 2017

Diwygiwyd y Strategaeth i adlewyrchu setliad 2018/19

Y Cabinet a'r Cyngor ar 13 Chwefror 2018

Diwygiwyd y Strategaeth i adlewyrchu setliad dros dro 2021/22

Y Cabinet ar 23 Chwefror 2021 a'r Cyngor ar 5 Mawrth 2021

Diwygiwyd y Strategaeth i adlewyrchu setliad dros dro 2022/23

Y Cabinet ar 1 Chwefror 2022 a'r Cyngor ar 3 Mawrth 2022

**Y Rhaglen Gyfalaf 3 Blynedd Arfaethedig ar gyfer 2022/23 - 2024/25**
**gan gynnwys diweddariad am raglen y flwyddyn bresennol sef 2021/22.**

| | Cyllideb ddiweddaraf 2021/22 | Cyllideb arfaethedig 2022/23 | Cyllideb ddangosol 2023/24 | Cyllideb ddangosol 2024/25 | Ffynhonnell Ariannu |
|---|---|---|---|---|---|
| | CYFANSWM | CYFANSWM | CYFANSWM | CYFANSWM | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | |
| **Ysgolion** | | | | | |
| Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif (Cam 1) | 37 | - | - | - | CSC |
| Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif (Band B) | 3,402 | 4,972 | 10,880 | - | CSC/Grant |
| Lleihau Maint Dosbarthiadau Babanod | 7 | 902 | - | - | Grant |
| Darpariaeth Gofal Plant | 2,029 | 787 | - | - | Grant |
| Ysgol Penglais - Uned Cefnogi Dysgu | - | 687 | | | CSC |
| Ysgolion - gwaith cyfalaf ychwanegol | 894 | 2,088 | - | - | Grant |
| System wresogi o dan y llawr - Ysgolion | 5 | 491 | 150 | 150 | CSC |
| Gwaith Brys mewn Ysgolion | 100 | 150 | 150 | 150 | CSC |
| Ennyn Chwilfrydedd (Amgueddfa Ceredigion) | 11 | - | - | - | CSC/Grant |
| **Cyfanswm - Ysgolion** | 6,485 | 10,077 | 11,180 | 300 | |
| **Porth Cymorth Cynnar** | | | | | |
| Hwb Cymunedol - Llanbedr Pont Steffan | 25 | 657 | - | - | Grant |
| Grant Cyfalaf Dechrau'n Deg | 316 | - | - | - | Grant |
| Campws y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghwrtnewydd | 167 | - | - | - | CSC |
| Uwchraddio pyllau nofio a neuaddau chwaraeon y Canolfannau Hamdden | 274 | - | - | - | CSC |
| **Cyfanswm - Porth Cymorth Cynnar** | 782 | 657 | - | - | |

| | Cyllideb ddiweddaraf 2021/22 | Cyllideb arfaethedig 2022/23 | Cyllideb ddangosol 2023/24 | Cyllideb ddangosol 2024/25 | Ffynhonnell Ariannu |
|---|---|---|---|---|---|
| | CYFANSWM | CYFANSWM | CYFANSWM | CYFANSWM | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | |
| **Yr Economi ac Adfywio** | | | | | |
| Canolfan Dulais - Arian Datblygu TRIP | **228** | **-** | **-** | **-** | **Grant** |
| Llwybr Troed Cyhoeddus Safle Bywyd Gwyllt Cenarth | **4** | **-** | **-** | **-** | **CSC/Grant** |
| Gwaith Trin Carthion | **316** | **500** | **-** | **-** | **CSC** |
| Gwaith Brys Arall | **100** | **100** | **100** | **100** | **CSC** |
| Adeiladau - Buddsoddi i Arbed | **152** | **175** | **175** | **175** | **CSC** |
| Eiddo Anweithredol - Datblygiad Buddsoddi i Arbed | **72** | **-** | **-** | **-** | **CSC** |
| Rhaglen Datblygu Asedau | **379** | **-** | **-** | **-** | **Grant** |
| Neuadd y Farchnad Aberteifi | **164** | **200** | **-** | **-** | **CSC** |
| Rhaglen Adnewyddu Pomprennau | **50** | **50** | **50** | **-** | **CSC** |
| Gwelliannau i Seilwaith Gwyrdd Canol Tref Llanbedr Pont Steffan | **209** | **-** | **-** | **-** | **Grant** |
| Grant Gwella Mynediad | **103** | **-** | **-** | **-** | **Grant** |
| Grant Adferiad Gwyrdd | **66** | **-** | **-** | **-** | **Grant** |
| Arian Cyfalaf Lleoedd Lleol ar gyfer Natur | **115** | **-** | **-** | **-** | **Grant** |
| Prosiectau Codi'r Gwastad | **508** | **4,137** | **4,101** | **2,106** | **Grant** |
| Datblygiad Tai Hafan y Waun | **-** | **500** | **500** | **-** | **CSC** |
| **Cyfanswm - Yr Economi ac Adfywio** | **2,466** | **5,662** | **4,926** | **2,381** | |

## Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol

| | Cyllideb ddiweddaraf 2021/22 CYFANSWM £'000 | Cyllideb arfaethedig 2022/23 CYFANSWM £'000 | Cyllideb ddangosol 2023/24 CYFANSWM £'000 | Cyllideb ddangosol 2024/25 CYFANSWM £'000 | Ffynhonnell Ariannu |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffyrdd | 264 | 200 | 200 | 200 | CSC |
| Pontydd | 14 | 350 | 150 | 150 | CSC |
| Gwasanaethau Amgylcheddol | 92 | 60 | 60 | 60 | CSC |
| Cyffredinol | 919 | 700 | 700 | 700 | CSC |
| Adnewyddu Priffyrdd Cyhoeddus | 775 | - | - | - | Grant |
| Y Rhaglen Goleuadau Stryd | 380 | - | - | - | CSC |
| Adfer y difrod a achoswyd gan Storm Callum | 12 | - | - | - | Grant |
| Cronfa Drafnidiaeth Leol - Coridor Strategol Bws TrawsCymru | 842 | - | - | - | Grant |
| Grant Ffyrdd Cydnerth - Modelu Llifogydd | 20 | - | - | - | Grant |
| Trawsnewid - cerbydau allyriadau isel iawn | 420 | - | - | - | Grant |
| Grant Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan (CLILC) | - | 300 | - | - | Grant |
| Cronfa Teithio Llesol - Arian Craidd | 325 | - | - | - | Grant |
| Cronfa Teithio Llesol - Pecyn Tref Aberteifi - Gwella Troedffyrdd | 206 | - | - | - | CSC/Grant |
| Cronfa Teithio Llesol - Pecyn Tref Aberystwyth - Gwella Troedffyrdd | 192 | - | - | - | Grant |
| Cronfa Teithio Llesol - Llwybr Cyswllt Prifysgol Llambed | 148 | - | - | - | Grant |
| Gwaith ar raddfa fach - Grant Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu | 215 | - | - | - | Grant |
| Diogelwch Ffyrdd - Cynllun peilot ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu - Bryn Hafod, Aberteifi. | 100 | - | - | - | CSC/Grant |
| Cynlluniau Lliniaru Llifogydd Dyfrffos Llandre / Y Borth | 70 | - | - | - | Grant |
| Manylion Dylunio Gwaith Diogelu'r Arfordir yn Aberaeron | 325 | - | - | - | Grant |
| Diogelu'r Arfordir yn Aberystwyth | 120 | 140 | - | - | Grant |
| Diogelu'r Arfordir yn Llangrannog | 37 | - | - | - | Grant |
| Diogelu'r Arfordir yn y Borth ac Ynyslas | 32 | - | - | - | Grant |
| Cynlluniau Diogelu'r Arfordir yn Aberaeron ac Aberystwyth | - | 13,000 | 7,000 | 3,000 | CSC/Grant |
| Cerbydau Newydd Ychwanegol (Gorfodi Parcio Sifil) | 35 | - | - | - | CSC |
| Gwastraff Cynnyrch Hylendid Amsugnol | 24 | - | - | - | Grant |
| Cerbydau Newydd i'r Fflyd | 344 | 620 | 350 | 350 | CSC |
| Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff | - | 525 | 500 | - | CSC |
| **Cyfanswm - Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol** | **5,911** | **15,895** | **8,960** | **4,460** | |

| | Cyllideb ddiweddaraf 2021/22 | Cyllideb arfaethedig 2022/23 | Cyllideb ddangosol 2023/24 | Cyllideb ddangosol 2024/25 | Ffynhonnell Ariannu |
|---|---|---|---|---|---|
| | CYFANSWM | CYFANSWM | CYFANSWM | CYFANSWM | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | |
| **Porth Gofal** | | | | | |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | **1,500** | **1,400** | **1,400** | **1,400** | **CSC** |
| Cynlluniau Benthyciadau Gwella Cartrefi a Benthyciadau Troi Tai'n Gartrefi | **172** | **-** | **-** | **-** | **CSC** |
| Cylch Caron | **-** | **252** | **-** | **-** | **CSC/Grant** |
| Grant Hwyluso i Fyw'n Annibynnol | **122** | **146** | **146** | **-** | **Grant** |
| Grant Bwyleri Newydd Cartrefi Clyd | **15** | **-** | **-** | **-** | **Grant** |
| Grantiau Mesurau Ynni Cartrefi Clyd | **500** | **323** | **-** | **-** | **Grant** |
| Camu Mlaen - Canolfan Steffan | **207** | **-** | **-** | **-** | **CSC** |
| Gwaith Brys - Cartrefi Preswyl | **132** | **100** | **100** | **100** | **CSC** |
| Canolfannau Dydd - Gwelliannau i Ddiogelu'r Cyhoedd a Gwelliannau Amgylcheddol | **20** | **150** | **-** | **-** | **CSC** |
| Uwchraddio Cartrefi Preswyl | **350** | **750** | **400** | **-** | **CSC** |
| Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol - Llety â Chymorth | **343** | **-** | **-** | **-** | **Grant** |
| Y Gronfa Gofal Canolraddol - Prosiect Dementia Hafan | **296** | **-** | **-** | **-** | **CSC/Grant** |
| Y Gronfa Gofal Canolraddol | **524** | **-** | **-** | **-** | **Grant** |
| Y Gronfa Gofal Canolraddol - Diogel, Cynnes a Saff a Gofal a Thrwsio | **159** | **-** | **-** | **-** | **Grant** |
| **Cyfanswm - Porth Ceredigion** | **4,340** | **3,121** | **2,046** | **1,500** | |

| | Cyllideb ddiweddaraf 2021/22 CYFANSWM £'000 | Cyllideb arfaethedig 2022/23 CYFANSWM £'000 | Cyllideb ddangosol 2023/24 CYFANSWM £'000 | Cyllideb ddangosol 2024/25 CYFANSWM £'000 | Ffynhonnell Ariannu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyswllt Cwsmeriaid** | | | | | |
| Caledwedd TGCh | 197 | 100 | 100 | 100 | CSC |
| Ffonau Symudol Clyfar | 133 | 50 | - | - | CSC |
| **Cyfanswm - Cyswllt Cwsmeriaid** | 330 | 150 | 100 | 100 | |
| **Cyllid a Chaffael** | | | | | |
| Cynllun Grantiau Cymunedol | 180 | 200 | 200 | 200 | CSC |
| **Cyfanswm - Cyllid a Chaffael** | 180 | 200 | 200 | 200 | |
| **Gwasanaethau Democrataidd** | | | | | |
| Uwchraddio Cyfarpar Siambr y Cyngor - Cam 2 | 150 | - | - | - | CSC/Grant |
| **Cyfanswm - Gwasanaethau Democrataidd** | 150 | - | - | - | |
| **COVID-19** | | | | | |
| Ysbytai Maes COVID-19 | 174 | - | - | - | Grant |
| Cyllid i'w ddyrannu | - | - | 950 | 1,400 | |
| **CYFANSWM Y RHAGLEN WAITH** | 20,818 | 35,762 | 28,362 | 10,341 | |

| | Cyllideb ddiweddaraf 2021/22 | Cyllideb arfaethedig 2022/23 | Cyllideb ddangosol 2023/24 | Cyllideb ddangosol 2024/25 | Ffynhonnell Ariannu |
|---|---|---|---|---|---|
| | CYFANSWM | CYFANSWM | CYFANSWM | CYFANSWM | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | |
| Arian wrth gefn | 150 | 170 | 350 | 350 | |
| Ail-lunio'r proffil | 109 | 150 | - | - | |
| Derbyniadau Cyfalaf Tai - ail-lunio'r proffil | 405 | - | - | - | |
| Grantiau newydd a gymeradwywyd / Arian cyfatebol ar gyfer cynlluniau grant | 1,179 | 4,200 | 4,200 | 4,200 | |
| **Cyfanswm - Arian wrth gefn** | 1,843 | 4,520 | 4,550 | 4,550 | |
| **CYFANSWM Y RHAGLEN GYFFREDINOL** | 22,661 | 40,282 | 32,912 | 14,891 | |

**ATODIAD 6**

# CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

## STRATEGAETH GYFALAF

1. Bydd y Cyngor yn ffurfio Rhaglen Gyfalaf dros o leiaf cyfnod dreigl o 3 blynedd gyda'r nod o weithio tuag at gynllunio ariannol tymor hir lle bynnag y bo hynny'n bosib.

2. Bydd yn ofynnol i holl wariant cyfalaf a gynlluniwyd, ceisiadau cyfalaf a buddsoddiad arfaethedig gan y Cyngor mewn asedau cyfredol neu newydd, boed hynny drwy arian grant neu fel arall gefnogi amcanion y Gwasanaeth ac Amcanion Corfforaethol y Cyngor. Dylai Cynllunio Rheoli Asedau fod o gymorth wrth osod gwariant y rhaglen gyfalaf a gwariant hanfodol ar asedau cyfredol y Cyngor.

3. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn cynnal Grŵp Rheoli Prosiectau Corfforaethol (sy'n darparu cefnogaeth, cyngor a chyfarwyddyd priodol i brosiectau), Grŵp Monitro Cyfalaf (sy'n darparu rheolaeth weithredol ar gyfer gwariant Cyfalaf o fewn y flwyddyn ac edrych ar y sefyllfa ariannu) a Grŵp Datblygu (sy'n darparu mewnbwn strategol ehangach ar argymhellion a chyfleoedd datblygu Cyfalaf). Bydd gan y 3 Grŵp rôl allweddol ond mae gan bob un ohonynt eu Cylch Gorchwyl penodol eu hunain.

4. Bydd Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor yn nodi sut y bwriedir ymdrin â gweithgareddau sy'n ymwneud â'r Trysorlys megis Buddsoddiadau a Benthyciadau gan hefyd alinio'n llawn a rhoi cyfrif am argymhellion y Rhaglen Gyfalaf. Bydd hefyd yn cynnwys manylion ar y lefelau benthyca arfaethedig (yn fewnol ac yn allanol) sy'n gyson â'r cynlluniau yma a'r angen i fod yn ddarbodus. Bydd y Strategaeth Rheoli Trysorlys hefyd yn cynnwys Polisi Isafswm Refeniw y Cyngor ar gyfer darparu ad-daliad o'r ddyled dros ei oes.

5. Rheolir y Rhaglen Gyfalaf a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys gan gyfrifwyr sydd â chymhwyster proffesiynol ac sy'n gorfod cyflawni Datblygiad Proffesiynol Gorfodol.

6. Bydd yr egwyddorion ar gynllunio Cyfalaf cyfredol ac i'r dyfodol yn cynnwys:
   - Sicrhau effeithlonrwydd drwy wneud y defnydd gorau o asedau cyfredol sy'n cynnwys tir ac adeiladau a thechnoleg gwybodaeth. E.e. Dylid rhesymoli adeiladau gwag / na ddefnyddir yn ddigonol, lleihau costau refeniw a hefyd cynhyrchu derbynion cyfalaf posib.
   - Bydd angen i holl brosiectau cyfalaf (a ariannwyd gan grant neu fel arall) feddu ar strategaeth ariannol fel rhan o'r achos busnes a ddatblygir.
   - Bydd y rhaglen gyfalaf fel arfer wedi ei nodi fel na fydd unrhyw fenthyciadau darbodus i ariannu craidd y rhaglen gyfalaf oni bai mewn achosion lle ariennir prosiectau Cyfalaf penodol. Bydd angen achos busnes i gefnogi defnydd Benthyciadau Darbodus e.e. Rhoddir ystyriaeth i ddefnyddio benthyciad darbodus pan fydd yn bosib clustnodi arbedion refeniw a ddefnyddir i ariannu costau ariannol cyfalaf y buddsoddiad cyfalaf cychwynnol.
   - Byddwn yn parhau i ystyried cynlluniau buddsoddi i arbed sy'n sicrhau arbedion refeniw yn dilyn buddsoddiad cyfalaf cychwynnol fel blaenoriaeth uchel am eu bod yn medru darparu cyfraniad positif i sefyllfa gyllidebol refeniw yn y tymor canolig (e.e. mesurau Effeithlonrwydd Ynni). Bydd hyn hefyd yn medru cynnwys

cynlluniau sy'n fuddsoddiad cyfalaf er mwyn osgoi cynnydd mewn costau yn y dyfodol.

- Clustnodi, ysgogi a gwneud y gorau o gyfleodd grantiau allanol lle y bo hynny'n bosib, er ar ei ben ei hun mae'n bosib nad yw hyn bob amser y prif beth sy'n gyrru prosiectau cyfalaf.
- Dylid ystyried strategaethau ymadael fel rhan unrhyw gais am arian grant a grantiau y llwyddwyd eu denu.
- Caiff cyfalaf corfforaethol neilltuedig wrth gefn ei gynnal drwy ddarparu arian am un tro yn unig i gefnogi'r rhaglen Gyfalaf. Mewn achosion lle gellir cyflawni arbedion refeniw cyn gofynion y gyllideb flynyddol mae'n bosib y cânt eu dynodi i arian wrth gefn neilltuedig er mwyn cefnogi blaenoriaethau Cyfalaf yn y dyfodol. Yn benodol caiff cyfraniad ariannol punt am bunt y Cyngor ar gyfer Banc B Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif eu cefnogi'n bennaf drwy osod arian i'r neilltu yn y gronfa neilltuedig ar Ddatblygu Addysg.
- Ystyrir derbyniadau cyfalaf yn gyfraniad positif i'r rhaglen gyfalaf gyffredinol a chânt eu dyrannu yn unol â'r balans sydd ar gael ar ddechrau'r flwyddyn. Caiff rhestr o'r asedau arfaethedig y bwriedir eu gwaredu ei chynnal a'i monitro'n rheolaidd. Pan fydd angen ystyrir yn briodol unrhyw achos lle bydd asedau mawr yn cael eu gwaredu.
- Os bydd Llywodraeth Cymru yn darparu Cyfeiriad o ran Cyfalafu caiff ei ddefnyddio os bydd yn briodol.
- Bydd y Cyngor yn parhau i feddu ar Eiddo Buddsoddi fel rhan o'i Stad Gorfforaethol. Mae hwn yn weithgaredd masnachol wrth i'r Cyngor geisio roi eiddo ar brydles ar bris y farchnad a thrwy hynny derbyn adennillion masnachol o'r eiddo. Ar hyn o bryd mae gweithgareddau masnachol y Cyngor yn risg isel am nad yw'n elfen sylweddol yng nghyd-destun sefyllfa ariannol a chyllideb cyffredinol y Cyngor. Petai unrhyw gyfleoedd newydd yn dod ar gael bydd angen llunio achos busnes fydd yn cynnwys diwydrwydd dyladwy ariannol a chyfreithiol gan gynnwys sicrhau y cydymffurfir â gofynion y Cod Materion Ariannol (Rhagfyr 2021) sy'n gwhardd benthyca mewn sefyllfaoedd lle bo sicrhau dychweliadau ariannol yn brif nod, a bod defnyddio cyngor mewnol / allanol arbenigol lle y bo'n briodol yn ogystal â dilyn y trefniadau llywodraethu priodol.

7. Bydd y Cyngor yn ffocysu ar y meysydd blaenoriaeth allweddol canlynol yn ei Raglen Gyfalaf:

   a) Gwaith cynnal a chadw hanfodol ar Adeiladau, Pontydd a Ffyrdd.

**ATODIAD 6**

b) Hybu'r Economi
   - Gweithio gyda'r sector preifat a chyhoeddus ar draws y rhanbarth drwy Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru, Bargen Twf Canolbarth Cymru a'r Gronfa Codi'r Gwastad, er mwyn hybu'r economi lleol a rhanbarthol.
   - Gweithredu Strategaeth Economaidd Ceredigion.

c) Buddsoddi yn nyfodol y bobl
   - Parhau i foderneiddio ysgolion drwy Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.
   - Rheoli Carbon – Ceisio lleihau ymhellach gollyngiadau carbon a gostwng costau ynni gymaint â phosib er mwyn mynd i'r afael â chynnydd yn y dyfodol drwy alluogi mesurau effeithlonrwydd ynni yn asedau'r Cyngor yn ogystal â'r stoc preifat a stoc Tai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.
   - Cynlluniau rhannu ecwiti tai.

d) Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd
   - Darparu arian ar gyfer grantiau Cyfleusterau i'r Anabl mandadol a dewisol.
   - Adolygu a datblygu cynlluniau llety preswyl arbenigol naill ai gan y Cyngor neu ar y cyd â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a phartneriaid eraill
   - Cylch Caron – prosiect Bwrdd Gwasanaethau Lleol Ceredigion i ddarparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn ardal Tregaron

e) Cydnerthedd Amgylchedd a Chymunedol
   - Datblygu cynlluniau amddiffyn yr arfordir i gynnwys Aberystwyth ac Aberaeron.
   - Gwaith Trin Carthffosiaeth – dod i ben â'r gwaith uwchraddio a'r gwaith o drosglwyddo a mabwysiadu'r cyfleusterau i Ddŵr Cymru.

f) Cerbydau newydd – Adolygu fflyd ehangach yr awdurdod ar draws holl wasanaethau a sut y gellir ariannu orau'r gofynion i'r dyfodol.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

## Cyngor Sir CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu |
| **DYDDIAD:** | 10-02-2022 |
| **LLEOLIAD:** | Cyfarfod rhithiol |
| **TEITL:** | CONTEST – Strategaeth Gwrthderfysgaeth Llywodraeth y DU |
| **DIBEN YR ADRODDIAD:** | Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Craffu ynghylch y trefniadau sydd ar waith i gyflawni strategaeth CONTEST yng Ngheredigion, ledled y rhanbarth ac yn genedlaethol |
| **PAM MAE CRAFFU WEDI GOFYN AM YR WYBODAETH:** | Gan mai hwn yw'r Pwyllgor Craffu sydd wedi ei ddynodi i fod â throsolwg o'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'i his-grwpiau |

**Y CEFNDIR:**

Mae Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 yn mynnu bod pob awdurdod rhagnodedig yn rhoi "sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth". Nodir y canlynol yn awdurdodau rhagnodedig: Awdurdodau Lleol; yr Heddlu; Carchardai; Sefydliadau Troseddwyr Ifanc; y Gwasanaethau Prawf; Ysgolion; Colegau; Prifysgolion ac Iechyd.

Mae CONTEST – Strategaeth Gwrthderfysgaeth Llywodraeth y DU (Mehefin 2018) yn atgyfnerthu'r fframwaith strategol sydd wedi hen ennill ei blwyf ac a ddefnyddir wrth gyflawni'r strategaeth, sef y pedwar llinyn (sef y pedair 'P' yn Saesneg):

**Atal (Prevent)** – atal pobl rhag troi'n derfysgwyr neu rhag cefnogi terfysgaeth
**Amddiffyn (Protect)** – cryfhau'r amddiffyniad rhag ymosodiad terfysgol
**Ymlid (Pursue)** – atal ymosodiadau terfysgol
**Paratoi (Prepare)** – lliniaru effaith ymosodiad terfysgol.

Mae swyddogion o'r Gwasanaeth Partneriaethau a Pherfformiad yn hwyluso ac yn cadeirio Bwrdd CONTEST Ceredigion sy'n cyfarfod bob chwarter ac sy'n is-grŵp i Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion. Mae'r Bwrdd yn arwain ar thema 2 Cynllun Cyflawni Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion ac yn cydweithio er mwyn ymateb i agenda genedlaethol CONTEST, gyda phwyslais penodol ar gyflawni yr hyn mae Atal yn ei fynnu, sef atal pobl rhag troi'n derfysgwyr neu eu hatal rhag cefnogi terfysgaeth.

Mae Atodiad 1 yn darparu gwybodaeth bellach ynglŷn â CONTEST a'r trefniadau sydd ar waith yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, er mwyn sicrhau cynllunio ac ymateb cydlynus i'r agenda hon.

| | | |
|---|---|---|
| | **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig (AEI)? Os naddo, nodwch pam** | Ni chwblhawyd AEI gan nad yw'r adroddiad yn newid i bolisi na gwasanaeth. |
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | ***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:**<br>**Integreiddio:**<br>**Cydweithio:**<br>**Cynnwys:**<br>**Atal:** | |

**ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:**
Derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau sydd ar waith i gyflawni strategaeth CONTEST yng Ngheredigion, ar draws y rhanbarth ac yn genedlaethol.

**Y RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:**
Er mwyn i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y trefniadau presennol i gyflawni CONTEST, a bod yn ymwybodol o gyfraniad staff y Cyngor yn y gwaith pwysig hwn.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Alun Williams |
| **Swydd:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 20-01-2022 |
| **Acronymau:** | CONTEST – Strategaeth Gwrthderfysgaeth Llywodraeth y DU |

Atodiad 1

# CONTEST – Trosolwg Atal ac Amddiffyn

## Cyflwyniad

Strategaeth Gwrthderfysgaeth Llywodraeth y DU yw CONTEST. Ei hamcanion yw lleihau'r perygl o derfysgaeth fel bod pobl yn gallu byw eu bywydau yn rhydd ac yn hyderus – mae'n cynnwys 4 llinyn thematig (yn Saesneg fe'u gelwir fel arfer yn bedair 'P'):-

**Atal (Prevent) –** atal pobl rhag troi'n derfysgwyr neu rhag cefnogi terfysgaeth (cymryd mantais ar bobl fregus)

**Amddiffyn (Protect) –** cryfhau ein hamddiffyniad rhag ymosodiad terfysgol

**Paratoi (Prepare) –** lliniaru effaith ymosodiad terfysgol


**Ymlid (Pursue) –** atal ymosodiadau terfysgol.

Er nad yw polisi Gwrthderfysgaeth yn fater datganoledig, eto i gyd mae hynny'n wir i raddau mae'r strategaeth gyflawni. Yng Nghymru, drwy **Fframwaith Contest Cymru**, a ddiwygiwyd yn ddiweddar, rydym yn gweithio mewn cydweithrediad â'n hasiantaethau partner i ymateb i'r bygythiad mewn modd sy'n ceisio diogelu ein cymuned a gwarchod bywyd.

## Fframwaith CONTEST Cymru

Lansiwyd strwythur llywodraethu newydd ar gyfer CONTEST Cymru ddiwedd 2020. Roedd Llywodraeth Cymru am sicrhau cysondeb ac atebolrwydd wrth gyflawni Gwrthderfysgaeth yng Nghymru.

Mae'r fframwaith newydd yn cael ei reoli ochr yn ochr â Fforymau Lleol Cymru Gydnerth sydd wedi hen ennill eu plwyf, er mwyn adlewyrchu'r amrywiol rolau a chyfrifoldebau.




Ffig1.

Gosodir yr amcanion gan fyrddau CONTEST lleol, sy'n cyfarfod bob tri mis. Maent yn gweithio yn ôl cynlluniau cyflawni safonol gyda chanlyniadau cyffredin. Mae'r byrddau'n cynnwys partneriaid lleol ac maent yn derbyn diweddariadau cudd-wybodaeth Proffil Lleol Gwrthderfysgaeth gan Wrthderfysgaeth Cymru, sy'n cynorthwyo yn y broses o lunio gweithgaredd lleol a rhoi gwybodaeth yn ei gylch. Mae Bwrdd CONTEST Ceredigion yn cael ei hwyluso a'i gadeirio gan swyddogion y tîm Partneriaethau a Pherfformiad.

Rhoddir gwybod am gynnydd i'r Byrddau CONTEST rhanbarthol ac yn y pen draw i Lywodraeth Cymru drwy gyfrwng y Byrddau Cenedlaethau Strategol (gweler ffigwr 1).

Elfen bwysig o adolygiad CONTEST Cymru oedd gosod y cyfrifoldebau am Argyfyngau Sifil posibl, Fforymau Lleol Cymru Gydnerth a'r cyfrifoldeb o gyflawni CONTEST dan un portffolio Diogelwch Cenedlaethol newydd o fewn Llywodraeth Cymru. Mae'r ymagwedd hon yn elwa ar gydweithio ac yn diogelu rhag unrhyw ddyblygu.

## Elfennau Cyflawni CONTEST – Y 4 llinyn

### Atal (*dyletswydd**)

***RYDYM YN CANOLBWYNTIO AR ATAL POBL RHAG CAEL EU DENU AT EITHAFIAETH***

Mae gan strategaeth Atal dri amcan:-

- Herio'r ideoleg sy'n cefnogi terfysgaeth a'r sawl sy'n ei hybu
- Diogelu pobl fregus
- Cefnogi sectorau a sefydliadau lle mae radicaleiddio'n berygl

**Mae Adran 26 o Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 yn gosod **dyletswydd** ar rai cyrff ("awdurdodau rhagnodedig") i "roi sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth", wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau.*

Ymestynnwyd cyfrifoldeb Atal 'Prevent' yn 2011 i gynnwys ymdrin â phob math o derfysgaeth ac eithafiaeth di-drais. Mae terfysgwyr sy'n gysylltiedig â'r adain dde eithafol hefyd yn bygwth ein diogelwch a'n sicrwydd yn barhaus ac mae hyn yn arbennig o berthnasol yn lleol.

Mae Adran 36 o Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 yn amlinellu'r ddyletswydd sydd ar awdurdodau lleol a phartneriaid paneli lleol i roi cefnogaeth i bobl sy'n agored i gael eu denu at derfysgaeth. Yn Lloegr a Chymru, bodlonir y ddyletswydd hon drwy baneli 'Channel', gweler tudalennau 4 a 5 am fwy o fanylion.

### Amddiffyn (*dyletswydd*)

***BYDDWN YN DIOGELU EIN POBL A'N LLEOEDD RHAG YMOSODIAD TERFYSGOL***

Yr haf diwethaf, lansiodd y Swyddfa Gartref ymgynghoriad cyhoeddus ar **Ddyletswydd Amddiffyn*** newydd arfaethedig, gan gyflawni ymrwymiad maniffesto i wella diogelwch a sicrwydd lleoedd a mannau cyhoeddus. Y bwriad oedd myfyrio ar wersi yn dilyn ymosodiadau terfysgol 2017 yn ogystal ag ymosodiadau mwy diweddar.




Cydlynwyd ymateb Ceredigion i'r ymgynghoriad gan swyddogion Argyfyngau Sifil posibl, yn dilyn ymgyngoriadau â'r Grŵp Arweiniol ac Aelodau Etholedig. Yn ogystal, cyfrannwyd ein pryderon a'n sylwadau at ymateb rhanbarthol.

Arweiniodd yr Ymgynghoriad at ymatebion niferus, ymhlith yr uchaf erioed, dros 2700, i ymgynghoriad gan y Swyddfa Gartref, rhyddhawyd y canlyniadau ddydd Llun 10 Ionawr 2022. (Gweler Protect Duty - GOV.UK (www.gov.uk)

I fynd yn syth at y dogfennau Cymraeg (Dyletswydd Diogelu), dilyner y dolenni isod:-

https://www.gov.uk/government/consultations/protect-duty/outcome/government-response-document-welsh

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1045279/21-029193-01_Home_Office_Protect_Duty_Consultation_External_Report-Final__1_.pdf

O'r Ymgynghoriad ymddengys fod cefnogaeth eang i gyflwyno cyfrifoldebau amddiffynnol ychwanegol ac i ymagwedd ddeddfwriaethol, fodd bynnag mae pryderon ynghylch adnoddau a hyfforddiant.

Er nad oes manylion wedi'u cyhoeddi eto, yn realistig gallai deddfwriaeth gymryd blwyddyn arall i ymddangos, rhannwyd llawer o gynigion drafft y Swyddfa Gartref cyn creu adroddiad ar yr Ymgynghoriad.

- Bydd y Ddyletswydd yn ceisio defnyddio deddfwriaeth bresennol yn fwy effeithiol i gyflawni ei chanlyniadau diogelwch o ran meysydd chwaraeon, stadiymau cyngherddau, lleoliadau cynadleddau a lleoliadau sy'n agored i'r cyhoedd ayb. Mae posibilrwydd y gallai hyn ddod â sectorau eraill dan y Ddyletswydd, er enghraifft, gweithredwyr bysiau a bysiau moethus, porthladdoedd masnachol a llongau sydd wedi eu cofrestru yn y DU.
- Fel rhan o'r Ddyletswydd, efallai y bydd gofynion gorfodi a allai gynnwys asesiadau risg diogelwch rheolaidd a chynlluniau parodrwydd cam wrth gam.
- Mae'r Ddyletswydd yn rhagweld rhaglen arolygiadau llai manwl a ddilynir gan fodelu gorfodaeth gymesur sy'n cynnwys sancsiynau sifil.

Mae'n amlwg y gall Awdurdodau Lleol ddisgwyl yn hyderus y bydd y gofynion arnynt yn cynyddu.

## Paratoi

***BYDDWN YN PARATOI EIN HYMATEB I YMOSODIADAU AC YN LLEIHAU EU HEFFAITH***

Mae rhai pethau sy’n amlwg yn debyg i waith a gyflawnwyd eisoes ar yr ochr gydnerthedd. Dyna sy’n cyfrif am y perthnasau gwaith agos a’r cydweithio clòs rhwng Fforymau Lleol Cymru Gydnerth a Byrddau CONTEST, er mwyn osgoi dyblygu.

## Ymlid

***BYDDWN YN MYND AR ÔL TERFYSGWYR AC YN GWEITHIO ER MWYN EU DWYN I GYFIAWNDER***

***(HEDDLU Diogelwch Cendlaethol)***


Mae’r llinyn hwn yn cael ei gyflawni’n bennaf gan rwydwaith Gwrthderfysgaeth yr Heddlu a Chyrff Diogelwch Cenedlaethol.  Fodd bynnag, nid oes unrhyw thema’n bodoli ar ei phen ei hun ac mae’n amlwg bod meysydd cydweithio clir wedi’u nodi’n fanwl yn yr amcanion cyffredin.

## CONTEST – Diogelu

Rhaglen wirfoddol, gyfrinachol yw 'Channel' sy'n gweithredu ledled Cymru a Lloegr i ddiogelu pobl a nodwyd yn rhai sy'n agored i gael eu denu at derfysgaeth. Cynhelir proses Panel 'Channel' o dan Ddyletswydd Statudol Adran 36 o Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015. Mae'n broses ddiogelu.

Cyfarwyddyd Dyletswydd Channel 21

Diagram 1.0: Diagram o'r Llwybr



## Canllaw Statudol Newydd y Swyddfa Gartref 2020

Canllaw Dyletswydd 'Channel' – Diogelu Pobl sy'n Agored i gael eu denu at Derfysgaeth.

Mwy o bwyslais ar y canlynol:

- Ymyrraeth Gynnar/Atal
- Cynnwys Aelodau'r Teulu yn y broses
- Fframwaith Sicrwydd Ansawdd

Cyfraddau Atgyfeirio: o fewn y flwyddyn ddiwethaf (rhwng mis Mai 2020 a mis Tachwedd 2021) cafwyd:

- Mwy o atgyfeiriadau mewn cymhariaeth â blynyddoedd blaenorol
- Proses Paneli 'Channel' sydd bellach yn cael ei rheoli dan y Gwasanaeth Diogelu

Prif themâu'r atgyfeiriadau:

- Ideoleg Ansicr/Cymysg
- Eithafiaeth Islamaidd

Beth sy'n gweithio'n dda ym mhroses y Panel 'Channel':

- Aml-asiantaeth wedi ei sefydlu ledled y sir, gan gynnwys gwasanaethau amrywiol y Cyngor
- Mae gan y Panel 'Channel' Gadeirydd a Dirprwy Gadeirydd sydd wedi dilyn hyfforddiant arbenigol y Swyddfa Gartref; a Chyflawni 'Channel' yn Lleol
- Mae'r Cadeirydd yn Rheolwr Awdurdod Lleol gyda chefndir Diogelu
- Cynhaliodd Heddlu Dyfed-Powys hyfforddiant yn ddiweddar i Aelodau'r Panel
- Mae defnyddio Darparwyr Ymyrraeth yn allweddol i'r broses
- Mynediad at wasanaethau arbenigol sy'n gweithio gyda phobl a allai fod yn agored i gael eu denu at derfysgaeth

## Fframwaith Sicrwydd Ansawdd

Datganiad Sicrwydd Blynyddol Panel 'Channel' – Cwblhawyd ym mis Ebrill 2021.

**5 Maes Rheoli Allweddol** (cyfanswm o 36 Safon)

1. Gofynion Cyfreithiol o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth 2015
2. Llywodraethiant Strategol
3. Cymwyseddau Cadeirio/Sgiliau
4. Swyddodgaeth a Ffurf y Panel
5. Diogelu Data

## CONTEST – Strategaeth Hyfforddi

> *Mae'r bobl iawn ar draws y sefydliad yn derbyn y lefel iawn o hyfforddiant sy'n ofynnol i'w helpu i ddeall y risg o radicaleiddio a gwybod sut i gael cefnogaeth yn lleol.*
> *(Dyletswydd Prevent i Awdurdodau Lleol, Meincnod 7)*

Home Office

### Cyflwyniad

Mae Canllaw Dyletswydd 'Prevent' yn cadarnhau pa mor bwysig yw cynnig hyfforddiant i staff er mwyn gallu adnabod arwyddion radicaleiddio a bod yn hyderus wrth atgyfeirio unigolion a all dderbyn cefnogaeth yn y cyfnod cyn droseddol.


Mae aelodau staff Cyngor Sir Ceredigion yn rhyngweithio gydag amrywiaeth eang o bobl ac maent mewn sefyllfa dda i adnabod unigolion, teuluoedd neu gymunedau a all gael eu paratoi'n amhriodol ar gyfer gweithgaredd eithafol neu derfysgol.

Er mwyn cefnogi'r amcan hwn, mae tîm Dysgu a Datblygu Cyngor Sir Ceredigion wedi gweithio mewn partneriaeth â thimau Diogelwch a Diogelu Cymunedol i adolygu a blaenoriaethu ei hyfforddiant Atal 'Prevent' ledled y sefydliad.

Oherwydd amrywiaeth rolau'r rheng flaen, mabwysiadwyd ymagwedd raddol, gan sicrhau bod y staff priodol yn derbyn hyfforddiant ar y lefel berthnasol.

Clustnodwyd gwasanaethau rheng flaen a rhoddwyd blaenoriaeth hyfforddi i rolau rheng flaen penodol, os oedd y rôl yn cynnwys gwaith uniongyrchol rheolaidd gydag unigolion bregus, er enghraifft, i bob ymarferydd yn y gwasanaeth cymdeithasol, cwnselwyr ysgol, arweinwyr diogelu dynodedig ayb.

### Lefelau Hyfforddi




**Gweithdy= Gweithdy i Godi Ymwybyddiaeth o 'Prevent', i gael mwy o wybodaeth gweler troednodyn***

## Hyfforddiant - Crynodeb o'r Cynnydd a wnaed hyd yma

- Mae hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o 'Prevent' (WRAP) ar gael i staff y rheng flaen, mae'r hyfforddiant wedi ei symud i fod ar-lein ac mae wedi parhau yn ystod y pandemig
- Mae hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o Prevent (WRAP) wedi ei hyrwyddo ac mae ar gael i'r gwasanaethau a gomisiynwyd gan Gyngor Sir Ceredigion a'n partneriaid
- Derbyniodd Rheolwyr Corfforaethol y Gwasanaeth Gydol Oes a Llesiant hyfforddiant arbenigol i godi ymwybydiaeth o 'Prevent' a Phaneli 'Channel', a chyflwynwyd yr hyfforddiant hwnnw gan Heddlu Dyfed-Powys (Gorffennaf 2021)
- Cyflwynwyd 'Briffio Strategol' gan 'Prevent' i uwch arweinwyr ar draws y Cyngor ym mis Tachwedd 2021

## Cynlluniau Hyfforddi ar gyfer y Dyfodol

- Datblygu pecyn e-ddysgu mewnol ar gyfer aelodau perthnasol o staff a hyfforddiant ategol (dogfen friffio 7 munud i staff)
- Cyflwyno hyfforddiant wedi'i deilwra ar gyfer Aelodau Etholedig i godi ymwybyddiaeth a'u cynorthwyo i ddeall eu rôl yn y Ddyletswydd (y dyddiad i'w gadarnhau ar gyfer 2022)
- Briffio Strategol i Lywodraethwyr Ysgolion a Phenaethiaid – cwrs gloywi/diweddariad ynghylch 'Prevent '

---

### **Beth yw'r Hyfforddiant i Godi Ymwybyddiaeth o Prevent (WRAP)?

- Hyfforddiant sydd wedi ei gymeradwyo gan y Swyddfa Gartref ac a gyflwynir gan hyfforddwyr achrededig
- Mae'n para 3 awr 45 munud

### Amcanion Hyfforddi

- Deall Strategaeth Atal 'Prevent'
- Adnabod yr arwyddion sy'n dangos bod rhywun yn agored i gael ei radicaleiddio
- Gwybod sut i ymateb i bryderon ac adrodd amdanynt

### At bwy mae'n cael ei anelu?

- Pob aelod o staff ar y rheng flaen sydd â chyswllt uniongyrchol ag oedolion, plant a phobl ifanc
- Uwch swyddogion a goruchwylwyr y byddai aelodau eraill o staff yn debygol o fynd atynt am gyngor
- Pob aelod o staff a chanddynt rolau sy'n golygu bod ganddynt gyfrifoldeb am ddiogelwch plant ac oedolion
- Pob aelod o staff sydd mewn rolau a fydd â chyfrifoldebau allweddol am ddiogelu plant ac oedolion ac a fydd efallai yn gorfod cynorthwyo staff eraill gyda gweithdrefnau.

**Cyngor Sir CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu |
| **DYDDIAD:** | **10 Chwefror 2022** |
| **LLEOLIAD:** | ZOOM |
| **TEITL:** | Adroddiad ar gofnod penderfyniadau'r Grŵp Rheoli Aur Covid-19 |
| **DIBEN YR ADRODDIAD:** | Darparu gwybodaeth am benderfyniadau Grŵp Arweiniol Covid-19 ('y Grŵp Rheoli Aur') yn y cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng 1 Medi 2021 a 31 Rhagfyr 2021 |
| **PAM MAE CRAFFU WEDI GOFYN AM YR WYBODAETH HON:** | Ni ofynnwyd am y wybodaeth |

**CEFNDIR:**

Ar 25 Mawrth 2020, rhoddodd yr Arweinydd bwerau dirprwyedig dros dro i Brif Weithredwr y Cyngor a'r Grŵp Rheoli Aur Arweiniol i wneud penderfyniadau a oedd yn ymwneud ag ymateb y Cyngor i COVID-19 (gweler https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/coronafeirws-covid-19/llywodraethiant/).

Daeth cyfnod trosglwyddo'r pwerau gweithredu dros dro i ben ar 31 Awst 2021. O 1 Medi 2021 hyd yn awr, mae'r Grŵp Rheoli Aur wedi bod yn dod i benderfyniadau gweithredol dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 (https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2004/36/contents).

Cyhoeddwyd Cofnod o'r Penderfyniadau am y tro cyntaf ar wefan y Cyngor ar 5 Tachwedd 2020 (ar gyfer penderfyniadau a wnaed hyd at 30 Medi 2020).

Cyflwynwyd adroddiadau ar Gofnod o'r Penderfyniadau i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar 20 Ionawr 2021, 16 Mehefin 2021 a 1 Rhagfyr 2021.
(Gweler yr adroddiadau drwy ddilyn y dolenni canlynol:-
http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/Coord%20agenda%20pack%20200121%20FINAL%20Welsh.%20v2pdf.pdf

https://cyngor.ceredigion.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=143&MId=195&Ver=4&LLL=1

a hefyd
https://cyngor.ceredigion.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=143&MId=226&Ver=4&LLL=1

**Y SEFYLLFA BRESENNOL**

Bellach mae Cofnod o'r Penderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd y Grŵp Rheoli Aur rhwng 1 Medi a 31 Rhagfyr 2021 wedi ei baratoi (gweler **Atodiadau 1 a 2**).

Cyhoeddwyd Cofnod o'r Penderfyniadau a wnaed rhwng 1 Medi 2021 a 30 Tachwedd 2021 ar wefan y Cyngor ar 16 Rhagfyr 2021 a chyhoeddwyd Cofnod o'r Penderfyniadau a wnaed rhwng 1 Rhagfyr 2021 a 31 Rhagfyr 2021 ar wefan y Cyngor ar 21 Ionawr 2022 (gweler https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/coronafeirws-covid-19/llywodraethiant/)

**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig?** Naddo
**Os naddo, nodwch pam**
***Crynodeb:*** *Darperir yr adroddiad hwn er gwybodaeth ac nid yw'n cynrychioli unrhyw newid mewn polisi neu strategaeth.*

| | | |
|---|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **Hirdymor:** | Cofnod o benderfyniadau'r Grŵp Rheoli Aur yw'r Cofnod Penderfyniadau, gyda'r nod o gydbwyso angen tymor byr gyda chynllunio tymor hir yn sgil y pandemig. |
| | **Integreiddio:** | Cofnod o benderfyniadau'r Grŵp Rheoli Aur yw'r Cofnod Penderfyniadau, gyda'r nod o gael effaith gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant a cheisio bod o fudd i bob un ohonynt yn wyneb y pandemig. |

| | |
|---|---|
| **Cydweithio:** | Mae'r Cofnod Penderfyniadau yn cyfeirio at y penderfyniadau a wnaed gan y Grŵp Rheoli Aur wrth gydweithio â phartneriaid eraill i'w cyflawni |
| **Cynnwys:** | Mae'r Cofnod Penderfyniadau yn cyfeirio at benderfyniadau sy'n cynnwys y sawl sydd â budd yn y penderfyniadau hynny, gan geisio eu barn a chan ymgorffori dulliau ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid |
| **Atal:** | Mae'r Cofnod Penderfyniadau yn cyfeirio at benderfyniadau a wnaed gan y Grŵp Rheoli Aur, lle defnyddir adnoddau i atal neu reoli problemau oherwydd y pandemig parhaus. |

**ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:** Nodi cynnwys Cofnod Penderfyniadau cyfarfodydd Grŵp Rheoli Aur Covid-19 ar gyfer y cyfnod 1 Medi i 31 Rhagfyr 2021 **(Atodiadau 1** a **2)**

**Y RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:** Monitro'r modd y llywodraethir trefniadau diwygiedig y Cyngor i wneud penderfyniadau.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Elin Prysor |
| **Swydd:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: y Gwasanaeth Cyfreithiol a Llywodraethu (a Swyddog Monitro) |
| **Dyddiad yr adroddiad:** | 20/1/2022 |
| **Acronymau:** | Amherthnasol |
| **Atodiadau:** | **Atodiad 1** – Cofnod Penderfyniadau'r Grŵp Rheoli Aur (penderfyniadau rhwng 1 Medi 2021 a 30 Tachwedd 2021)<br>**Atodiad 2** – Cofnod Penderfyniadau'r Grŵp Rheoli Aur (penderfyniadau rhwng 1 Rhagfyr 2021 a 31 Rhagfyr 2021) |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

| **Log Penderfyniadau'r Grŵp Rheoli Aur– Penderfyniadau a wnaed mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng 1 Medi 2021 a 30 Tachwedd 2021** | | |
|---|---|---|
| 231 | 02.09.21 | Gwneud yn glir mai dim ond o wythnos 28 y beichiogrwydd ac wedi hynny y mae'r penderfyniad canlynol yn berthnasol, sef y dylai aelodau staff beichiog sy'n gweithio'n agos gydag aelodau o'r cyhoedd am gyfnodau o 15 munud neu fwy weithio gartref hyd at 31 Hydref 2021 yn y lle cyntaf. |
| | | Cytuno i dderbyn cynnig a dderbyniwyd gan bapur newydd i gael colofn yn y papur. |
| | | Cytuno i barhau â'r safiad cadarn i wrthsefyll unrhyw gynigion i israddio Covid-19 o fod yn bandemig i fod yn endemig. |
| | | Cytuno i barhau i drefnu 4 diwrnod o glinigau ffliw ar gyfer staff gofal ledled y sir. |
| | | Cytuno â'r bwriad o weithredu Cyfnod 4 addasiadau'r Cynllun Trawsnewid tuag at Adferiad ar gyfer y Gwasanaethau Dydd o 1 Medi 2021 ymlaen. |
| | | Cytuno y gallai Neuadd y Sir gael ei defnyddio ar gyfer hyfforddiant un i un i Swyddog Dilysu sydd newydd ei benodi i'r swydd, ar yr amod bod profion llif unffordd a'r Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) priodol yn cael eu defnyddio a bod y staff yn defnyddio'r fynedfa ar ochr yr adeilad i fynd i mewn ac allan o'r adeilad. |
| 232 | 07.09.21 | Cytuno i ganiatáu hyd at uchafswm o 10 aelod o staff i fod ym Mhenmorfa ar yr un adeg a hyn i'w reoli gan y tîm Rheoli Cyfleusterau. |
| | | Cytuno i ailgydio yn y trefniadau wrth gefn ar gyfer y Tîm 'Atgyfeirio Staff' a pharhau â'r ddarpariaeth Cyflenwi Brys ar gyfer Covid-19, adolygiad i'w gynnal ar ddechrau mis Hydref 2021. |
| | | Cytuno i ganiatáu i'r Dirprwy Weinidog ymweld â'r Llyfrgell, yr Archifdy a'r Amgueddfa ar 14 Hydref, cyhyd ag y bo'r Asesiadau Risg priodol wedi eu cynnal. |
| | | Cytuno â'r argymhelliad i gefnogi'r cais am ryddhau neu ddileu Ardrethi Annomestig i fusnes yn ne'r sir. |
| | | Cytuno i hepgor y ffi ar gyfer Hysbysiad Priodas hyd at fis Rhagfyr 2021 i'r sawl sydd eisoes yn y system. |
| 233 | 09.09.21 | Cytuno â'r cynigion a amlinellir yn nogfen Cyfnod Addasu y Gwasanaeth Democrataidd. Ychwanegu y dylid gohirio'r cyfarfod peilot Cyfnod 3 arfaethedig yn y Siambr tan fis Ionawr 2022. |
| | | Cytuno y gall staff y Gwasanaethau Etholiadol gael mynediad i Benmorfa ar gyfer y gwaith presennol o gaffael gwybodaeth, yn unol â'r Asesiad Risg manwl sydd wedi ei baratoi. |
| | | Nodi canllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru a amlinellir yn yr adroddiad ar gyfer parhau â threfniadau sy'n ymwneud â chymorth ariannol dros dro Covid-19 ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cymeradwyo'r darn drafft a baratowyd gan Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer ei gyhoeddi mewn colofn yn y Cambrian News. |
| 234 | 14.09.21 | Cytuno y gellir bwrw ymlaen â chreu Ffilmiau Gwybodaeth Gyhoeddus Covid-19 fel yr amlinellwyd yn y papur cynnig. |
| | | Cytuno i aros am y cyhoeddiad a ddisgwylir gan Lywodraeth y DU ddydd Mercher ynghylch gweithdrefnau cwarantin i deithwyr sy'n dychwelyd o dramor, cyn gwneud unrhyw newid yn y polisi i staff y Cyngor sy'n teithio dramor. |
| 235 | 16.09.21 | Cytuno i gadw at y safiad na wneir unrhyw waith i newid seilwaith presennol y trefi lle ceir Parthau Diogel hyd nes y bydd yr ymgynghoriad llawn wedi dod i ben. |
| | | Cytuno y byddai'r polisi presennol yn parhau, sef bod staff sy'n dychwelyd o wledydd ambr ac sy'n gorfod hunanynysu yn gorfod cymryd gwyliau blynyddol neu gyfnod di-dâl am y dyddiau gwaith a gollir. |
| | | Cytuno i gynnal asesiad risg newydd ar gyfer y Gwasanaeth Llyfrgell, oherwydd y cynnydd mewn achosion lle nad yw aelodau'r cyhoedd yn glynu wrth y rheol o wisg mwgwd. Os na nodir cynnydd mewn risg, yna cedwir at y sefyllfa bresennol a bydd y staff yn cael gwybod am y penderfyniad. Os nodir bod mwy o risg, yna bydd y Llyfrgell yn dychwelyd at wasanaeth clicio a chasglu hyd nes y bydd y Grŵp Rheoli Aur yn gyfforddus gyda chyfradd Covid-19 y sir. |
| | | Dylai asiantaethau eraill fod yn ymwybodol y bydd mynediad at y llety dros dro yn cael ei wrthod, os anwybyddir rhybudd i hunanynysu. Polisi oedd hwn ar gyfer adeg pan fyddai pethau wedi mynd i'r pen a phob ateb arall wedi methu. Roedd yn angenrheidiol er mwyn diogelu defnyddwyr eraill a staff. |
| | | Cytuno y gallai Swyddog y Gwasanaeth Tai gael mynediad at Neuadd y Sir am 3 diwrnod yr wythnos am y pythefnos nesaf ac yna 2 ddiwrnod yr wythnos tan ddiwedd mis Hydref er mwyn lawrlwytho ac ymdrin â data a fydd yn cyfrannu at Gymorth Tai, gan nad oes ganddo'r cysylltedd a'r lled band angenrheidiol yn ei gartref. |
| | | Cytuno i sefydlu ardal benodedig yn Neuadd y Sir i staff ei defnyddio ar gais pan fyddai angen iddynt gael mynediad at lawer o ddata. |
| | | Cymeradwyo'r cynnig i ganiatáu i ysgolion ddechrau cynllunio ar gyfer ailddechrau sesiynau nofio yng Ngheredigion. Byddai adroddiad pellach a fyddai'n cynnwys y trefniadau terfynol yn dod yn ôl at y Grŵp Rheoli Aur, er mwyn ei gymeradwyo cyn bod y sesiynau'n dechrau. |
| | | Cymeradwyo ailddechrau ymweliadau yn y cartref, gan gynnwys gweithwyr unigol ar gyfer disgyblion bregus a glustnodwyd, lle bu'r cysylltiad â hwy yn gyfyngedig neu lle na chafwyd cysylltiad o gwbl ac nad ydynt wedi ailgydio yn eu haddysg. |
| | | Cytuno ar gais i ffilmio y tu allan i Theatr Felinfach. |

| | | |
|---|---|---|
| 236 | | Cytuno i ddychwelyd at weithdrefnau'r Cyfansoddiad sy'n ymwneud ag ymgeiswyr, asiantiaid a gwrthwynebwyr a rhoi caniatâd iddynt annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygiad yn uniongyrchol drwy Zoom o 13 Hydref ymlaen (dyddiad y cyfarfod nesaf). |
| | 21.09.21 | Cytuno ar Opsiwn 2 ar gyfer darparu'r Gwasanaeth Llyfrgell gyda'r amodau canlynol: rhoi caniatâd i'r cyhoedd fod yn yr adeilad i edrych ar y llyfrau am 15 munud yn unig ac atal pob defnydd o'r cyfrifiaduron sydd at ddefnydd y cyhoedd. Bydd arwyddion ychwanegol yn cael eu darparu ym mhob llyfrgell ynghylch gwisgo mygydau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Dim ond o'r tu ôl i'r cownter a thu ôl i sgrin y bydd staff yn ymdrin ag unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n gwrthod gwisgo mwgwd. Cyfyngu ar nifer yr unigolion a ganiateir yn yr adeiladau ar yr un adeg ac uchafswm yn parhau i gael ei bennu a hwnnw wedi ei gyfrifo ar sail metrau sgwâr arwynebedd y llawr. Y trefniadau i gael eu gwneud yn syth. |
| 237 | 23.09.21 | Cymeradwyo bod dosbarthiadau cerdded ac ymarfer awyr agored y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff yn ailddechrau o ddydd Llun 4 Hydref 2021 ymlaen, a'r gweithgareddau i gael eu hadolygu o'r newydd cyn misoedd y gaeaf. |
| 238 | | Cytuno i beidio ag olrhain a dilyn pob cysylltiad mewn ysgolion uwchradd. |
| | | Cytuno y gellid defnyddio dysgu rhithiol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 12 mewn ysgol oherwydd nifer uchel y disgyblion sydd eisoes gartref yn hunanynysu. |
| | | Cytuno i adolygu'r safiad rhanbarthol parthed Canllawiau i Gartrefi Gofal a'i fod yn cael ei alinio â'r canllaw cenedlaethol ond gyda'r rhybudd y bydd cartrefi gofal Ceredigion yn cael eu hysbysu bod camau gweithredu i'w cymryd yn syth pan fo un preswylydd neu 2 aelod o staff yn profi'n bositif. |
| | 28.09.21 | Cytuno i ailddechrau codi tâl am ddefnyddio Toiledau Cyhoeddus o ddiwedd hanner tymor mis Hydref ymlaen. |
| 239 | | Cytuno y bydd Cartrefi Gofal Ceredigion yn dilyn Canllaw Llywodraeth Cymru o ddau ganlyniad positif cyn ysgogi cyfyngiadau, ond gyda'r rhybuddion canlynol: Cyn gynted ag y ceir un canlyniad positif, bydd y Cartref Gofal yn mynd i statws 'cyfnod saib' a bydd yn ceisio arweiniad oddi wrth Iechyd Cyhoeddus Cymru os oes unrhyw amgylchiadau sy'n codi pryder. Yn ogystal, os bydd preswylydd yn derbyn canlyniad positif, bydd y cartref yn mynd yn awtomatig i statws 'cyfnod saib' tra disgwylir am arweiniad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. |
| | 30.09.21 | Yn wyneb yr adroddiad gan Fforwm Gwydnwch Lleol Dyfed Powys am faterion tanwydd a chan fod disgwyl i'r sefyllfa wella yn ystod y dyddiau nesaf, dod i'r casgliad nad oedd angen adolygu asesiadau risg i staff Gofal Cymdeithasol ar hyn o bryd o ran rhannu ceir. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cytuno na fyddai'r Cyngor yn cynnal y Marchnadoedd Ffair yn Aberteifi ac Aberystwyth eleni oherwydd yr effaith y byddai hyn yn ei chael ar adnoddau ond dylid cyfathrebu'r neges yn ar frys i'r Cynghorau Tref perthnasol fel eu bod yn cael y cyfle i drefnu'r digwyddiadau eu hunain pe dymunent. Byddai hen safle'r depo bysiau at eu defnydd pe bai angen. |
| 240 | | Cytuno mewn egwyddor ar y newidiadau i gynllun y cyfnod Addasu tuag at Adfer ar gyfer ymweld â chartrefi gofal yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol y Grŵp Rheoli Aur ddiwedd mis Hydref, cyn gynted ag y bydd rhaglen y brechiadau atgyfnerthu wedi ei chwblhau ar gyfer preswylwyr y Cartrefi Gofal. |
| | | Cytuno ar a chefnogi llinell amser y gorchmynion traffig arbrofol fel y'u cyflwynwyd. |
| | | Cymeradwyo, mewn egwyddor, y gweithgareddau Cymorth ac Atal ar gyfer plant a phobl ifanc yn ystod hanner tymor mis Hydref gyda'r amod bod papur i'w gyflwyno o'r newydd i'r Grŵp Rheoli Aur ar y dydd Mawrth cyn yr hanner tymor er cymeradwyaeth. |
| | 05.10.21 | Cefnogi'r penderfyniad a wnaed gan y Grŵp Arweiniol i fabwysiadu'r Protocol Dros Dro a luniwyd ar y cyd parthed Rheoli Covid Hir mewn Awdurdodau Lleol yng Nghymru tan 16 Ionawr 2022. |
| 241 | | Cytuno i rannu negeseuon Iechyd Cyhoeddus Cymru ynglŷn â'r ymgyrch frechu i wragedd beichiog, gan ddiffodd y cyfleuster sy'n galluogi'r darllenydd i wneud sylwadau. |
| | | Cytuno i gefnogi Pennaeth drwy gymeradwyo llythyr oddi wrth y Pennaeth at rieni, yn gofyn iddynt ystyried cyfyngu ar gysylltiadau er mwyn ceisio torri'r cylch trosglwyddo yn yr ardal. |
| | 07.10.21 | Cytuno â'r cynigion i ganiatáu ymweliad arolygu'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol fynd rhagddo, yn amodol ar y mesurau rheoli y manylir arnynt yn yr adroddiad. |
| 242 | | Cytuno i beidio â chaniatáu i ysgolion Ceredigion deithio dramor, gan nad oes darpariaeth ar gyfer Covid-19 yn yswiriant yr Awdurdod Lleol. |
| | | Cytuno i ganiatáu i ysgolion ddefnyddio eu cyllidebau dirprwyedig i ddarparu talebau ffliw i'w staff, pe dymunent wneud hynny. |
| | | Cytuno â'r cynnig i ddychwelyd at drefniadau oriau agor cyn-COVID-19, cael gwared o'r cyfyngiadau odrif/eilrif, ond eto'n cadw at y cyfyngiad ar y nifer o gerbydau a ganiateir ar safleoedd Gwastraff Cartref o 1 Tachwedd ymlaen a chael gwared o'r trefniadau cyfunol 'Tasg a Gorffen' yn y depos. |
| | 12.10.21 | Cytuno y gallai'r trefniadau arfaethedig i ddychwelyd at 3 mewn cab ar gyfer casglu gwastraff mewn Cerbydau Casglu Gwastraff a'r asesiad risg newydd gael eu cyflwyno i'r Undebau Llafur er trafodaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| 243 | 14.10.21 | Cytuno y gallai partïon Nadolig staff ddigwydd ond byddai canllawiau yn cael eu paratoi i staff eu dilyn er mwyn eu gwneud mor ddiogel â phosibl. |
| | | Cytuno â'r cais i lwyfannu perfformiad o'r pantomeim blynyddol yn Theatr Felinfach yn amodol ar y mesurau amddiffynnol a amlinellir yn y cynnig. |
| | | O hyn allan, dylai unrhyw ddigwyddiadau arfaethedig yn Theatr Felinfach gael eu bwydo drwy'r grŵp Gweithgareddau a Digwyddiadau. |
| | | Cytuno i dalu costau teithio staff Iechyd a Gofal Cymdeithasol i dderbyn eu brechiad atgyfnerthu. |
| | | Cytuno ar y cynigion y manylir arnynt yn y papur ynghylch newidiadau i'r trefniadau i staff corfforaethol a fydd yn dychwelyd i'r gwaith ar ôl iddynt ymweld â gwlad y tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin. |
| 244 | 20.10.21 | Cytuno i barhau â'r polisi lle bo staff yn gweithio gartref o wythnos 28 eu beichiogrwydd ymlaen. |
| | | Cytuno y gallai'r gweithgareddau Cymorth ac Atal arfaethedig ar gyfer plant a phobl ifanc yn ystod hanner tymor mis Hydref ddigwydd yn amodol ar gadarnhad gan Ddiogelu'r Cyhoedd eu bod yn hapus â'r arferion rheoli haint ar y campws. |
| 245 | 26.10.21 | Cymeradwyo'r cynnig i ailgychwyn sesiynau gweithgareddau dan do'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS) ond ar yr amod na chaiff unrhyw ddosbarthiadau eraill nac aelodau'r cyhoedd ddod i mewn i'r adeilad tra bo'r dosbarthiadau NERS yn digwydd a rhaid i bob cleient NERS gyflwyno prawf llif unffordd negyddol cyn y caiff ddod i mewn i'r adeilad. |
| | | Peidio â chefnogi'r cynigion yng Nghyfnod 3 Cyfnod Addasu Cynllun Twf a Menter tuag at adferiad, sy'n ymwneud â phresenoldeb corfforol mewn rhai cynadleddau a digwyddiadau, oherwydd y cyfraddau heintio uchel ar hyn o bryd ledled Cymru. Mae'r cynnig hwn i gael ei adolygu yn y Flwyddyn Newydd. |
| | | Cytuno i gynyddu uchafswm y staff sy'n cael mynediad i Ganolfan Rheidol i 25. |
| 246 | 28.10.21 | Cytuno i ailgyflwyno yn syth yr hyfforddiant y mae darpar ofalwyr maeth yn ei ddilyn cyn iddynt gael eu cymeradwyo, yn unol â'r manylion sydd yn y cynnig. |
| | | Yn sgil cyfraddau heintio presennol y sir o ran Covid, gohirio'r penderfyniad ynghylch gweithgareddau'r gaeaf a gofyn i'r cais gael ei gyflwyno o'r newydd i'w adolygu yn ystod wythnos gyntaf mis Rhagfyr. Roedd y penderfyniad ynghylch adfer cyfarfodydd tîm Gofalwyr maeth i gael ei adolygu ym mis Ionawr 2022. |
| | | Cytuno i ohirio'r penderfyniad ar y cynnig: "i roi'r gallu i breswylwyr i wneud dewis gwybodus o ddymuno gadael y safle gyda'u 2 ymwelydd penodol" am fis, oherwydd bod y niferoedd sy'n dioddef o Covid yn ein cymunedau ar hyn o bryd yn eithriadol o uchel. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cytuno na fydd yr un preswylydd yn gallu gadael y cartref os oes achos gweithredol neu frigiad o achosion, oni bai ei fod am reswm hanfodol e.e. apwyntiad gofal iechyd brys. |
| | | Cytuno mai dim ond ymweliadau hanfodol â chartrefi gofal yr Awdurdod Lleol ddylai ddigwydd ac adolygu'r penderfyniad hwn mewn mis. |
| | | Cytuno i alinio â chanllawiau Llywodraeth Cymru a chyflwyno 'ymwelwyr hanfodol' enwebedig ar gyfer pob preswylydd. |
| | | Cytuno y bydd ymwelwyr yn cynnal profion prawf llif unffordd dan arolygaeth cyn mynd i mewn i'r Cartref Gofal. |
| | | Cytuno bod yn rhaid i ymwelwyr gadw pellter cymdeithasol mewn Cartref Gofal. |
| | | Cytuno i lacio cyfyngiadau o ran rhoddion, gan gynnwys bwyd a diod. Bellach gellir rhannu'r rhain rhwng ymwelwyr a phreswylwyr ac nid oes angen iddynt gael eu cadw mewn cynwysyddion wedi'u selio a heb eu hagor. |
| | | Cymeradwyo'r cais i adfer perfformiadau diogel yn yr awyr agored ar safleoedd Cartrefi Gofal, yn amodol ar ddilyn y gweithdrefnau a'r asesiadau risg priodol. |
| | | Gohirio'r penderfyniad ar y cynnig i adfer gweithgareddau mewnol mewn Cartrefi Gofal tan fis Ionawr 2022, oherwydd y cyfraddau uchel o achosion Covid yn y sir ar hyn o bryd. |
| | | Cytuno y gall aelodau staff Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol sy'n gyswllt 'cymunedol' i rywun sydd wedi profi'n bositif, ddychwelyd i'r gwaith ar ôl derbyn canlyniad negyddol mewn prawf PCR ar ddiwrnod 2 (os ydynt wedi eu brechu'n llawn), ond bod yn rhaid iddynt gwblhau cyfnod hunanynysu llawn o 10 diwrnod os yw'n gyswllt 'aelod o'r cartref' i rywun sydd wedi profi'n bositif. |
| | | Cymeradwyo'r polisi diwygiedig ar gyfer staff sy'n dychwelyd i'r gwaith yn dilyn teithio rhyngwladol i wledydd sydd wedi'u rhestru'n wyrdd. |
| | | Cytuno â'r neges ddrafft ynglŷn â phartïon Nadolig ar yr amod y dylai'r pwynt bwled cyntaf ynglŷn ag aros gartref os oes gan staff symptomau Covid gael ei fynegi'n gryfach. |
| 247 | 02.11.21 | Dim penderfyniadau |
| 248 | 04.11.21 | Cytuno i ohirio'r penderfyniad ynglŷn â'r cais cydgymorth a dderbyniwyd gan Sir Gâr o ran cyfarpar meddygol hyd nes y bydd Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal wedi cael y cyfle i roi ystyriaeth lawn i'r goblygiadau i stoc y Cyngor yn y dyfodol a chael y cyfle i adrodd yn ôl i'r Grŵp Rheoli Aur. |
| | | Cytuno i roi cymeradwyaeth i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth i barhau â thrafodaethau ynghylch y posibilrwydd o rhentu safle fel cynllun wrth gefn pe na baem yn gallu cynnal trafodaethau llwyddiannus i aros yn y safle bresennol. |
| 249 | 09.11.21 | Cytuno â'r protocol o gael prawf llif unffordd cyn ymweld â Chartref Gofal, yn amodol ar ychwanegu un frawddeg |

| | | |
|---|---|---|
| | | ynghylch sicrhau cyflenwad digonol o brofion cyn yr ymweliad. |
| 250 | 11.11.21 | Cymeradwyo'r papur diwygiedig ynghylch ailgyflwyno ymweliadau staff ymgynghorol i gefnogi ysgolion. |
| | | Cytuno i ailgychwyn ymweliadau wyneb yn wyneb a gweithgareddau dan do sy'n ymwneud â dyletswyddau statudol ar gyfer gwasanaethau ymyrraeth gynnar, atal a diogelu ac asesu a darparu gofal a chymorth. |
| | | Cytuno â'r cynnig i gynyddu'r ddarpariaeth Penwythnosau DASH i ddau grŵp o blant yn dilyn proses baru ar sail asesiad risg. |
| | | Gwrthod cais i ffilmio oherwydd y pwysau sydd ar staff ar hyn o bryd. |
| 251 | 16.11.21 | Cytuno y gellir cynnal gweithdy diwrnod ar gyfer 5 aelod o staff i ddatblygu Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn Ystafelloedd Aeron ac Ystwyth ym Mhenmorfa. |
| 252 | 18.11.21 | Cytuno mewn egwyddor y dylai Pasys Covid fod yn ofynnol ar gyfer unrhyw weithgaredd dan do a fyddai'n ymwneud â'r cyhoedd ac a gynhelir mewn ysgolion yn y cyfnod cyn y Nadolig. Bydd hyn yn amodol ar Archwilio Cymru a fydd yn gwirio'r diffiniad o 'neuaddau cyngerdd' o fewn rheoliadau Pás Covid i weld a yw'n cynnwys ysgolion sy'n cynnal cyngherddau. |
| | | Gwrthod y cais i ganiatáu i staff fynd i gynhadledd yn Llundain. Wedi asesu'r risgiau yn erbyn y manteision posibl, tybid bod gormod o risg i staff ac roedd gwrthod yn unol â'r polisi presennol o gyfyngu ar holl aelodau staff rhag teithio y tu allan i'r sir oni bai bod gwir raid. |
| | | Cytuno bod yn rhaid i bob cais pellach i fynd i ddigwyddiadau dysgu a chynadleddau tebyg y tu allan i'r sir gael eu dwyn gerbron y Grŵp Rheoli Aur i'w hystyried fesul achos. Hyn i barhau tra bo Grŵp Rheoli Aur Covid-19 yn cyfarfod. |
| | | Cytuno â chais y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelwch y Cyhoedd ynghylch hyfforddiant gorfodol i 5 Swyddog Diogelu'r Cyhoedd mewn perthynas â dyletswyddau statudol sy'n ymwneud â chyflenwadau dŵr preifat (yn amodol ar roi ystyriaeth ofalus i'r lleoliad a'r asesiad risg ynghyd â dilyn mesurau diogelwch llym). |
| | | Rhoi caniatâd i ddefnyddio ardal ar lawr uchaf Neuadd y Sir yn Aberaeron yn ystod y chwe mis nesaf, pan fyddai cynnal hyfforddiant wyneb yn wyneb yn hanfodol. Pwysleisir bod yn rhaid i bob cais i ddefnyddio'r cyfleuster hwn ddod gerbron y Grŵp Rheoli Aur i ddechrau, er mwyn iddynt hwy ystyried y cais a'i awdurdodi. |
| | | Cytuno bod angen mwy o fanylion ynghylch niferoedd ac amserlenni cyn dod i benderfyniad ynghylch cynigion sy'n ymwneud â darpariaethau cyffredinol a darpariaethau wedi'u |

| | | |
|---|---|---|
| | | targedu ar gyfer plant a phobl ifanc ac i'w cynnal yn y gymuned. |
| 253 | 23.11.21 | Caniatáu i ddau unigolyn (un hyfforddwr ac un hyfforddai) gael mynediad i Neuadd y Sir, Aberaeron, er mwyn i aelod o staff dderbyn hyfforddiant sut i ddefnyddio porth cyfrifadurol mewn achosion gofal plant. |
| | | Cytuno y gall hyfforddeion ddefnyddio eu cludiant eu hunain (bydd costau teithio yn cael eu talu) er mwyn sefyll prawf ar-lein yn y ganolfan achrededig ar gyfer Awdurdod Cymwysterau'r Alban (SQA) yn Cross Hands ar gyfer cymhwyster Gwaith Stryd. |
| | | Cytuno i fwrw ymlaen i drefnu a gweithredu rhaglen grant Cronfa Gymorth Busnes Llywodraeth Cymru, gan ddefnyddio'r un trefniadau â'r llynedd. |
| | | Cytuno i ganiatáu i archwiliadau hylendid bwyd ailddechrau mewn Cartrefi Gofal, yn unol â Chynllun Adfer yr Awdurdod Safonau Bwyd a'r mesurau diogelwch a amlinellir yn y papur. |
| 254 | 30.11.21 | Cadarnhau penderfyniad blaenorol y Grŵp Rheoli Aur y dylai unrhyw aelod o staff sy'n dychwelyd o wlad sydd ar y rhestr goch, gymryd gwyliau blynyddol neu gyfnod di-dâl er mwyn cyflawni eu cyfnod mewn cwarantin. |

| **Cofnod o Benderfyniadau'r Grŵp Rheoli Aur – Penderfyniadau a wnaed mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng 1 Rhagfyr 2021 a 31 Rhagfyr 2021** | | |
|---|---|---|
| 255 | 02.12.21 | Cytuno i godi lefel yr asesiad risg i ysgolion i lefel Uchel (coch), oherwydd y cynnydd yn nifer yr achosion a'r disgwyl i amrywiolyn Omicron gyrraedd y sir. |
| | | Cytuno yn unol â chanllaw Llywodraeth Cymru y dylai staff sy'n gweithio mewn swyddfeydd gynnal prawf llif unffordd ddwywaith yr wythnos. |
| | | Cytuno i ganiatáu i weithgareddau gaeaf y Nadolig i blant ailgychwyn ar gyfer Gofalwyr Maeth.<br>Gohiriwyd y penderfyniad ynghylch ailgychwyn y cyfarfodydd clwstwr i Ofalwyr Maeth tan y Flwyddyn Newydd, oherwydd yr ansicrwydd o ganlyniad i'r amrywiolyn newydd. |
| | | Cadarnhau o'r newydd y penderfyniad bod angen i staff y Cyngor gymryd gwyliau blynyddol neu absenoldeb di-dâl ar gyfer unrhyw gyfnod mewn cyfleuster cwarantin penodol. |
| | | Cytuno bod staff, nad ydynt yn gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth sydd â systemau imiwnoataliedig a/neu sy'n hynod o fregus yn glinigol, yn gorfod hunanynysu hyd nes eu bod yn gwybod canlyniad y prawf adwaith cadwynol polymerasau (PCR) ar Ddiwrnod 2.  Os bydd y canlyniad yn un positif, bydd angen hunanynysu am 10 niwrnod a chymryd prawf PCR dilynol.  Os bydd canlyniad y prawf PCR yn negyddol, gall staff ddychwelyd i'r gwaith yn syth. |
| | | Cytuno bod staff, sy'n gweithio mewn cysylltiad agos â defnyddwyr gwasanaeth sydd â systemau imiwnoataliedig a/neu sy'n hynod o fregus yn glinigol, yn gorfod hunanynysu hyd nes eu bod yn gwybod canlyniad y prawf adwaith cadwynol polymerasau (PCR) ar Ddiwrnod 2.  Os bydd y canlyniad yn un positif, bydd angen iddynt hunanynysu am 10 niwrnod a chymryd prawf PCR dilynol.  Os bydd canlyniad y prawf yn negyddol, gall staff ddychwelyd i'r gwaith ond bydd yn rhaid iddynt ymrwymo i gynnal profion llif unffordd yn ddyddiol nes diwrnod 10 a phrawf PCR ar Ddiwrnod 8.  Dylid adrodd am ganlyniadau'r profion hyn i gyd ar y dudalen we GOV.UK berthnasol, a'u cofnodi yno. |
| | | Cytuno bod staff nad ydynt wedi eu brechu'n llawn yn gorfod cwblhau ffurflen lleoli teithwyr, cynnal prawf PCR ar yr ail ddiwrnod wedi iddynt ddychwelyd i'r DU, hunanynysu am hyd at 10 niwrnod a chymryd prawf PCR ar ddiwrnod 8.  Bydd staff nad ydynt wedi'u brechu'n llawn yn gorfod cymryd gwyliau blynyddol neu absenoldeb di-dâl am unrhyw ddiwrnodau gwaith yn ystod y cyfnod hunanynysu o 10 niwrnod. |
| | | Cytuno i gymeradwyo cynnig uwch o ran y trafodaethau rhent blynyddol ar gyfer safle storio Glan yr Afon. |

| | | |
|---|---|---|
| 256 | 07.12.21 | Cytuno y dylid gofyn i bob aelod o staff sy'n mynd i mewn i unrhyw leoliad gwaith gynnal prawf llif unffordd ddwywaith yr wythnos. |
| | | Cefnogi'r penderfyniad a wnaed y noson gynt i gau ysgol am weddill yr wythnos hon oherwydd diffyg capasiti o ran staff. |
| | | Cytuno â'r agwedd a gymerir i geisio cadw ysgolion ar agor hyd at ddiwedd y tymor ar 21 Rhagfyr 2021, gan ddibynnu ar nifer yr achosion ac effaith Omicron, yr amrywiolyn newydd. |
| | | Cytuno i ganiatáu i ddau unigolyn (un hyfforddwr ac un hyfforddai) gael mynd i mewn i'r swyddfeydd er mwyn hwyluso sesiwn hyfforddi. |
| 257 | 09.12.21 | Cytunwyd mai'r cynnig uwch fyddai'r cynnig uchaf a'r cynnig olaf ar gyfer y cyfleuster storio yng Nglan yr Afon. |
| | | Rhoi cyfarwyddyd bod y cynigion i ailgyflwyno gweithgareddau cymorth cymunedol pellach yn cael eu gohirio a'u hailgyflwyno i'r Grŵp Rheoli Aur yn ystod wythnos gyntaf mis Ionawr 2022, oherwydd yr ansicrwydd presennol ynghylch amrywiolyn Omicron. |
| | | Cytuno i dalu i gynnal ymgyrch benodol ar y cyfryngau cymdeithasol, i ddangos beth yw'r buddion cymdeithasol o gael eich brechu, gan amseru'r ymgyrch i ddigwydd yn gynnar yn 2022, i gyd-fynd â'r adeg pan fo pobl ifanc 12-15 oed i gael eu brechu. |
| | | Cytuno i ofyn i rai aelodau o staff fod wrth gefn i gyflenwi ar gyfer atgyfeiriadau profi staff dros gyfnod y Nadolig. |
| 258 | 10.12.21 | Cymeradwyo'r camau lliniaru a amlinellwyd gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Diwylliant ar gyfer eu cyflwyno mewn ysgolion o ddydd Llun nesaf, 13 Rhagfyr 2021, ymlaen, yn unol â'r camau Uchel Iawn a argymhellwyd gan Lywodraeth Cymru. |
| | | Cymeradwyo'r camau lliniaru a amlinellwyd gan Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cymorth Cynnar i'w cyflwyno ar draws gwasanaethau Porth Cymorth Cynnar mewn ysgolion o ddydd Mawrth nesaf,14 Rhagfyr 2021, ymlaen. |
| 259 | 14.12.21 | Cytuno i symud i fodel dysgu rhithiol mewn ysgolion o 20 Rhagfyr 2021 ymlaen am weddill y tymor, er mwyn diogelu darpariaeth y gwasanaeth rheng flaen yn ystod y 3-4 wythnos nesaf a cheisio sicrhau digon o wytnwch yn y system i sicrhau darpariaeth ddigonol yn wyneb y bygythiad a ragwelir gan yr amrywiolyn Omicron. |
| | | Cytuno bod unrhyw aelodau o staff sy'n perthyn i aelwyd lle cafwyd canlyniad positif i brawf Covid-19 ac sydd fel arfer yn gweithio yn y swyddfa, yn gweithio gartref am 10 niwrnod, yn lle gweithio yn y swyddfa. |
| 260 | 16.12.21 | Cytuno i gyhoeddi datganiad i'r wasg ddydd Mawrth 21 Rhagfyr 2021 ynglŷn â chwblhau gwaith yng nghanolfan hamdden Plascrug ac Aberteifi a phwll nofio Llanbedr Pont Steffan. Hefyd, oherwydd pryderon difrifol ynghylch lledaeniad amrywiolyn Omicron y feirws yn y dyfodol agos, nid oedd y Grŵp Rheoli Aur yn gallu cadarnhau dyddiadau |

| | | |
|---|---|---|
| | | ym mis Ionawr 2022 ar gyfer agor unrhyw un o gyfleusterau'r Cyngor. |
| 261 | 21.12.21 | Cytuno â'r trefniadau ymweld â Chartrefi Gofal dros y Nadolig, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. |
| | | Cytuno i ailgyflwyno'r trefniadau y cytunwyd arnynt o'r blaen ynglŷn â thaliadau pan fo cludiant dysgwyr yn cael ei atal, oherwydd cyfyngiadau Covid-19. |
| 262 | 23.12.21 | Cytuno i fabwysiadu'r canllaw cenedlaethol diwygiedig ar hunanynysu, fel y'i cyflwynir mewn manylder ym mwletin Arolygiaeth Gofal Cymru. |
| | | Cytuno i drefnu apwyntiadau i Aelodau ymweld â Chanolfan Rheidol fel y gallant ddychwelyd yr iPadiau a chael gliniaduron yn eu lle. |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cofnodion Cyfarfod o PWYLLGOR CYDLYNU TROSOLWG A CHRAFFU a gynhaliwyd yn ddydd Dydd Mercher, 1 Rhagfyr 2021**

**PRESENNOL:** Cynghorydd Rowland Rees-Evans (Cadeirydd), Cynghorwyr Elaine Evans (Is-Gadeirydd), Bryan Davies, Marc Davies, Lyndon Lloyd MBE, Dan Potter, Mark Strong a Ivor Williams

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Ellen ap Gwynn, (Arweinydd y Cyngor) a'r Cynghorwyr Rhodri Evans, Gareth Lloyd, Alun Williams a Catrin Miles (Aelodau Cabinet)

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Michael Smith, Swyddog Ymgysylltu a Chydraddoldeb; Diana Davies, Rheolwr Corfforaethol, Partneriaeth a Pherfformiad; Cathryn Morgan, Rheolwr y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus; Elin Prysor, Swyddog Monitro a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Cyfreithiol a Llywodraethu; Elizabeth Upcott, Rheolwr Tîm, Amddiffyn Oedolion; Rob Starr, Rheolwr Perfformiad ac Ymchwil; Caitlin Theodorou, Swyddog Ymchwil a Pherfformiad; Mari Hopkins, Cynorthwyydd Ymchwil a Pherfformiad; Lisa Evans, Swyddog Safonau a Chraffu; Dwynwen Jones, Swyddog Cefnogi Trosolwg a Chraffu; Rhidian Jones a Llinos Williams, Cyfieithwyr.

(10.00 am - 12.02 pm)

**37 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorydd Wyn Thomas a'r Cynghorydd Elizabeth Evans (sylwedydd i'r Pwyllgor yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio) am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

**38 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

Ni ddatgelwyd dim buddiannau personol na buddiannau a oedd yn rhagfarnu.

**39 Diweddariad ar weithredu elfen Dyletswydd economaidd-gymdeithasol (DEG) Deddf Cydraddoldeb 2010 yn y broses o wneud penderfyniadau strategol..**

Rhoddodd Michael Smith, y Swyddog Ymgysylltu a Chydraddoldeb, ddiweddariad am y cynnydd a oedd wedi'i wneud o ran gweithredu dyletswydd economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010.

Dywedodd wrth Aelodau'r Pwyllgor fod yr hyn a nodir isod wedi'i gwblhau er mwyn codi ymwybyddiaeth a gweithredu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn y broses o wneud penderfyniadau strategol.

- Diwygiwyd ein templed a'n canllawiau Asesiad Effaith Integredig (AEI) i gynnwys y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol.
- Bellach mae ar y templed AEI dri chwestiwn am y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol:
    1. Pa dystiolaeth sydd gennych am anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau'r canlyniad mewn perthynas â'r cynnig? Disgrifiwch paham fydd ganddo effaith bositif / negyddol neu effaith ddibwys.
    2. Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r farn hon?
    3. Pa gamau y gallwch chi eu cymryd i liniaru unrhyw effaith negyddol neu gyfrannu'n well i effaith bositif?
- Diweddarwyd canllawiau a thempled yr AEI ar Cerinet.
  Caiff pob adroddiad Cabinet yn ogystal â'r AEI eu gwirio gan y Swyddog Ymgysylltu a Chydraddoldeb. Trwy hynny, gellir sicrhau bod pob AEI o safon dderbyniol. Darperir adborth i'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol drwy'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad ac Amddiffyn y Cyhoedd. Bydd hyn yn cynnwys asesu cynnwys y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ac unrhyw AEI. Yn y pen draw bydd y penderfyniad terfynol a'r cyfrifoldeb am AEI o dan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol perthnasol.
- Hysbyswyd y Gweithgor Cydraddoldeb Corfforaethol a'i gynnwys yn y gwaith o gychwyn ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a diwygio ein prosesau AEI.
- Cafodd Gweithdy i'r Rheolwyr Corfforaethol gyflwyniad ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ar 28/5/21.
- Cynhaliwyd gweithdy i'r Aelodau ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ar 13/10/21.
- Mae ein hyfforddiant Cydraddoldeb a'n cwrs e-ddysgu wedi eu diwygio i gynnwys y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol.
  Mae gwaith ar y gweill i ddarparu data am anfantais economaidd-gymdeithasol er mwyn cyfrannu at y gwaith o gwblhau'r Asesiadau;
- Caiff datblygiadau ar y Ddyletswydd economaidd-gymdeithasol eu cynnwys yn Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2021-22 a chaiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar ein gwefan gorfforaethol.

Rhoddwyd y cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau ac atebwyd y cwestiynau hynny yn eu tro gan y Swyddogion. Cododd un o'r Aelodau bryder ynghylch tlodi yn y sir ymhlith pobl hŷn a'r rheiny sy'n dioddef yn gorfforol ac yn feddyliol. Cadarnhaodd y Swyddog nad oedd tlodi yn cael ei ystyried yn nodwedd warchodedig. Serch hynny, roedd yr effaith ar bobl anabl, yr henoed ayyb yn cael ei hystyried. Hefyd, cadarnhaodd yr Arweinydd fod Grŵp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi datblygu Strategaeth Caledi yn ddiweddar a'i bod wedi'i chyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 14 Hydref 2021 a'r Cabinet ar 2 Tachwedd 2021.

Ar ôl trafodaeth, cytunodd yr Aelodau i dderbyn y diweddariad ynglŷn â'r cynnydd a oedd wedi'i wneud o ran gweithredu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol.

Diolchodd y Cadeirydd i Michael Smith am y wybodaeth a dymunodd yn dda iddo yn ei rôl newydd.

**40 Adroddiad ar Gofnod o Benderfyniadau'r Grwp Rheoli Aur Covid-19**

Daeth Elin Prysor i'r cyfarfod i gyflwyno adroddiad am Gofnod Penderfyniadau'r Grŵp Rheoli Aur Covid-19. Cyflwynwyd yr adroddiadau blaenorol ar 20 Ionawr 2021 a 16 Mehefin 2021. Cafodd y Cofnod Penderfyniadau ar gyfer y penderfyniadau a wnaed rhwng 4 Mai 2021 a 31 Awst 2021 ei gynnwys yn yr adroddiad hwn ac roedd wedi'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Yn ystod y drafodaeth, gofynnodd un o'r Aelodau paham fod y wybodaeth dim ond yn ymwneud â'r cyfnod hyd at fis Awst 2021. Cadarnhaodd y Swyddog fod y cofnod i'w weld yn gyhoeddus ar wefan y Cyngor. Fodd bynnag, cytunodd y Swyddog y dylai gael ei ddiweddaru'n gyson a dywedodd y byddai'n sicrhau bod diweddariad misol yn cael ei ddangos yn y dyfodol.

Yn dilyn cwestiwn am bwerau dirprwyedig dros dro, cadarnhawyd bod y pwerau hynny wedi dod i ben ar 31 Awst 2021. Serch hynny, roedd y Grŵp Rheoli Aur yn parhau i gwrdd o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd yr Aelodau i nodi cynnwys Cofnod Penderfyniadau cyfarfodydd Grŵp Rheoli Aur Covid-19 y Grŵp Arweiniol er mwyn monitro'r modd yr oedd trefniadau gwneud penderfyniadau'r Cyngor yn cael ei lywodraethu ar ôl i'r trefniadau hynny gael eu haddasu.

Diolchodd y Cadeirydd i Elin Prysor am yr adroddiad.

**41 Adroddiad Diogelu Grwp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS Chwarter 1 2021/22**

Daeth Elizabeth Upcott i'r cyfarfod i gyflwyno Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS ar gyfer Chwarter 1 2021/22, 2021/2022. Bu iddi amlinellu crynodeb o'r prif bwyntiau fel a ganlyn:

- Roedd tipyn o gynnydd yn nifer yr adroddiadau diogelu plant o'i gymharu â'r chwarter blaenorol a arweiniodd at Drafodaethau Strategaeth/Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn Plant, 99 o adroddiadau yn Chwarter 4 o'i gymharu â 116 yn Chwarter 1. Mae hwn yn gynnydd sylweddol o'r un chwarter y flwyddyn flaenorol pan gafwyd 85 o adroddiadau a aeth ymlaen i drafodaeth strategaeth/cyfarfod strategaeth. Gyda'r cyfyngiadau'n cael eu llacio a'r ysgolion yn ailagor cafwyd twf yn nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd ar ôl i lefelau adrodd leihau yn ystod y cyfnod clo.
- Cynhaliwyd 18 o Gynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant yn ystod y chwarter hwn o'i gymharu â 9 yn y chwarter blaenorol, sef Chwarter 4.
- Cyfanswm y plant a gafodd eu rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn dilyn Cynadleddau Cychwynnol oedd 18 yn y chwarter hwn, o'i gymharu â 7 yn ystod y chwarter blaenorol.
- Unwaith eto yr heddlu oedd y brif asiantaeth atgyfeirio yn y chwarter hwn wedi'i ddilyn gan staff Addysg ac yna staff y

Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hyn yn dilyn yr un patrwm â Chwarter 4.

- Y pryderon mwyaf a arweiniodd at gwblhau ymholiadau amddiffyn plant oedd honiadau o gam-drin/camfanteisio'n rhywiol (25) a cham-drin corfforol (24). Yn Chwarter 4 y prif gategorïau o gam-drin a gafodd eu hadrodd oedd cam-drin corfforol (17) a cham-drin rhywiol (16).
- Roedd y cynadleddau cychwynnol amddiffyn plant a gynhaliwyd yn ystod y chwarter hwn wedi dyblu o'r chwarter blaenorol. Cynhaliwyd 94.4% o'r cynadleddau cychwynnol o fewn yr amserlenni.
- Cynhaliwyd cyfanswm o 12 o Gynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant yn ystod y chwarter hwn. Roedd y rhain ar gyfer cyfanswm o 24 o blant o 12 teulu. O ganlyniad i'r cynadleddau adolygu roedd 7 plentyn wedi parhau ar y gofrestr a chafodd 17 o blant eu dileu o'r Gofrestr Amddiffyn Plant. O'r nifer y plant a gafodd eu dileu o'r gofrestr, roedd 16 o blant yn parhau i fod yn destun Cynllun Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth.
- Mewn 95% o'r cynadleddau a gynhaliwyd roedd o leiaf un aelod o'r teulu sydd â Chyfrifoldeb Rhieni yn bresennol yn y gynhadledd, ac mewn 90% o'r cynadleddau a gynhaliwyd cafodd barn y plentyn ei chynrychioli.
- Y prif ffactorau risg i blant a gafodd eu cofnodi o'r cynadleddau oedd cam-drin domestig, rhieni ddim yn cydweithredu â Chynllun Amddiffyn Plant, rhieni'n gwahanu, ac anawsterau iechyd meddwl rhieni.
- Roedd nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn gyson â'r chwarter blaenorol. Fodd bynnag, cafodd 17 o blant eu datgofrestru a chafodd 18 o blant eraill eu cofrestru yn y Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant.

Yn dilyn cwestiwn ynglŷn â chapasiti’r staff, cadarnhawyd bod yna swyddi gwag oedd angen eu llenwi. Serch hynny, roedd holl ofynion y gwaith statudol yn cael eu bodloni ac roedd y staff yn parhau i weithio’n ddiflino yn y gwasanaeth hwn. Roedd gwaith partneriaeth yn allweddol. Er enghraifft, roedd Swyddogion Cyswllt yr Heddlu wedi’u neilltuo i bob ysgol yng Ngheredigion ac roedd galw am eu cefnogaeth yn rheolaidd.

Codwyd pryder ynghylch y cynnydd mewn atgyfeiriadau Amddiffyn Plant a chadarnhaodd y Swyddog fod Gweithwyr Cymdeithasol wedi parhau i gynnal ymweliadau hanfodol ar gyfer y teuluoedd hynny lle’r oedd y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant hyd yn oed yn ystod y cyfnod clo, gan gadw at ganllawiau Covid. Dywedodd un o’r Aelodau wrth y Pwyllgor ei fod yn ymwybodol o athrawon a oedd yn ymweld â chartrefi teuluoedd y plant yn ystod y cyfnod clo i ddarparu gwaith cartref i’r plentyn fel ffordd o fonitro’r plant hynny a oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Alun Williams, yr Aelod Cabinet, fod recriwtio staff yn fater o bryder a bod Staff Asiantaeth yn cael eu cyflogi i gynorthwyo. Dywedodd hefyd fod nifer yr atgyfeiriadau lefel uchel hefyd yn fater o bryder. Ychwanegodd ei fod hefyd o’r farn fod cyllideb sylfaenol y Gwasanaethau

Cymdeithasol yn rhy isel i fodloni'r dyletswyddau statudol. Diolchodd i'r Swyddogion / Staff am eu gwaith caled parhaus.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd yr Aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefel o weithgarwch o fewn yr Awdurdod Lleol fel bod trefniadau llywodraethu gweithgarwch yr Awdurdod Lleol ac asiantaethau sy'n bartneriaid yn cael eu monitro.

Nodwyd bod gan ddiogelu statws coch ar hyn o bryd ar Gofrestr Risgiau'r Awdurdod.

Diolchodd y Cadeirydd i Elizabeth Upcott am gyflwyno'r wybodaeth a gofynnodd iddi ddiolch i'r Staff am eu hymdrechion parhaus.

**42 Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu 2020/2021**

Cyflwynodd Lisa Evans Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu 2020/2021. Cytunodd yr Aelodau i nodi'r cynnwys cyn i'r adroddiad gael ei gyflwyno gerbron y Cyngor Llawn ar 9 Rhagfyr 2021.

**43 Hunanwerthuso'r trefniadau craffu**

Cyflwynodd Lisa Evans adroddiad ynghylch hunanwerthuso'r trefniadau craffu. Yng nghyfarfod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2018, cytunwyd y byddai'r Swyddogion Craffu yn cynnal adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau Trosolwg a Chraffu yng Nghyngor Sir Ceredigion ac y byddai hyn yn cael ei wneud bob blwyddyn yn y dyfodol.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2020, penderfynwyd gwneud y canlynol:

1. Parhau i gynnal yr arolwg yn flynyddol;
2. Lleihau nifer y cwestiynau gyda'r nod o gynyddu cyfranogiad;
3. Adolygu fformat yr adroddiad, cyfuno'r ymatebion Cymraeg a Saesneg, a chyfieithu'r ddogfen yn ei chyfanrwydd.

Cafwyd cyfanswm o 15 o ymatebion. Roedd hyn yn ostyngiad o'i gymharu â'r 25 o ymatebion a dderbyniwyd yn 2020. Roedd rhai aelodau wedi ymateb ar-lein a rhai wedi ymateb drwy'r post. Ni ddatgelwyd enwau'r Aelodau.

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried yr ymatebion a ddaeth i law o'r holiadur ynghylch hunanwerthuso'r trefniadau craffu a nodi unrhyw feysydd i'w gwella.

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i nodi'r ymatebion a ddaeth i law.

**44 Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) Ceredigion a gynhaliwyd ar 17 Medi 2021 a'r Asesiad o Lesiant Lleol Drafft**

Cyflwynodd Cathryn Morgan gofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 17 Medi 2021.

Cyflwynodd Rob Starr a Caitlin Theodorou yr Asesiad Drafft o Lesiant Lleol. Dywedodd Rob Starr wrth Aelodau'r Pwyllgor fod yr Asesiad drafft o Lesiant

Lleol wedi'i baratoi er mwyn cyfrannu at y gwaith o baratoi Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-28. Byddai'r Cynllun yn nodi sut y byddai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gwella llesiant Ceredigion a'i chymunedau dros y 5 mlynedd nesaf gan amlinellu'r hyn sy'n bwysig i'r bobl a'r cymunedau yng Ngheredigion. Roedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cymeradwyo'r asesiad drafft fel y gellid ymgynghori yn ei gylch ac roedd y Bwrdd ar y trywydd iawn i gyhoeddi'r Asesiad terfynol ym mis Mawrth 2022.

Ar ôl hynny, amlinellodd Rob Starr a Caitlin Theodorou y prif themâu a chanfyddiadau hyd yma a oedd fel a ganlyn:

- Digideiddio – adroddwyd bod hon yn flaenoriaeth uchel, yn fwy felly gan fod mwy o bobl bellach yn gweithio o gartref ac o bell;
- Fforddiadwyedd tai – adroddwyd bod hyn yn flaenoriaeth uchel, yn fwy felly gan fod prisiau tai wedi cynyddu yn ystod y pandemig;
- Tlodi (tlodi mewn gwaith a thlodi plant) – Ceredigion welodd yr ail gynnydd uchaf mewn tlodi plant yng Nghymru ac felly roedd angen monitro hyn yn ofalus;
- Newid yn y boblogaeth – bu gostyngiad yn nifer y bobl sydd yn yr oedran gweithio a chynnydd yn nifer y bobl hŷn. Gallai hyn arwain at fwy o anghenion cymhleth a phwysau ar ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol;
- Yr Amgylchedd – roedd newid hinsawdd a diogelu'r amgylchedd yn bwysig, yn enwedig i blant;
- Anghenion iechyd y dyfodol – Nodwyd y byddai cael gwasanaethau hamdden o ansawdd gwell a sicrhau gwell mynediad iddynt yn cynorthwyo lles ac iechyd meddwl yr unigolyn;
- Rôl diwylliant – nodwyd bod hyn yn bwysig er y cafwyd gostyngiad yn nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol a threftadaethol ychydig cyn pandemig COVID-19. Serch hynny, roedd canlyniadau'r ymgysylltu yn dangos tystiolaeth bod unigolion yn gwerthfawrogi'n fawr rôl diwylliant yn eu bywydau;
- Y Gymraeg – roedd y dystiolaeth yn dangos bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Sir yn parhau i gynyddu.

Aeth Caitlin Theodorou yn ei blaen i esbonio camau nesaf y broses hon:

- Cyfnod ymgynghori – 8 wythnos (disgwyl iddo ddechrau'n fuan iawn);
- Ymgynghoriad i barhau tan Ionawr 2022;
- Gofyn i bawb roi adborth ac ymateb;
- Cyflwyno'r Asesiad Terfynol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 7 Mawrth 2022.

Wrth ymateb i gwestiynau a phryderon yr Aelodau, yn benodol y pryderon ynghylch tlodi a thai, cadarnhawyd bod angen gwneud rhagor o waith ymchwil cyn cwblhau'r ddogfen.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd yr Aelodau i'r argymhellion canlynol:

1. Derbyn cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 17 Medi 2021; a
2. Derbyn yr Asesiad drafft o Lesiant Lleol sy'n destun ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd.

Diolchodd y Cadeirydd i Diana, Rob, Caitlin, Mari ac Arweinydd y Cyngor am yr adroddiad manwl.

**45 Diweddariad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac ystyried y Blaenraglenni Gwaith drafft**

Darparodd Cadeiryddion pob Pwyllgor wybodaeth yn eu tro am y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu y maen nhw'n eu cadeirio.

Cytunwyd i gynnwys Strydlun ar flaengynllun gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus fel y gellid trafod rhwystrau ar balmentydd.

**46 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyd-lynu a gynhaliwyd ar 15 Medi 2021 ac ystyried unrhyw faterion yn codi o'r Cofnodion hynny**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar 15 Medi 2021 yn rhai cywir.

Tynnodd y Cadeirydd sylw'r Pwyllgor at gofnod 29 ar dudalen 2 sef 'Cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2021 ac Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2020-2021'. Dywedodd fod Aelod o'r Pwyllgor wedi codi pryderon ym mharagraff 2 a 3 gan ofyn i'r Cadeirydd godi'r pryderon hynny yng nghyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cadarnhaodd y Cynghorydd Rees-Evans ei fod wedi codi'r pryderon hynny.

**47 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd ei fod er sylw brys y Pwyllgor**

Ni chodwyd unrhyw fater.

Diolchodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Rowland Rees-Evans, i Aelodau'r Pwyllgor am ddod i'r cyfarfod ac i'r Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet am gyflwyno'r wybodaeth. Diolchodd i bob swyddog a fu'n rhan o'r cyfarfod am sicrhau bod y cyfarfod wedi rhedeg yn rhwydd.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 10 Chwefror 2022**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:__________________**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol